wavehill consulting

Evidence-based Evaluation and Research
Ymchwil a gwerthuso yn seiliedig ar dystiolaeth

Adroddiad Terfynol Prentisiaethau yn y Diwydiant Adeiladu

Cymunedau yn Gyntaf – Bro Ddyfi – Communities First

communities first cymunedau yn gyntaf

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paratowyd ar gyfer: Cymunedau yn Gyntaf – Bro Ddyfi – Communities First

Paratowyd gan: Wavehill Consulting

MRS

Social Research Association

UNITED KINGDOM UKES EVALUATION SOCIETY

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Tabl Cynnwys

Adran	Teitl	Tudalen
1	**Crynodeb Gweithredol**	**3**
2	**Rhagarweiniad**	**12**
2.1	Bro Ddyfi	12
2.2	Cymunedau yn Gyntaf	12
2.3	Pathfinder	13
3	**Cefndir y Diwydiant Adeiladu**	**15**
3.1	Y Diwydiant Adeiladu yn y DU a Chymru	15
3.2	Y Diwydiant Adeiladu yng Nghanolbarth Cymru	18
4	**Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil**	**20**
4.1	Rhagarweiniad	20
4.2	Amcanion y Prosiect Ymchwil	20
4.3	Y Fanyleb Ymchwil	20
4.4	Methodoleg	21
5	**Cynlluniau Dysgu Seiliedig ar Waith Cenedlaethol**	**24**
5.1	Prentisiaethau Modern	24
5.2	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu	27
6	**Cynlluniau Dysgu Seiliedig ar Waith Lleol**	**29**
6.1	Pen Llŷn - Prentisiaethau yn y Diwydiant Adeiladu	29
6.2	Cynllun Prentisiaeth MORLO	31
6.3	Prentisiaeth 'Codi'r To' yr Uned Pobl a Gwaith	32
6.4	Sheffield Rebuild	34
6.5	Canolfan Sgiliau Maesteg	37
7	**Barnau'r Cyflogwyr**	**38**
7.1	Rhagarweiniad	38
7.2	Canlyniadau'r Dadansoddiad Data	38
7.3	Casgliadau'r Dadansoddiad Data	50
7.4	Canlyniadau Grŵp Ffocws y Cyflogwr	51
8	**Barnau'r Rhanddeiliaid**	**53**
8.1	Rhagarweiniad	53
8.2	Canlyniadau'r Dadansoddiad Data	53
8.3	Casgliadau'r Dadansoddiad Data	57
9	**Canlyniadau Grŵp Ffocws Pobl Ifanc**	**58**
9.1	Rhagarweiniad	58
9.2	Canlyniadau Trafodaeth y Grŵp Ffocws	58
9.3	Casgliadau	60
10	**Y Dyfodol**	**61**
11	**Argymhellion**	**62**

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Rhagarweiniad

1.1.1 Nodweddion Economaidd

Mae Bro Ddyfi yn ardal wledig gan mwyaf ym Mhowys, sy'n ymestyn o'i hanheddiad mwyaf, sef Machynlleth (poblogaeth 2,147; Ffynhonnell ONS, Cyfrifiad 2001) yn ei phen gorllewinol i bentref Llanbrynmair yn y dwyrain, gan gymryd cymunedau Talerddig, Abergwydol, Glantwymyn, Dolfach, Llanbrynmair, Commins Coch, Cwmllinau, Cemais, Cemmaes Road, Penegoes, Felingerrig, Derwenlas, Llanwrin, Ceinws, Pennant, Dylife, Abercegir, Darowen, ac Aberhosan. Mae'n cynnwys codau post SY19 a 20.

Mae ardal Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn cynnwys y pedair ward sy'n gwneud rhan Powys o Fro Ddyfi (Machynlleth, Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair), ac mae'n un o'r ardaloedd mwyaf o ran maint, mwyaf gwledig a chyda'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg i gael ei chynnwys yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ardal yn unigryw hefyd am mai dyma'r unig ardal Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru sy'n cyd-ffinio'n union ag ardal Fforwm Lleol y Strategaeth Gymunedol Leol.

1.1.2 Cymunedau yn Gyntaf

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am reoli a rhoi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar waith. At ei gilydd, cafodd 142 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eu dynodi a'u cyhoeddi yn ystod yr haf 2001, sy'n cynnwys 100 o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ynghyd â 32 is-boced o amddifadiad, a 10 partneriaeth yn seiliedig ar gynigion dychmygus. Mae Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn ffitio i mewn i'r categori cynigion dychmygus, fel grŵp cysylltiedig neu grŵp "cadwyn" o gymunedau gwledig. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd rydym yn dweud eu bod dan anfantais, ac i'r asiantaethau sy'n cyflwyno gwasanaethau yn y cymunedau hynny, i astudio realiti tlodi ac i ddysgu a chydweithio i fynd i'r afael ag ef. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud â chefnogi cymunedau, grwpiau ac unigolion i ddod o hyd i'w lleisiau a defnyddio'u sgiliau a'u profiadau i newid, herio, cyd-drafod, dwyn perswâd a chynllunio ar y cyd er lles eu cymunedau.

1.1.3 Pathfinder

Ym mis Rhagfyr 2004 dewiswyd Bro Ddyfi gan ELWa i fod yn ffocws un o'r prosiectau Pathfinder Daearyddol cychwynnol. Mae pathfinder daearyddol yn cefnogi cydlyniad a chydweithrediad rhwng darparwyr dysgu er mwyn cymell ansawdd y dysgu, ehangu'r dewis i ddysgwyr, a chreu rhwydwaith dysgu mwy hyblyg ac ymatebol. Arweiniodd yr ymarfer ymgynghori ar gyfer Pathfinder Daearyddol Bro Ddyfi at gasglu gwybodaeth fanwl am ystod o faterion a dewisiadau posibl er mwyn gwneud cynnydd i'r dyfodol. Yn ei dro, arweiniodd hyn at benderfyniad terfynol mewn perthynas â chyfeiriad darpariaeth addysgol yn yr ardal i'r dyfodol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnig i sefydlu darpariaeth ysgol integredig, dysgu i oedolion a gwasanaeth cymunedol. Yn dilyn y penderfyniad hwn, cadarnhawyd ym mis Mai 2007 bod £620,000 o gyllid grant o Raglen Llwybrau Dysgu 14 – 19 y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddyfarnu i Gyngor Sir Powys i ddatblygu cyfleusterau addysg a hyfforddiant ym Machynlleth.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

1.2 Cefndir y Diwydiant Adeiladu

1.2.1 Y Wlad sy'n Dysgu

Caiff cyd-destun strategol dysgu a sgiliau yng Nghymru ei ffurfio gan adroddiad strategaeth ddiweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006):

"Y wlad sy'n dysgu: gweledigaeth ar waith – cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru hyd nes 2010"

Mae'r strategaeth yn cynnwys dwy elfen allweddol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn. Dyma nhw:

- llwybrau dysgu 14-19
- Y tu hwnt i addysg orfodol – ôl-16 (AB a dysgu gydol oes)

1.2.2 Adolygiad Leitch

Adolygodd *"The Leitch Review of Skills: Prosperity for all in the global economy"* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006 gymysgedd sgiliau gorau posibl y DU ar gyfer 2020, er mwyn mwyhau twf economaidd, cynhyrchiant a chyfiawnder cymdeithasol, gosod y cydbwysedd cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni'r proffil sgiliau hwnnw, ac ystyried y fframwaith polisi sy'n ofynnol i'w gefnogi. Mae'r Adolygiad yn gosod gweledigaeth ar gyfer y DU. Mae'n dangos bod rhaid i'r DU godi cyflawniadau ar bob lefel o sgiliau ar frys ac mae'n argymell ei bod yn ymrwymo i ddod yn arweinydd y byd mewn sgiliau erbyn 2020, wedi'i feincnodi yn erbyn chwartel uchaf yr OECD. Mae hyn yn golygu dyblu'r cyrhaeddiad presennol ar y rhan fwyaf o lefelau sgiliau. Mae'r adroddiad yn nodi bod rhaid rhannu cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni uchelgeisiau rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion.

1.2.3 Y Diwydiant Adeiladu Canolbarth Cymru

Comisiynwyd Miller Research (UK) Ltd gan ELWa i ymchwilio i anghenion sgiliau'r sector adeiladu yng Nghanolbarth Cymru. O ran canfyddiadau cyffredinol, gwelodd Miller Research fod:

- Adeiladu yn gryfder cyflogaeth ranbarthol yng Nghanolbarth Cymru, sy'n cyfrif am 8.7% o'r holl gyflogaeth, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.7%.
- Nodweddir y sector yng Nghanolbarth Cymru gan gyfran uchel o fusnesau bach a micro fusnesau, sy'n dibynnu ar staff amlfedrus a rhwydweithiau anffurfiol i gwblhau prosiectau.
- Caiff llawer o gontractau mwy o faint eu rhoi i sefydliadau y tu allan i'r rhanbarth, a allai is-gontractio cyfran o'r gwaith yn lleol wedyn.
- Mae cyflogaeth yn tueddu'n drwm tuag at wrywod a gweithio amser llawn.
- Ceir cryfderau lleol mewn adfer ac atgyweirio adeiladau ac mae'r potensial i ehangu sgiliau adeiladu gwyrdd yng Nghanolbarth Cymru wedi'i nodi.
- Mae rhagolygon y diwydiant yn darogan gofyniad staff cyffredinol o 180 o ymgeiswyr newydd y flwyddyn hyd at 2007, y mae angen bron hanner ohonynt yn sgil ymddeoliadau. Mae disgwyl i'r gofynion mwyaf sylweddol fod ar gyfer gwaith coed, bricwyr, trydanwyr, rheolwyr, peintwyr, gweithwyr proffesiynol a phlymwyr.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

1.3 Amcanion a Methodoleg Ymchwil

1.3.1 Amcanion Ymchwil

Mae amcanion y prosiect ymchwil hwn wedi'u llywio'n uniongyrchol gan safbwyntiau'r gymuned ar flaenoriaethau ar gyfer thema Economi a Chyflogaeth proses Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, a chan adroddiad y Bartneriaeth sy'n ymwneud â'r thema hon.

Adlewyrchwyd y blaenoriaethau hyn ym manyleb y prosiect, a nododd yn glir yr amcanion ymchwil ar gyfer y darn hwn o waith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Edrych ar anghenion cyflogwyr, gweithwyr a phobl ifanc sy'n dymuno gweithio yn y maes hwn.
- Trafod â chyflogwyr a sefydliadau cymorth, fel CITB, a yw hi'n bosibl paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer y byd gwaith.
- Edrych ar y rhwystrau i gymryd prentis, gan ganolbwyntio ar gyflogwyr.
- Edrych ar y goblygiadau o gymryd prentis, a sawl un sy'n awyddus i gael gafael ar weithwyr newydd.
- Edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd i symud pethau ymlaen ym Mro Ddyfi.
- Edrych ar fanteision ac anfanteision Cynllun Prentisiaeth.
- Asesu'r galw gan bobl ifanc i weithio yn y Fasnach Adeiladu.

1.3.2 Methodoleg

Roedd methodoleg 3 cham Wavehill ar gyfer y gwaith fel a ganlyn:

Cam 1 – Fframwaith Cynllunio ac Ymchwil. Roedd hwn yn cynnwys cyfarfodydd briffio a chynllunio cychwynnol, ymchwil desg sylweddol, trafodaethau mewn perthynas â chwestiynau ymchwil ac offer ymchwil gan gynnwys arweiniadau i bynciau. Yn dilyn y cyfarfodydd cynllunio cychwynnol hyn, datblygodd Wavehill fframwaith ymchwil i gynnwys camau, cerrig milltir, allbynnau a dyddiadau cyflawni.

Cam 2 – Ymchwil a Gwaith Maes. Roedd hyn yn cynnwys ystod eang o gyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid allweddol fel busnesau lleol, sefydliadau cymorth lleol / rhanbarthol, a phobl ifanc lleol. Cynhaliwyd cyfweliadau naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy fformat grŵp ffocws.

Cam 3 – Adrodd. Diweddarodd Wavehill y grŵp llywio ar hyd y broses werthuso. Cwblhawyd dadansoddiad data ym mis Ebrill, gydag adroddiad drafft i ddilyn a gyflwynwyd i'r Bartneriaeth ym mis Mai. Daeth adborth ar yr adroddiad drafft i law yng nghanol mis Mehefin, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei baratoi ym mis Mehefin 2007. Wedyn, rhoddwyd cyflwyniad terfynol i randdeiliaid allanol ym mis Gorffennaf 2007.

1.4 Barnau'r Cyflogwyr

Cynhaliwyd cyfanswm o 51 cyfweliad ar sail un i un, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2007. Roedd canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau hyn fel a ganlyn:

- Nid oedd gan fwyafrif y cyfweledigion (53%) unrhyw weithwyr, neu roeddent yn cyflogi 1 i 5 person (31%) yn unig.
- Nid yw mwyafrif y cyflogwyr (86%) yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd ar hyn o bryd.
- Dim ond 12% o gyfweledigion (6 chwmni o'r 51 a holwyd) sydd â phrentis/prentisiaid ar eu llyfrau ar hyn o bryd.
- Dim ond 25% o gwmnïau sy'n defnyddio ffurfiau arloesol neu gynaliadwy o sgiliau adeiladu, gan ddynodi bod y sector hwn yn parhau'n faes twf posibl ar gyfer Bro Ddyfi.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- Gwelwyd mai'r rhwystrau i a'r goblygiadau o gymryd prentis oedd: Iechyd a diogelwch / tâp coch a gwaith papur; Cost; Brwdfrydedd / agwedd / parodrwydd i ddysgu; Diffyg hyfforddiant ymarferol i brentisiaid pan fyddant yn y coleg / gormod o theori; Amser; Y cyflogwr yn colli annibyniaeth / rhyddid. O'r atebion hyn, iechyd a diogelwch oedd yr ymateb a roddwyd amlaf.
- Teimla 57% o'r ymatebwyr fod cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi.

Er y cafwyd cymorth cyffredinol ar gyfer yr egwyddor o gynlluniau prentisiaeth, yn ymarferol, mae cyflogwyr yn amharod i ymrwymo i gymryd prentis. Pan fydd gofynion baich gwaith yn cynyddu, neu pan fydd angen sgiliau penodol ychwanegol, mae'n ymddangos bod yn well gan fusnesau is-gontractio yn ôl yr angen, neu dynnu ar eu rhwydweithiau cymorth anffurfiol eu hunain (e.e. aelodau'r teulu).

Yn ogystal, soniodd y cyfweledigion ynghylch natur y ddarpariaeth hyfforddiant presennol ar gyfer y diwydiant, gan nodi bod llawer yn teimlo nad oedd y cyrsiau a'r prentisiaethau ar eu ffurf bresennol yn cyflawni'r hyn yr oedd ar gyflogwyr eu heisiau. Er enghraifft, siaradodd fwy nag un cyflogwr am brentisiaid yn dod ar y safle yr oedd ganddynt ddiffyg sgiliau sylfaenol, ac felly ni allent gyflawni tasgau syml. Siaradodd cyflogwyr eraill am ddiffyg profiad ymarferol a oedd yn gwneud prentisiaid yn berygl ar y safle.

Ar ôl dadansoddi ac adolygu'r canlyniadau o gyfweliadau'r cyflogwyr, penderfynodd Wavehill y byddai'n ddefnyddiol cynnal grŵp ffocws pellach i drafod rhai o'r materion a'r pryderon a godwyd. Teimlwyd y byddai'r grŵp ffocws ychwanegol hwn yn galluogi cyflogwyr i ddod at ei gilydd yn anffurfiol, i drafod eu pryderon am brentisiaethau a chyflogaeth yn gyffredinol, ac i drafod camau y gellir eu cymryd o bosibl i oresgyn y pryderon neu'r rhwystrau hyn.

O'r cyflogwyr / crefftwyr a gafodd wahoddiad, cytunodd 15 ar lafar i fynychu ar y noson, ond dim ond un cyfranogwr fynychodd ar y noson mewn gwirionedd. Ni roddodd yr un o'r 14 o fynychwyr posibl eraill wybod i Wavehill na fyddent yn mynychu. Felly, ni allai Wavehill symud ymlaen â'r grŵp ffocws fel y trefnwyd, ond rhoddodd yr un cyflogwr a fynychodd gyfraniad defnyddiol at yr ymchwil ehangach, a gwnaeth rai sylwadau diddorol mewn perthynas â'r rhwystrau i gymryd prentis.

Defnyddiwyd y pryderon hyn, fel y mynegwyd gan gyflogwyr yn ystod y broses gyfweld, ac fel a dystiwyd gan yr ymateb siomedig i'r grŵp ffocws, i lywio'r argymhellion a wneir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

1.5 Barnau'r Rhanddeiliaid

Cyfwelodd Wavehill â chynrychiolwyr o'r 11 sefydliad rhanddeiliaid. Yn yr achos hwn, mae rhanddeiliaid yn sefydliadau sydd, ar adegau, yn gweithio ochr yn ochr â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi neu mewn partneriaeth â nhw. Ceisiwyd barnau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yn benodol gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau [DEIN] a'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau [AADGOS], y sector gwirfoddol, y sector cymunedol, partneriaethau cyhoeddus / preifat, cyrff y diwydiant, a sefydliadau hyfforddiant ac addysg.

Roedd y sylwadau gan y rhanddeiliaid i gyd yn nodi cefnogaeth eang ar gyfer cynllun prentisiaeth. At hynny, mae nifer o randdeiliaid hefyd yn gweld yr angen i ymateb i angen a ddangoswyd gan y cyflogwr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, ni ellir sicrhau bod diddordeb y cyflogwr yn cael ei drosi'n gamau gweithredu ac, yn ymarferol, mae'n ymddangos bod cyflogwyr yn amharod i ymroi i gymryd prentis.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Ymddangosai'r rhanddeiliaid yn ymwybodol hefyd o faterion eraill a allai effeithio'n negyddol ar allu bro Ddyfi i sefydlu cynllun prentisiaeth llwyddiannus. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid yn poeni ynghylch lefelau cyffredinol yr ymwybyddiaeth o raglen Cymunedau yn Gyntaf, gan ofni hefyd bod yr isafswm cyflog wedi effeithio'n negyddol ar hyfywedd cynlluniau prentisiaeth yn gyffredinol. At hynny, roedd y rhanddeiliaid hefyd yn wyliadwrus o'r potensial i gyflogwyr gamddefnyddio cynlluniau prentisiaeth, trwy beidio â darparu ehangder priodol o brofiad neu hyfforddiant ar gyfer eu prentisiaid.

Yn ogystal, cydnabyddodd nifer o randdeiliaid y manteision posibl mewn hyfforddiant ac addysg yn yr ardal, a fydd yn codi o ddatblygiadau Pathfinder. Gallai'r potensial ar gyfer effeithiau uniongyrchol o lefelau cynyddol o hyfforddiant yn yr ardal trwy ddatblygiad Pathfinder fod yn sylweddol ond, hyd yma, nid oes modd dyfalu ynghylch yr effeithiau disgwyliedig.

Felly, mewn egwyddor, teimlai mwyafrif y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw bod cynllun prentisiaeth yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi. Fodd bynnag, cafwyd amheuon a phryderon ynghylch ymarferoldeb a hyfywedd cynllun o'r fath.

1.6 Barnau Pobl Ifanc

Roedd Wavehill yn gallu ymgymryd â grŵp ffocws gyda 10 person ifanc o Flynyddoedd 10 ac 11 o Ysgol Bro Ddyfi. Roedd gan nifer o'r disgyblion hyn ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu, a chafwyd cefnogaeth hefyd am y cysyniad o gynllun prentisiaeth lleol. Fodd bynnag, roedd y disgyblion a chanddynt ddiddordeb mewn adeiladu eisoes wedi dechrau gwneud eu cynlluniau eu hunain i fynd i mewn i'r diwydiant. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cynnwys cael cyngor a chymorth gan aelodau o'r teulu a oedd eisoes yn y diwydiant, neu leoliadau gwaith gyda chwmnïau aelodau o'r teulu neu ffrindiau'r teulu. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg cyflogwyr, a oedd yn nodi bod cwmnïau'r diwydiant adeiladu'n dibynnu i raddau helaeth ar rwydweithiau teuluol a ffrindiau anffurfiol i recriwtio gweithwyr a phrentisiaid, ac i weithio ar gyfnodau prysur (yn ogystal â chyflogi isgontractwyr yn ôl yr angen).

1.7 Casgliadau

Mae'r ymchwil sy'n sail i'r adroddiad hwn yn nodi bod yna rywfaint o gefnogaeth i brentisiaid / cynllun prentisiaeth yn ardal Bro Ddyfi, ond nid yw'r gefnogaeth hon yn unfrydol, ac yn bendant heb ystod o gafeatau.

Mae'r ymchwil gyda chyflogwyr yn nodi bod cwmnïau adeiladu yn yr ardal yn aml yn dibynnu ar is-gontractio a rhwydweithiau anffurfiol i fodloni gofynion baich gwaith newidiol. At hynny, pan gaiff prentisiaid eu derbyn, maent yn aml yn cael eu derbyn o ganlyniad i gysylltiadau â rhwydweithiau anffurfiol o deuluoedd a ffrindiau, yn hytrach na thrwy gysylltu â CITB. Mae hyn yn codi'r mater ynghylch a yw cynllun prentisiaeth yn yr ystyr draddodiadol yn gweddu'n benodol i natur yr ardal.

Yn ogystal, mae'r adroddiad wedi amlinellu'r canfyddiad ymhlith cyflogwyr bod y bobl ifanc sy'n fwy medrus yn academaidd yn cael eu hannog i wneud cais i'r brifysgol, yn hytrach na dysgu crefft llaw (medrus) trwy gynllun prentisiaeth neu lwybr arall i'r diwydiant. Ystyriwyd hyn yn rhwystr sylweddol i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant, a theimlai llawer o gyflogwyr fod yna angen ar frys i hyrwyddo'r diwydiant fel dewis swydd ymarferol i bobl ifanc. Y cwestiwn y mae angen mynd i'r afael ag ef yn yr achos hwn yw a yw hyn yn dasg i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, neu'n dasg i'r llywodraeth ganolog.

Os bydd unrhyw syniadau'n ymwneud â chynllun prentisiaeth yn cael eu symud ymlaen yn yr ardal hon, wedyn rhaid iddynt gael eu datblygu'n araf ac yn gynyddol. Fodd bynnag, roedd y diffyg diddordeb nodedig yn y grŵp ffocws i gyflogwyr a gynhaliwyd i drafod posibiliadau'n nodi y gallai hyd yn oed dechrau cynllun graddfa fach fod yn broblem.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae'n glir bod yna fater mewn perthynas â'r gromlin cyflenwad a galw; h.y. a oes digon o alw gan y diwydiant adeiladu yn lleol i gefnogi mwy o bobl hyfforddedig. Er ei bod yn ymddangos fod yna ddiddordeb yn y cynllun o safbwynt cyflenwad (h.y. y sefydliadau rhanddeiliaid) mae'n ymddangos bod gan yr ochr galw (h.y. cyflogwyr) farn wahanol. Dim ond pan geir cyfatebolrwydd rhwng galw a chyflenwad y gall cynllun felly fod yn llwyddiannus.

Yn olaf, os cymerir unrhyw gamau yn yr ardal, wedyn **rhaid** iddynt gysylltu â'r argymhellion yng ngwaith Pathfinder, yn enwedig y rhai sydd yng ngwaith Miller Research, sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu.

1.8 Argymhellion

Mater: Ceir ansicrwydd cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut i symud y syniad o gynllun prentisiaeth ymlaen ar gyfer ardal Bro Ddyfi, ym mha bynnag ffurf y gallai gymryd (os o gwbl). Mae'r diffyg consensws clir gan gyflogwyr lleol mewn perthynas â'r mater hwn, fel y gwelwyd yn yr adroddiad hwn, hefyd yn golygu nad yw 'llyw' mewn perthynas â chyfeiriad i'r dyfodol ar ddod o'r diwydiant adeiladu ei hun.

Tystiolaeth: Cyfweliadau â'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod cynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ymweld â nifer o gynlluniau eraill (fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn) i weld a ellir dysgu unrhyw wersi trwy brofiad mewn ardaloedd eraill. Gyda'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymchwil Wavehill, gallai ymweliadau felly helpu'r Bartneriaeth i bennu ffordd gliriach ymlaen. Mae'n ymddangos o'r ymchwil fod busnesau lleol yn rhy fach o bosibl (h.y. unig fasnachwr neu fusnes teuluol) i gefnogi cynllun o'r fath ac, oni bai y gellir gweld y ddwy ochr yn gweithio mewn ffordd sy'n fanteisiol i'w gilydd, yna mae gormod o risg yn perthyn i'r prosiect hwn. Gallai'r cynllun hwn weithio'n dda iawn mewn ardaloedd gyda busnesau adeiladu mwy o faint a chontractau mwy o faint, ond mae'r cwestiwn yn parhau ynghylch a allai economi Bro Ddyfi gefnogi'r prosiect hwn. Gallai ymweliadau â phrosiectau eraill helpu i egluro elfennau cynllun llwyddiannus, a nodi pa gamau nesaf y gellir eu cymryd o bosibl ym Mro Ddyfi.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mater: Nid yw cyflogwyr y diwydiant adeiladu yn ardal Bro Ddyfi yn gyffredinol frwd ynghylch datblygiad posibl cynllun prentisiaeth. Mae'n ymddangos bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o gynlluniau prentisiaeth, yn ogystal â nifer o bryderon difrifol a leisiwyd gan gyflogwyr mewn perthynas â materion cyfreithiol, diogelwch ac ymarferol sy'n gysylltiedig â chymryd prentis.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal hon.

Argymhelliad: Mae angen gwaith pellach gyda chyflogwyr er mwyn cynyddu dealltwriaeth / proffil prentisiaethau, ac i hyrwyddo manteision posibl cynlluniau prentisiaeth. At hynny, gallai fod yn bosibl i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi i: ddod ag arbenigwyr i mewn i roi cyngor / cymorth ar recriwtio prentis; dod ag arbenigwyr i mewn i roi cyngor / cymorth ar faterion iechyd a diogelwch; dod ag arbenigwyr i mewn i ddarparu hyfforddiant mewn delio â gwaith papur; cyflwyno nosweithiau gwybodaeth i ddod â chyflogwyr a CITB a cholegau at ei gilydd er mwyn iddynt allu cyfnewid barnau mewn perthynas â phroblemau a phryderon gyda chynlluniau prentisiaeth cyfredol, etc. Gallai gwaith datblygu felly gynnwys archwiliad pellach o'r gost i'r cyflogwr o gymryd prentis, fel adolygiad o gostau cyflogau uniongyrchol, costau hyfforddi, cymorth ariannol o gyrff y diwydiant etc, fel bod cyflogwyr yn glir iawn ynghylch y costau o gymryd prentis, ac felly'n teimlo y gallant wneud penderfyniad yn seiliedig ar ffeithiau. Yn hyn o beth, mae potensial i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi weithredu fel both canolog neu'n fan canolog rhwydwaith, gan hwyluso trafodaethau, trefnu hyfforddiant, adeiladu sianelau cyfathrebu, a gwella cyfathrebu rhwng sefydliadau.

Mater: Mae yna ganfyddiad ymhlith rhai cyflogwyr a rhanddeiliaid y caiff y diwydiant adeiladu (neu ffurfiau eraill o lafur llaw medrus) ei ystyried mewn goleuni llai ffafriol, o gymharu â'r dewis o gyflawni canlyniadau TGAU a Safon Uwch da, a mynd i'r Brifysgol. Fodd bynnag, y realiti yw bod y diwydiant adeiladu yn ddewis gyrfa hyfyw ac yn parhau i fod felly i bobl ifanc, yn ardal Bro Ddyfi a ledled y DU, gan fod ymchwil flaenorol a gynhaliwyd gan nifer o sefydliadau (ac a nodwyd yn yr adroddiad hwn) yn nodi bod yna brinder sgiliau cynyddol yn y diwydiant.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi. Adolygiad desg-seiliedig Wavehill o ymchwil sy'n bodoli, cyn dechrau ymchwil sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid yn archwilio'i ddewisiadau ar gyfer gweithio gydag Ysgol Bro Ddyfi i hyrwyddo crefftau llaw, lled-fedrus a medrus fel dewis gyrfa ymarferol. Fodd bynnag, bydd y dewis hwn yn cael ei gynghori'n unig os yw'r diwydiant adeiladu lleol yn fodlon cymryd rhan yn fwy yn y broses. Os nad ydynt yn cymryd rhan, hwyrach y bydd rhaid i bobl ifanc sy'n dymuno dechrau yn y diwydiant adael yr ardal i fynd at gyfleoedd cyflogaeth, a fyddai'n groes i ddiben y cynllun.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mater: Codwyd y posibilrwydd o ddatblygu cyrsiau adeiladu yn Ysgol Bro Ddyfi gan nifer o randdeiliaid. Y canfyddiad yw y byddai hyn yn galluogi pobl ifanc leol i ddeall manteision gyrfa yn y diwydiant yn gliriach. Gallai hyn arwain o bosibl at ddatblygu cyfleoedd treialon gwaith / profiad gwaith, a allai helpu rhyddhau cyflogwyr o rai o'u pryderon mewn perthynas â bod yn 'gaeth' i brentis anaddas (er y byddai nifer o faterion iechyd a diogelwch arwyddocaol i'w goresgyn gyda chynllun o'r fath).

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid yn archwilio'i ddewisiadau ar gyfer gweithio gydag Ysgol Bro Ddyfi i ddatblygu cyrsiau adeiladu. Fodd bynnag, bydd y dewis hwn yn cael ei gynghori'n unig os yw cyflogwyr yn y diwydiant adeiladu lleol yn fodlon cymryd rhan yn fwy yn y broses. Yn ogystal, byddai angen i unrhyw ddatblygiadau o ran cyrsiau adeiladu fod yn unol ag argymhellion Pathfinder Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mater: Pan ofynnwyd i'r cyflogwyr beth oeddent yn teimlo oedd y rhinweddau pwysicaf mewn gweithiwr, roedd ganddynt y diddordeb mwyaf mewn: brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, agwedd dda at gwsmeriaid, ac agwedd dda at waith ac at y cyflogwr. Mae'r rhain yn sgiliau a phriodoleddau gweithle eithaf sylfaenol, yn hytrach na gwybodaeth am neu brofiad penodol yn y diwydiant adeiladu.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Gallai fod yn bosibl i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid ddatblygu cyrsiau hyfforddiant / sesiynau codi ymwybyddiaeth sy'n archwilio pwysigrwydd priodoleddau ac ymddygiadau gweithle sylfaenol. Gallai'r seminarau hyn gael eu cyflwyno i bobl ifanc er mwyn eu paratoi nhw'n well ar gyfer gwaith. Nid oes rhaid cyfyngu sesiynau hyfforddiant felly i'r diwydiant adeiladu, gan fod profiad gwerthuso blaenorol Wavehill yn nodi bod agwedd / parodrwydd i ddysgu etc yn cael eu hystyried gan gyflogwyr fel priodoleddau dymunol mewn gweithiwr ar draws pob sector. Mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Pen Llŷn wedi cymryd rhan mewn cyflwyniad uniongyrchol tebyg, ac mae'n bosibl y gallai gynnig cyngor i'r Bartneriaeth yn ardal Bro Ddyfi.

Mater: Gallai fod yn ddefnyddiol cynnal ymchwil pellach i gynllun prentisiaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal, gan ddod â sectorau eraill i mewn o bosibl fel peirianneg, amaethyddiaeth etc. Gallai ehangu cwmpas y cynllun prentisiaeth posibl yn y ffordd hon helpu i gywain mwy o ddiddordeb yn lleol. Roedd Wavehill wedi gobeithio trafod y posibilrwydd hwn gyda grŵp o gyflogwyr adeiladu ym Mro Ddyfi, ond cafodd ei atal rhag gwneud hynny gan yr ymateb gwael i'r gwahoddiad i grŵp ffocws.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill â rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn ystyried yn ofalus a fyddai ymchwil pellach o ddefnydd yn y cam hwn, neu a ddylid cynnal hwn yn nes ymlaen.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mater: Mae cryn dipyn o ymchwil a arweinir yn strategol, o ran atgyfnerthu a gwella cyflwyno hyfforddiant, eisoes wedi'i ddatblygu yn ardal Bro Ddyfi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi. Adolygiad desg-seiliedig Wavehill o ddatblygiadau ymchwil cyfredol, cyn dechrau'r ymchwil sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Argymhelliad: Bod rhaid i unrhyw gamau a'r holl gamau gweithredu a gymerir gan Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid gysylltu â'r argymhellion yng ngwaith Pathfinder, yn enwedig y rhai sydd yn adroddiad Miller Research yn ymwneud â'r diwydiant adeiladu. Er nad oes galw aruthrol i weld gan gyflogwyr yn ardal Bro Ddyfi am gynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu sydd wedi'i ganolbwyntio'n benodol ar ardal Bro Ddyfi, nid yw hyn yn golygu nad oes dewis i ddatblygu'r syniad dros ardal ehangach (h.y. canolbarth Cymru) fel y disgrifiwyd yn Adroddiad Miller. Gallai'r llond dwrn o gyflogwyr Bro Ddyfi a ddangosodd ddiddordeb gwirioneddol yn y syniad o gynllun felly, ynghyd â'r bobl ifanc yr oedd ganddynt ddiddordeb hefyd, gysylltu â chynllun ehangach ei sail, ac felly ni fyddent yn colli allan yn sgil diffyg cynllun penodol Bro Ddyfi. Felly, teimla Wavehill y dylai Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi barhau i gynnal cysylltiadau cryf gyda datblygiadau Pathfinder, er mwyn sicrhau y gall cyflogwyr a phobl ifanc lleol fynd at unrhyw gynllun a gaiff ei symud ymlaen.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

2. Rhagarweiniad

2.1 Bro Ddyfi – dangosyddion cymdeithasol-economaidd allweddol

Mae Bro Ddyfi yn ardal wledig gan mwyaf ym Mhowys, sy'n ymestyn o'i hanheddiad mwyaf, sef Machynlleth (poblogaeth 2,147; Ffynhonnell ONS, Cyfrifiad 2001) yn ei phen gorllewinol i bentref Llanbrynmair yn y dwyrain, gan gymryd cymunedau Talerddig, Abergwydol, Glantwymyn, Dolfach, Llanbrynmair, Commins Coch, Cwmllinau, Cemais, Cemmaes Road, Penegoes, Felingerrig, Derwenlas, Llanwrin, Ceinws, Pennant, Dylife, Abercegir, Darowen, ac Aberhosan. Mae'n cynnwys codau post SY19 a 20.

Mae ardal Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn cynnwys y pedair ward sy'n gwneud rhan Powys o Fro Ddyfi (Machynlleth, Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair), ac mae'n un o'r ardaloedd mwyaf o ran maint, mwyaf gwledig a chyda'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg i gael ei chynnwys yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ardal yn unigryw hefyd am mai dyma'r unig ardal Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru sy'n cyd-ffinio'n union ag ardal Fforwm Lleol y Strategaeth Gymunedol Lleol.

Mae ystadegau allweddol ar gyfer yr ardal yn cynnwys:

- Mae gan Fachynlleth ei hun gyfradd diweithdra o 4.8%, o gymharu â chyfradd diweithdra o 5.1% ledled Cymru
- Mae 20.1% o drigolion Machynlleth yn byw mewn tai y mae'r cyngor yn berchen arnynt – sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Powys o 10.9%.
- Mae 55% o gartrefi'r dref yn eiddo perchnogion preswyl ym Machynlleth, o gymharu â 69.2% ar gyfer Powys.
- Mae 15.1% o drigolion Machynlleth yn gymwys i lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol o gymharu â 18.5% ar gyfer Powys cyfan a 12.4% ar draws Cymru gyfan.
- Nid oes gan 31.4% o bobl 16-74 oed ar draws Powys unrhyw gymwysterau, o gymharu â 33% ar draws Cymru.
- Mae gan y sir hefyd y gyfran uchaf o bobl 16-74 oed sydd wedi ennill lefel 4/5 fel eu cymhwyster uchaf: 18.5% o gymharu â 17.4% ar draws Cymru. (Ffynhonnell: ONS – Cyfrifiad 2001)

Rheolir economi leol Bro Ddyfi gan amaethyddiaeth a thwristiaeth, ond mae clwstwr bach o eco-fentrau cynaliadwy yn ffynnu yn yr ardal: yr un fwyaf nodedig yw'r Ganolfan Dechnoleg Amgen. Ar lefel ranbarthol, £315.10 yr wythnos yw enillion cyfartalog ardal canolbarth Cymru, o gymharu â chyfartaledd Cymru o £352.60 a chyfartaledd y DU o £402.50 (Ffynhonnell: ONS – Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2004).

Mae ardal bro Ddyfi yn ddwyieithog ei chymeriad gyda rhyw 59% o'r boblogaeth 3 oed neu'n hŷn yn meddu ar un sgil neu'n fwy yn y Gymraeg, mae 56% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg ac mae 44% yn methu siarad yr iaith (Ffynhonnell ONS: Cyfrifiad 2001).

2.2 Cymunedau yn Gyntaf – cefndir a chyd-destun o adroddiad gwerthuso allweddol blaenorol

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymateb i'r dadrithiad cyffredinol â chynlluniau adfywio trwy gymorth grant a'u gallu i gyflawni adfywiad cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am reoli a gweithredu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. At ei gilydd, dynodwyd a chyhoeddwyd 142 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ystod yr haf 2001, sy'n cynnwys 100 o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y mesurwyd gan Fynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2000 (a ddefnyddiodd ffiniau Rhanbarthau Etholiadol 1998) a'r 32 is-boced o amddifadiad a 10 partneriaeth yn seiliedig ar gynigion dychmygus. Mae Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn ffitio i mewn i'r categori cynigion dychmygus, fel grŵp cysylltiedig neu grŵp "cadwyn" o gymunedau gwledig.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Comisiynwyd astudiaeth werthuso interim o dair blynedd ym mis Mai 2003, ac fe'i harweiniwyd gan Cambridge Policy Consultants. Cymerwyd y wybodaeth ganlynol o'r astudiaeth werthuso interim hon: i gael golwg manylach ar y canlyniadau, cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn, neu trowch at ***http://www.communitiesfirst.info***

Dyma oedd canfyddiadau allweddol yr ymchwil hwn:

- Gwelodd yr arfarnwyr fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd y cyfeiriad cywir trwy flaenoriaethu meithrin gallu sefydliadau a grwpiau cymunedol lleol a thrigolion unigol i gymryd rhan yn y broses newid fel rhag-amod angenrheidiol ar gyfer adfywio.
- Gwelodd yr arfarnwyr fod Llywodraeth y Cynulliad, ar ôl dechrau anodd, wedi llwyddo i greu strwythur a fframwaith gydag arweiniad y gallai partneriaethau gyflawni ymglymiad cymunedol a phlatfform trwyddo y byddant nawr yn gallu cysylltu â phartneriaid ohono.
- Gwelodd yr arfarnwyr y dylai plygu rhaglenni fod yn broses i gael awdurdodau lleol, asiantaethau eraill sy'n cyflwyno gwasanaethau statudol a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig, i ddeall y rhesymau am y gost uchel ymddangosiadol o weithio yn y meysydd hyn (e.e. cost uned uwch y ddarpariaeth mewn ardaloedd difreintiedig yn sgil pellter etc, amledd uwch o broblemau, nifer sylweddol o drigolion sy'n wynebu anfanteision lluosog, etc). Gwelodd yr arfarnwyr nad oedd gan y tîm craidd yn Llywodraeth y Cynulliad ddigon o staff yn nhair blynedd a hanner cyntaf y rhaglen (Ebrill 2001 i Fedi 2004). Yn ogystal, nid oedd yr un aelod o staff wedi'u hyfforddi ar gyfer gwaith datblygu cymunedol ac felly ni allent ddarparu'r math o gymorth yr oedd ei angen ar gydlynwyr a phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.
- Gwelodd yr arfarnwyr fod cyrff sy'n derbyn grantiau yn ei chael hi'n anodd cydbwyso rolau'r corff atebol, y corff cymorth a'r corff arweinyddiaeth.
- Gwelodd yr arfarnwyr na chafodd y Cydlynwyr unrhyw hyfforddiant sefydlu ar gyfer eu swydd. Gall rôl y cydlynwyr fod yn waith anodd a llawn straen ac mae angen amrywiaeth eang o sgiliau arnynt, ac mae hyn wedi cyfrannu at lefelau eithaf uchel o drosiant staff mewn rhai meysydd.

2.3 Pathfinder

Ym mis Rhagfyr 2004, dewiswyd Bro Ddyfi gan ELWa i fod yn ffocws un o brosiectau cychwynnol Pathfinder Daearyddol. Mae pathfinder daearyddol yn cefnogi cydlyniad a chydweithrediad rhwng darparwyr dysgu er mwyn codi ansawdd y dysgu, ehangu'r dewis i ddysgwyr, creu rhwydwaith dysgu mwy hyblyg ac ymatebol, lleihau cystadleuaeth ddibwys, a chyfrannu at barch cydradd.

Roedd y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ym Mro Ddyfi yn rhan o drafodaethau gydag ELWa o'r cychwyn, ac roedd yn gallu rhannu gwybodaeth a gasglwyd o'i ymgynghoriadau yn y gymuned. Yn dilyn gwaith pellach gydag ELWa, nodwyd nifer o faterion. Er enghraifft, mae Bro Ddyfi yn ardal wledig ac ynysig, gydag isadeiledd ffordd a darpariaeth cludiant cyhoeddus gwan eu datblygiad ar draws yr ardal, sydd felly'n gwneud teithio o gwmpas yr ardal a rhwng canolfannau'n anodd.

Arweiniodd yr ymarfer ymgynghori ar gyfer Pathfinder Daearyddol Bro Ddyfi at gasglu gwybodaeth fanwl am ystod o faterion a dewisiadau posibl ar gyfer cynnydd i'r dyfodol. Yn ei dro, arweiniodd hyn at benderfyniad terfynol mewn perthynas â chyfeiriad darpariaeth addysgol yn yr ardal i'r dyfodol, yr oedd Partneriaeth Bro Ddyfi yn ei ffafrio hefyd. Roedd y penderfyniad a gymerwyd fel a ganlyn:

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Integreiddio'r holl ddarpariaeth ôl-11, uwchradd, safon uwch, galwedigaethol, dysgu cymunedol a dysgu oedolion yn ogystal â gwasanaethau cymunedol ehangach gyda'i gilydd dan un consortiwm. Byddai hyn yn cynnwys yr holl ddarparwyr dysgu ôl-11 sy'n cyflwyno i ddysgwyr uwchradd ac oedolion sy'n ddysgwyr yn yr ardal. Byddai elfen o gydleoli gwasanaethau mewn canolfan ddysgu dynodedig ond byddai darparwyr a gwasanaethau eraill yn cael eu cynnwys mewn model cyflwyno ffederasiwn neu gonsortiwm ffurfiol ehangach. Byddai hyn yn creu canolfan ddysgu cymunedol eang ei sail. Mae trefniadau rheoli a llywodraethu newydd yn debygol o fod ynghlwm.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnig i sefydlu darpariaeth ysgol integredig, dysgu oedolion a gwasanaeth cymunedol. Byddai'n cynnwys canolfan ddysgu dynodedig sy'n ymdrin â'r holl ddysgu ôl-11 yn yr ardal ac yn cynnwys model cyflwyno cydffederasiwn neu gonsortiwm ehangach. Yn ddelfrydol, byddai'r holl wasanaethau'n cael eu cydleoli ar un safle, ond lle nad yw hyn yn ymarferol, byddai'r pwyslais ar ymuno gwasanaethau trwy gydweithredu, rhannu staff etc. Byddai'r model yn esblygiadol gan y gallai mwy o elfennau gael eu cydleoli wrth i adeiladau hŷn ddod yn hynafol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu'r cysyniad o ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau i fodloni anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, ac felly byddai'r endid hwn yn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol 11-16, yn ogystal â dod yn Ganolfan Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgu ôl-16.

Er mwyn ymestyn ystod y pynciau sydd ar gael i'r myfyrwyr oed ysgol ac i fynd i'r afael â'r agenda 14-19, bydd angen i'r Ganolfan chwilio am gyrsiau newydd, trwy ryddfraint neu gydweithrediad â darparwyr eraill. Trwy gynnig gwasanaethau ychwanegol, dylid creu mwy o alw a fydd yn cynyddu cyfraddau cyfranogiad ac yn darparu mwy o ryngweithio yn y gymuned. Gallai gwelliannau i'r ddarpariaeth dysgu sydd ar gael yn lleol olygu bod trigolion yn fwy parod i aros yn y dref, gan leihau costau cludiant a chefnogi prosiectau adfywio'r gymuned.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, cadarnhawyd ym mis Mai 2007 fod £620,000 o gyllid grant o Raglen Llwybrau Dysgu 14 – 19 y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddyfarnu i Gyngor Sir Powys i ddatblygu cyfleusterau addysg a hyfforddiant ym Machynlleth.

Cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn i gael manylion llawn pellach ar Pathfinder.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

3. Cefndir y Diwydiant Adeiladu

3.1 Y Diwydiant Adeiladu yn y DU a Chymru

Y Cyd-destun Strategol ar gyfer Cymru: Dysgu a Sgiliau

Caiff y cyd-destun strategol ar gyfer dysgu a sgiliau ei ffurfio gan adroddiad strategaeth diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006):

"Y wlad sy'n dysgu: gweledigaeth ar waith – cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru hyd nes 2010"

Yn gryno, mae'r strategaeth yn cynnwys dwy elfen allweddol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn. Dyma nhw:

- llwybrau dysgu 14-19
- Y tu hwnt i addysg orfodol – ôl-16 (AB a dysgu gydol oes)

Llwybrau dysgu 14-19 – prif flaenoriaethau:

- Cyflwyno cyfleoedd newydd i bobl 14-19 oed fel rhan o'r rhaglen Llwybrau Dysgu, i ddarparu gwell dewis a hyblygrwydd, gan gynnwys cynigion galwedigaethol "llawn gwybodaeth i gyflogwyr" deniadol ar gyfer pob gallu.
- Datblygu "mwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i bobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd prentisiaeth gwerthfawr", yn rhannol trwy alluogi pob dysgwr i gaffael y sgiliau hanfodol y mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth.
- Adolygu cymwysterau presennol a datblygu cymwysterau newydd i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac addysg uwch yn yr 21ain ganrif.
- Datblygu rôl yr Hyfforddwyr Dysgu – "oedolion sydd wedi'u hyfforddi i helpu pobl ifanc i ddeall a datblygu eu sgiliau astudio ac arddulliau dysgu a gwneud dewisiadau sy'n adlewyrchu eu doniau a'u potensial". Codi gallu Hyfforddwyr Dysgu i ddefnyddio Cymraeg fel cyfrwng.
- Treialu llwybrau dysgu sy'n canolbwyntio ar waith, "gweithio'n agos iawn gyda Chynghorau Sgiliau Sector" ochr yn ochr â dull cydweithredol rhwng darparwyr a phartneriaid rhwydwaith a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Awdurdodau Lleol.
- Rôl cyngor ac arweiniad allweddol ar gyfer Gyrfa Cymru; ochr yn ochr â darparwyr a Hyfforddwyr
- Hyblygrwydd i ddysgwyr rhwng ysgolion, colegau AB a dysgu seiliedig ar waith.
- Ymestyn Bagloriaeth Cymru, i ddatblygu ehangder a sgiliau allweddol; sy'n hanfodol ar gyfer dysgu a chyflogaeth.

Y tu hwnt i addysg orfodol – ôl-16 (AB a Dysgu Gydol Oes) – prif flaenoriaethau

- Gwella lefelau sgiliau (a chyflogaeth) ledled Cymru a gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector i gyflawni'r lefelau sgiliau a ddymunir
- Nodi ac ymateb i anghenion cyflogwyr; mynd i'r afael â bylchau a diffygion mewn sgiliau
- Mynd i'r afael â/goresgyn rhwystrau i ddysgu
- Datblygu sgiliau generig, gan gynnwys sgiliau sylfaenol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion ar Ddysgu ar gyfer Sgiliau.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Y Diwydiant Adeiladu yng Nghymru

Mae'r adroddiad diweddar Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL) i Gymru gan CITB – Sgiliau Adeiladu (2006) yn tynnu sylw at y 'penawdau' canlynol ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru; gan ddangos ei arwyddocâd o gymharu â'r DU gyfan:

- Mae gweithgynhyrchu yn gydran bwysig o economi Cymru, gan gyfrif am 18% o GVA o gymharu â chyfartaledd y DU o 16%.
- Mae disgwyl i'r cyfanswm cyflogaeth yn y diwydiant yng Nghymru godi gan ryw 12% yn ystod y cyfnod rhagweld.
- Cofnododd yr allbwn adeiladu yng Nghymru dyfiant cryf ers y tair blynedd diwethaf, yn dilyn dwy flynedd o ddirywiad. Dros y cyfnod rhagweld, mae disgwyl i gyfanswm yr allbwn adeiladu gwirioneddol berfformio'n eithaf cryf gyda rhagolwg twf blwyddyn ar flwyddyn mewn gwaith newydd a gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw o 2006 ymlaen.
- Yng Nghymru, mae'r perfformiad gorau rhwng 2006 a 2010 yn debygol o ddod o'r is-sector masnachol, y mae disgwyl iddo godi gan 5.9% ar gyfartaledd bob blwyddyn.
- Mae disgwyl i Grefftau Coed gael y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog mwyaf yng Nghymru. O 45 o swyddi'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, yr ail ofyniad mwyaf yng Nghymru fydd ar gyfer Rheolwyr, ond mae hyn yn sylweddol is na'r Crefftau Coed.
- Y swyddi gyda'r gofyniad blynyddol cyfartalog isaf yw gweithwyr Gwydrau a Chynnal a Chadw. Mae gan Dowyr a Phlastrwyr ofyniad blynyddol cyfartalog isel dros y cyfnod rhagweld hefyd.
- Mae cwmnïau adeiladu yng Nghymru yn fach gan mwyaf, gyda thua 94% ohonynt yn cyflogi llai na 13 o weithwyr.

Cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion ar y diwydiant yng Nghymru.

Adroddiad Gweithredu ar gyfer Sgiliau Cymru

Mae ConstructionSkills, yn ei rôl fel Cyngor Sgiliau Sector, yn gweithio ar ran y diwydiant adeiladu a'i gleientiaid i sicrhau bod ganddynt y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Er mwyn symud y nod hwn ymlaen, mae ConstructionSkills wedi trafod cyfres o gytundebau sgiliau sector (CSSau), sef cytundebau cydweithredol rhwng cyflogwyr adeiladu, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid y llywodraeth. Fe'u dyluniwyd i gyflwyno'r math iawn o hyfforddiant i gyflogwyr a gweithwyr wella perfformiad a chynhyrchiant y diwydiant.

Nod yr CSS ar gyfer Cymru yw:

- Cael trefn ar berfformiad busnes y diwydiant, yn enwedig mewn meysydd fel iechyd a diogelwch ac ansawdd trwy: gynyddu nifer y cwmnïau sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant; datblygu sgiliau rheoli ac arwain, cefnogi dysgu gydol oes mewn adeiladu; datblygu sgiliau ar gyfer cynaliadwyedd.
- Gloywi sgiliau presennol y diwydiant, gan ddod â'r gweithwyr i fyny i safon ofynnol y diwydiant o Lefel 2 neu lefel gyfatebol trwy: ddwysáu ac ehangu menter 'Cymhwyso'r Gweithlu'; datblygu strwythurau hyfforddi a chymhwyster hyblyg ar gyfer galwedigaethau arbenigol; cynorthwyo integreiddio gweithwyr mudol yn effeithiol.
- Gwella ansawdd ymgeiswyr cymwys newydd (y mae angen 500,000 ohonynt erbyn 2010) trwy: wella dealltwriaeth o'r cyfleoedd gyrfa mewn adeiladu; cynyddu cyfraddau cwblhau gan brentisiaid ac ehangu'r cyfleoedd ar gyfer ymarfer ar y safle; gwella amrywiaeth yn y diwydiant; cynyddu'r ceisiadau ar gyfer cyrsiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu.
- Datblygu sylfeini cadarn i gefnogi'r blaenoriaethau hyn trwy: wella gwybodaeth am sgiliau i'r dyfodol; datblygu strategaeth cymwysterau adeiladu.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae ConstructionSkills bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y sector adeiladu. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar godi sgiliau a gweithio mewn partneriaeth i fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr.

Prentisiaethau Modern yng Nghymru a'r DU

Mae Prentisiaethau Modern yn rhaglenni hyfforddiant a ddyluniwyd yn genedlaethol ar gyfer pobl 16-24 oed sydd wedi gadael addysg amser llawn neu sydd eisoes mewn cyflogaeth. Cynigiant gyfle i bobl ifanc ddechrau eu gyrfa trwy gyfuniad o ddewisiadau dysgu a phrofiad gwaith.

Mae gan Brentisiaid Modern naill ai leoliad gwaith gyda sefydliad neu maent mewn cyflogaeth amser llawn. Maent yn cael lwfans hyfforddi neu gyflog sylfaenol sicr. Darperir hyfforddiant yn y gwaith gan y cyflogwr. Darperir hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gan ddarparwr dysgu, sydd hefyd yn rheoli'r holl waith papur ac yn ymweld â'r prentis yn y gwaith yn rheolaidd i asesu eu cynnydd.

Mae'r holl staff – boed yn recriwtiaid newydd neu'n staff presennol – yn gymwys i ymrestru ar Brentisiaeth os ydynt rhwng 16 a 24 oed pan fydd y Brentisiaeth yn dechrau. Derbynia'r darparwr hyfforddiant gymorth ariannol tuag at gost hyfforddiant y prentis yn unig. Cyflogir y rhan fwyaf o brentisiaid gan fusnes a thelir cyflog iddynt sy'n adlewyrchu eu sgiliau, profiad, oedran a gallu. Bydd rhai prentisiaid ar leoliad gwaith gyda busnes lle caiff lwfans hyfforddi ei dalu iddynt.

I gael rhagor o fanylion, ac i gael adolygiad llawn o Brentisiaethau Modern, cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Adolygiad Leitch

Yn 2004, comisiynodd Llywodraeth y DU Sandy Leitch i gynnal adolygiad annibynnol o anghenion sgiliau tymor hir y DU. Adolygodd yr adroddiad *"The Leitch Review of Skills: Prosperity for all in the global economy"* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006 gymysgedd sgiliau gorau posibl y DU ar gyfer 2020, er mwyn mwyhau twf economaidd, cynhyrchiant a chyfiawnder cymdeithasol, gosod y cydbwysedd cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni'r proffil sgiliau hwnnw, ac ystyried y fframwaith polisi sy'n ofynnol i'w gefnogi.

Mae'r Adolygiad yn gosod gweledigaeth ar gyfer y DU. Mae'n dangos bod rhaid i'r DU godi cyflawniadau ar frys ar bob lefel o sgiliau ac mae'n argymell ei bod yn ymrwymo i ddod yn arweinydd y byd mewn sgiliau erbyn 2020, wedi'i feincnodi yn erbyn chwartel uchaf yr OECD. Mae hyn yn golygu dyblu cyrhaeddiad presennol yn y rhan fwyaf o lefelau sgiliau. Mae'r adroddiad yn nodi bod rhaid rhannu cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni uchelgeisiau rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion.

Yn gryno, mae prif argymhellion Adolygiad Sgiliau Leitch fel a ganlyn:

- Cryfhau llais y cyflogwr a rhesymoli'r cyrff sy'n bodoli trwy greu Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd, sy'n atebol i'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig.
- Cynyddu'r ymglymiad gan gyflogwyr a buddsoddi mewn sgiliau a chyflwyno sgiliau mwy gwerthfawr yn economaidd trwy alluogi nawdd y cyhoedd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a gymeradwywyd gan Gynghorau Sgiliau Sector yn unig.
- Cynyddu sgiliau oedolion ar draws pob lefel a phob oedran.
- Cyfeirio'r holl gyllid sgiliau galwedigaethol i oedolion trwy gyfrifon Train to Gain a Dysgwyr erbyn 2010. Symleiddio rôl y Cyngor Dysgu a Sgiliau i ddod yn gorff cyllido ac yn wneuthurwr marchnad.
- Gwella sgiliau lefel uwch: Newid targedau a chyllid i annog cydweithrediad cyflogwyr / prifysgol.
- Datblygu sgiliau canolraddol o safon fyd-eang a dyblu nifer y prentisiaethau.
- Cynyddu'r buddsoddiad gan gyflogwyr mewn cymwysterau Lefel 3, 4 ac uwch yn y gweithle.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- Adeiladu Platfform Sylfaenol o Sgiliau: Lansio 'Addewid' newydd i gyflogwyr ymroi i hyfforddi'r holl weithwyr cymwys i Lefel 2.
- Codi dyheadau ac ymwybyddiaeth pobl o werth y sgiliau iddynt hwy ac i'w teuluoedd.
- Creu system gyflogaeth a sgiliau integredig newydd i gynyddu cyflogaeth a dilyniant cynaliadwy.
- Mynd i'r afael â datblygu sgiliau sylfaenol i helpu pobl y mae ganddynt ddiffyg sgiliau i ddod o hyd i waith ac aros ynddo.
- Datblygu rhwydwaith cenedlaethol o fyrddau cyflogaeth a sgiliau lleol i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn bodloni anghenion cyflogwyr a bod y gweithwyr yn barod i gael gwaith.

I gael mwy o fanylion ar brif ganfyddiadau'r adroddiad, cyfeiriwch at Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Arolwg Prentisiaethau Adeiladu

Yn ogystal â'r adroddiadau strategol a astudiwyd hyd yma, cynhaliodd y CITB ei Arolwg Prentisiaethau Adeiladu ei hun yn 2002 – 2003. Astudiodd yr arolwg gefndir y dysgwyr gan gynnwys eu cymwysterau, y cwrs a'r rhaglen hyfforddiant roeddent yn eu dilyn, dewis gyrfa'r dysgwyr a'r prif ddylanwadau yn hyn o beth, profiadau'r dysgwyr, asesu anghenion y dysgwyr, safbwyntiau'r dysgwyr ar eu rhaglen hyfforddiant a'u hyfforddiant sefydlu, a'r cyngor a'r cymorth a roddwyd i ddysgwyr mewn perthynas â'u dyfodol.

O'r data hwn, lluniwyd adroddiad cenedlaethol, ynghyd â 7 adroddiad ardal. Gellir gweld prif ganfyddiadau adroddiad ardal Cymru yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

3.2 Y Diwydiant Adeiladu yng Nghanolbarth Cymru

Y Diwydiant Adeiladu a Sgiliau Adeiladu yng Nghanolbarth Cymru

Comisiynwyd Miller Research (UK) Ltd gan ELWa i ymchwilio i anghenion sgiliau'r sector adeiladu yng Nghanolbarth Cymru. O ran canfyddiadau cyffredinol, gwelodd Miller Research fod:

- Adeiladu yn gryfder cyflogaeth ranbarthol yng Nghanolbarth Cymru, sy'n cyfrif am 8.7% o'r holl gyflogaeth, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.7%.
- Gwelodd Powys a Cheredigion £77m o archebion newydd yn ystod 2002, yr oedd £32m ohonynt ar gyfer tai.
- Nodweddir y sector yng Nghanolbarth Cymru gan gyfran uchel o fusnesau bach a micro fusnesau, sy'n dibynnu ar staff amlfedrus a rhwydweithiau anffurfiol i gwblhau prosiectau.
- Caiff llawer o gontractau mwy o faint eu rhoi i sefydliadau o'r tu allan i'r rhanbarth, a allai is-gontractio cyfran o'r gwaith yn lleol.
- Mae cyflogaeth yn tueddu'n drwm tuag at wrywod a gweithio amser llawn.
- Ceir cryfderau lleol mewn adfer ac atgyweirio adeiladau ac mae'r potensial i ehangu sgiliau adeiladu gwyrdd yng Nghanolbarth Cymru wedi'i nodi.
- Mae rhagolygon y diwydiant yn darogan gofyniad staff cyffredinol o 180 o ymgeiswyr newydd y flwyddyn hyd at 2007, y mae angen bron hanner ohonynt yn sgil ymddeoliadau. Mae disgwyl i'r gofynion mwyaf sylweddol fod ar gyfer gwaith coed, bricwyr, trydanwyr, rheolwyr, peintwyr, gweithwyr proffesiynol a phlymwyr. Yng Nghymru, mae disgwyl cael prinder ymgeiswyr cymwys mewn crefftau gwaith coed, gosod brics a pheintio.

Gwnaeth adroddiad Miller nifer o argymhellion manwl o'i ymchwil. Gellir gweld y rhain yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Yn ogystal ag adroddiad ac argymhellion Miller Research, mae Wavehill Consulting ei hun wedi cyflawni gwaith blaenorol yn ardal Bro Ddyfi hefyd sy'n canolbwyntio ar Ddysgu a Sgiliau. Fel rhan o raglen ehangach o ymchwil ar y ddarpariaeth addysgol ôl-16 presennol ym Mro Ddyfi a dewisiadau i'r dyfodol, comisiynodd ELWa Wavehill Consulting i gynnal ymgynghoriad â chymunedau'r ardal i nodi eu hagweddau a'u safbwyntiau ar y ddarpariaeth.

Roedd y prif ganlyniadau fel a ganlyn:

- Roedd pob busnes a gyfwelwyd, heblaw am un ohonynt, wedi darparu hyfforddiant ar gyfer eu gweithwyr yn y tair blynedd diwethaf a oedd yn gymysgedd o hyfforddiant statudol ac anstatudol;
- Teimlwyd mai hyfforddiant mewn lleoliadau cymysg oedd fwyaf priodol;
- Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau y cyfwelwyd â nhw wedi comisiynu hyfforddiant ac roedd pob un ohonynt yn gyffredinol hapus â'i ansawdd;
- Nodwyd anghenion hyfforddiant ymhlith gweithluoedd y busnesau trwy systemau arfarnu ffurfiol gan mwyaf;
- Teimlai'r rhan fwyaf o fusnesau eu bod yn debygol o ddarparu hyfforddiant yn y dyfodol agos;
- Roedd y busnesau yn gadarnhaol iawn ynghylch canlyniadau hyfforddiant a'i effaith ar berfformiad, hyder a chymhelliant staff;
- Roedd gan fwyafrif y busnesau gysylltiadau ag ysgolion lleol a'r gymuned;
- Yn gyffredinol, roedd busnesau'n amharod i gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth, ond teimlai rhai y byddai cymhellion ariannol yn eu hannog i wneud hynny;
- Roedd yna ganfyddiad ymhlith y sawl a gafodd eu cyfweld bod lefelau sgiliau ymadawyr ysgol yn wael.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

4. Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil

4.1 Rhagarweiniad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn astudio bwriadau a diben yr ymchwil – h.y. amcanion y prosiect ymchwil – a'r ffordd y cynhaliwyd yr ymchwil – h.y. y fethodoleg ymchwil.

4.2 Amcanion y Prosiect Ymchwil

Mae Wavehill yn cydnabod bod yr amcanion ar gyfer y prosiect ymchwil hwn wedi'u llywio'n uniongyrchol gan safbwyntiau'r gymuned ar flaenoriaethau ar gyfer thema Economi a Chyflogaeth proses Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a chan adroddiad y Bartneriaeth yn ymwneud â'r thema hon[1]. Pennodd y fanyleb prosiect gwreiddiol y cefndir, y cyd-destun a'r amcanion ar gyfer yr ymchwil yn glir, fel y'u crynhoir isod:

- Datblygu cyfleoedd i bobl ifanc yn y diwydiant adeiladu fel cynllun posibl. Dyma un o brif flaenoriaethau'r Bartneriaeth.
- Mynd i'r afael â cholli swyddi o ganlyniad i gau Celtica, ail-symud WEFO a Bwrdd Croeso Cymru (o Fachynlleth i Aberystwyth), a'r ffaith bod Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru yn nwylo'r derbynwyr.
- Mynd i'r afael ag effaith cyflogau isel mewn amaethyddiaeth a gwaith tymhorol lleol yn y diwydiant twristiaeth.
- Cymryd golwg fanylach ar y posibiliadau lleol sy'n bodoli.
- Edrych ar y posibilrwydd o sefydlu system leol trwy ddefnyddio darparwyr addysg a sefydliadau fel Gyrfa Cymru i ddatblygu cynllun "prentisiaeth" lleol.
- Angen i gynyddu cyfleoedd gwaith yn lleol.
- Angen rhoi cyfle i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.
- Angen rhoi cyfle i fusnesau lleol gysylltu â phobl ifanc.
- Angen sicrhau nad yw'r ardal yn dioddef o ddiffyg sgiliau hanfodol yn y dyfodol.

Mae'r amcanion ymchwil hyn wedi ffurfio'r prif strwythur a fframwaith ar gyfer holl waith ymchwil ac ymgynghori Wavehill, ac ar gyfer cyflwyno'r drafft a'r adroddiad terfynol.

4.3 Y Fanyleb Ymchwil

Nododd fanyleb y prosiect yr amcanion ymchwil yn glir, sef:

- Edrych ar anghenion cyflogwyr, gweithwyr a phobl ifanc sy'n dymuno gweithio yn y maes hwn.
- Trafod â chyflogwyr a sefydliadau cymorth, fel CITB, a yw hi'n bosibl paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer y byd gwaith.
- Edrych ar y rhwystrau i gymryd prentis, gan ganolbwyntio ar gyflogwyr.
- Edrych ar y goblygiadau o gymryd prentis, a sawl un sy'n awyddus i gael gafael ar weithwyr newydd.
- Edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd i symud pethau ymlaen ym Mro Ddyfi.
- Edrych ar fanteision ac anfanteision Cynllun Prentisiaeth.
- Asesu'r galw gan bobl ifanc i weithio yn y Fasnach Adeiladu.

I ddechrau, trefnwyd y byddai'r prosiect yn rhedeg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2007, ond estynnwyd y raddfa amser hon hyd nes mis Mai 2007 yn y pen draw. Caiff prif elfennau dull ymchwil ac adrodd neu fethodoleg Wavehill eu gosod mewn 3 cham isod.

[1] 'Y prif faterion fel a nodwyd gan bobl leol (2005-06)'.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

4.4 Methodoleg

Cam 1 – Fframwaith Cynllunio ac Ymchwil

Cynllunio Prosiectau a Chyfarfodydd Cwmpasu

Cynhaliodd Wavehill gyfarfod briffio a chynllunio cychwynnol gyda Chydlynydd Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, a Chynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth, er mwyn cytuno ar frîff a pharamedrau'r prosiect ymchwil, i drafod y cyd-destun ymchwil ac i nodi dogfennau allweddol eraill a fydd yn llywio'r cam adolygu desg (parhaus). Roedd hon yn elfen gychwynnol bwysig o'r gwaith, gan iddi alluogi Wavehill i ennill safbwyntiau'r unigolion allweddol ar y cyd-destun ymchwil, troi at faterion penodol maent yn ystyried y mae angen mynd i'r afael â nhw yn ystod y broses. Croesawodd Wavehill y gofyniad i fynd i gyfarfodydd ar sail barhaus ac i gyflwyno adroddiadau cynnydd. Helpodd y cyswllt hwn i ffurfio'r prosiect a sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion partner.

Strategaeth / Ymchwil ac Adolygiad Llenyddiaeth

Cyflawnodd Wavehill ymchwil desg sylweddol yn y camau cychwynnol, a adolygodd dogfennau strategaeth ac ymchwil perthnasol, ochr yn ochr â dogfennau ac adroddiadau Partneriaeth perthnasol, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn y cyfarfodydd cwmpasu a chynllunio. Datblygodd hyn ein dealltwriaeth o'r cyd-destun ymchwil, materion prosiect allweddol ac amcanion y prosiect.

Holiaduron Ymchwil / Datblygu Arweiniad Pwnc

Llywiodd y trafodaethau cychwynnol gyda Chydlynydd Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a chynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth (ynghyd â'r elfen ymchwil y strategaeth ac adolygu llenyddiaeth) ddatblygiad cwestiynau ymchwil (h.y. y materion allweddol y mae'r ymchwil yn ceisio mynd i'r afael â nhw). Yn ogystal, galluogodd y broses hon i ni ddatblygu arfau ymchwil gan gynnwys arweiniadau pwnc (ar gyfer cyfweliadau a grwpiau ffocws) a holiaduron (ar gyfer gwaith arolwg gyda chyflogwyr).

Datblygu'r Fframwaith Ymchwil

Yn dilyn y cyfarfodydd cynllunio a chwmpasu prosiectau cychwynnol, mireiniodd Wavehill y fethodoleg a gyflwynwyd yn ei dendr gwreiddiol, a'i ddatblygu'n ddogfen ymarferol i fodloni union ofynion y Cydlynydd a'r cynrychiolwyr Is-grŵp. Roedd y fframwaith ymchwil hwn yn cynnwys amlinelliad o'r camau allweddol, cerrig milltir, allbynnau a dyddiadau cyflwyno.

Cam 2 – Ymchwil a Gwaith Maes

Ffurfiodd yr elfen hon graidd y prosiect. Roedd yn cynnwys ystod eang o gyfweliadau ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol fel cyflogwyr a busnesau lleol, sefydliadau cymorth lleol / rhanbarthol, pobl ifanc lleol, rhieni / dylanwadwyr lleol; a rhanddeiliaid strategol a rhanbarthol / cenedlaethol eraill.

Samplu a Chyfweliadau

Y cam cyntaf oedd i Wavehill gynnull cronfa data o gwmnïau adeiladu / crefftwyr yn yr ardal. Gallai'r gronfa ddata gynnwys cyflogwyr / crefftwyr a oedd wedi'u lleoli naill ai yn ardal Bro Ddyfi ei hun, neu roeddent wedi'u lleoli gerllaw. Cyhyd ag yr oedd y cwmni'n cyflawni gwaith mewn un neu fwy o 4 ward Cymunedau yn Gyntaf Machynlleth, Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair, roeddent yn gymwys am gyfweliad fel rhan o'r broses ymchwil. Gallai'r rhai a gafodd eu cynnwys ar y gronfa ddata fod yn adeiladwyr cyffredinol, neu weithio mewn crefftau mwy penodol fel trydan, plymio, toi etc. Ceisiodd Wavehill sicrhau bod nifer o gwmnïau a oedd yn gweithio ym maes cynaliadwyedd ac ynni gwyrdd yn cael eu cynnwys yn y sampl hefyd. Yn olaf, sicrhaodd Wavehill fod y sampl yn adlewyrchu strwythur y diwydiant a nodwyd yn yr adran cyd-destun; wedi'i seilio'n bennaf ar 'ficro' gwmnïau bach iawn.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Cyfweliadau Ffôn a Wyneb yn Wyneb wedi'u Hwyluso a Drefnwyd Ymlaen Llaw (51)

Ar ôl i'r sampl gael ei dewis, trefnwyd cyfweliad dros y ffôn neu gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r prif ymgynghorydd neu gydag un o arfarnwyr cymunedol hyfforddedig (dwyieithog) Wavehill. Mae Wavehill yn gweithredu system o gyfweliadau ffôn wedi'u trefnu ymlaen llaw, a chyn y cyfweliad, mae'r cyfwelai yn derbyn blaengopi o'r holiadur, sy'n caniatáu'r cyfwelai i baratoi cyn y cyfweliad.

Gan ddefnyddio'r dull hwn o drefnu ymlaen llaw, roedd Wavehill yn gallu cynnal 5 cyfweliad wyneb yn wyneb a 46 cyfweliad dros y ffôn gyda chyflogwyr / crefftwyr y diwydiant adeiladu lleol.

Roedd y dull a gymerwyd yn cynnwys cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol, gan arwain at ddata a allai gael ei ddadansoddi'n ystadegol, ochr yn ochr â data a roddodd mwy o ddealltwriaeth fanwl o'r diwydiant yn yr ardal.

Pan welwyd bod y 51 cyfweliad cychwynnol hyn yn amhendant (h.y. ni wnaethant ddangos dymuniad hynod gryf ymhlith cyflogwyr a darpar gyflogwyr i gymryd rhan mewn cynllun prentisiaeth), penderfynwyd ychwanegu at y cyfweliadau gyda grŵp ffocws neu sesiwn drafod manwl.

Grŵp Ffocws a Hwyluswyd

Cynhaliwyd y sesiwn drafod hon ar ddydd Mawrth 8 Mai 2007. Cadarnhaodd 15 o gyflogwyr / crefftwyr ymlaen llaw y byddent yn mynychu. Fodd bynnag, yn y digwyddiad ei hun, dim ond un cyflogwr oedd yn bresennol mewn gwirionedd. I gael mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r grŵp ffocws, cyfeiriwch at adran 7 yr adroddiad hwn.

Cyfweliadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid / Sefydliadau Cymorth

Yn ogystal â'r cyfweliadau â chyflogwr / crefftwyr a'r grŵp ffocws fel yr amlinellwyd uchod, cynhaliodd Wavehill gyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn wedi'u ymlaen llaw gydag 13 o randdeiliaid / sefydliadau cymorth. Roedd disgwyl i gynrychiolwyr y sefydliadau rhanddeiliaid hyn ddangos diddordeb mewn (a safbwyntiau ar) themâu ac amcanion prosiect posibl. Diffiniwyd y rhanddeiliaid i'w cyfweld trwy'r cyfarfodydd cynllunio ac fe'u nodwyd yn y fframwaith ymchwil, ac roeddent yn cynnwys:

- CITB-Sgiliau Adeiladu
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (AADGOS a DEIN)
- Gyrfa Cymru
- Ecodyfi
- Canolfan Gydweithredol Cymru
- PAVO
- Hyfforddiant Powys
- Cymunedau yn Gyntaf Pen Llŷn
- Cynrychiolwyr hen Gynllun Prentisiaeth ar y Cyd Canolbarth Cymru

Grwpiau ffocws ysgolion / AB gyda phobl ifanc

Yn olaf, o ran ymchwil sylfaenol, roedd Wavehill hefyd yn gallu cynnal grŵp ffocws bach gyda disgyblion oedran TGAU yn Ysgol Bro Ddyfi. Galluogodd yr elfen hon o'r ymgynghoriad i Wavehilll adolygu anghenion a dymuniad / cymhellion / tebygolrwydd pobl ifanc o weithio yn y diwydiant (a safbwyntiau cynlluniau o fath prentisiaeth).

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Cam 3 - Adrodd

Diweddariadau Rheolaidd

Yn dilyn y cyfarfod dechreuad cychwynnol ar ddechrau'r broses, roedd prif ymgynghorydd Wavehill yn gallu darparu diweddariadau rheolaidd i'r Cydlynydd, fel rheol trwy'r e-bost.

Mynychu cyfarfodydd / adborth i'r Grŵp Thema Economi a Chyflogaeth

Fel y gofynnwyd yn y fanyleb, roedd Wavehill hefyd yn gallu mynd i gyfarfodydd yr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth yn ystod parhad y prosiect, yn ogystal â mynd i gyfarfodydd trafod eraill a alwyd yn ôl yr angen.

Dadansoddiad, Adroddiad Drafft, Ymgynghori ac Adborth

Ar ôl cwblhau'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws, roedd Wavehilll yn gallu cynnal dadansoddiad trylwyr o'r holl waith maes ymchwil a llunio Adroddiad Drafft ar ddiwedd mis Ebrill. Adroddwyd canlyniadau ac argymhellion yr adroddiad drafft yn ôl i Gydlynydd Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi ac i'r cynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth.

Adroddiad Terfynol

Yn dilyn yr adborth ar yr adroddiad drafft, roedd Wavehill yn gallu llunio adroddiad terfynol ym mis Mai 2007. Adlewyrchodd y ddogfen derfynol hon yr adborth i'r Adroddiad Drafft, a gosododd nifer o argymhellion a gafodd eu trafod gyda'r Cydlynydd a'r cynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad drafft yn ffurfiol i Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ar 16 Mai, derbyniwyd adborth yng nghanol mis Mehefin, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei baratoi ym mis Mehefin 2007.

Gweithdy / Seminar i Bartneriaid a Rhanddeiliaid

Yn olaf, ar ôl cyflwyno'r Adroddiad Terfynol, arweiniodd Wavehill seminar i bartneriaid a rhanddeiliaid allanol ar ganfyddiadau, casgliadau, ac argymhellion yr adroddiad. Cynhaliwyd hwn ym Machynlleth ym mis Gorffennaf 2007.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

5. Cynlluniau Dysgu Seiliedig ar Waith Cenedlaethol

5.1 Prentisiaethau Modern

Mae Prentisiaethau Modern yn rhaglenni hyfforddiant a ddyluniwyd yn genedlaethol ar gyfer pobl 16-24 oed sydd wedi gadael addysg amser llawn neu sydd eisoes mewn cyflogaeth. Cynigiant gyfle i bobl ifanc ddechrau eu gyrfa trwy gyfuniad o ddewisiadau dysgu a phrofiad gwaith.

Ceir gwahaniaethau yn y termau a ddefnyddir a chynnwys y fframwaith ar gyfer Prentisiaethau ym mhob gwlad o'r DU. Yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r Prentisiaethau Modern ar Lefel 3. Yn yr Alban ceir Swyddi Dan Hyfforddiant ar Lefel 2 ac yn Lloegr mae'r term Prentisiaeth Fodern wedi'i newid i Foundation Apprenticeship (L2) ac Advanced Apprenticeship (L3).

Mae Prentisiaid Modern naill ai'n cael lleoliad gwaith gyda sefydliad neu maent mewn cyflogaeth amser llawn. Derbyniant lwfans hyfforddiant neu gyflog sylfaenol sicr. Darperir hyfforddiant yn y gwaith gan y cyflogwr. Darperir hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gan ddarparwr dysgu, sydd hefyd yn rheoli'r holl waith papur ac yn ymweld â'r prentis yn y gwaith yn rheolaidd i asesu eu cynnydd.

Mae cymorth ariannol tuag at gost hyfforddi ac asesu ar gael gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) yn Lloegr, Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) yng Nghymru neu Gwmni Menter Lleol (LEC) yn yr Alban.

Mae Prentisiaethau Modern yn cynnig rhaglen hyfforddiant strwythuredig i weithwyr mewn sector, gan gyfuno a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sectorau, gydag addysg gyffredinol. Mae hyn yn galluogi unigolion i ennill cyflawniad addysg ehangach yn ogystal â datblygu'r hyfedreddau penodol a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer y sector.

Yng Nghymru, mae'r dogfennau polisi allweddol canlynol yn sail i'r agenda sgiliau:

- Cymru – Gwlad Well
- Y Wlad sy'n Dysgu 2, polisi Addysg a Dysgu Gydol Oes tan 2010
- Cymru – Economi yn Ffynnu, canolbwyntio ar yr agenda datblygu economaidd
- Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 (CGSChC)
- Ymgeisio yn Uwch, strategaeth ar gyfer y sector AU hyd at 2010
- Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth (CGSCh), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2005, yn gosod y polisi sgiliau yng Nghymru, ac mae'n ymroi i weithio gyda'r rhwydwaith a'r partneriaid Sgiliau ar gyfer Busnes yng Nghymru i gyflwyno darpariaeth ddysgu sydd wedi'i hanelu'n fwy effeithiol at anghenion y cyflogwyr.

Mae yna nifer o wahaniaethau allweddol yn y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru y mae'n rhaid i'r rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes ymateb iddi a dylanwadu arni. Mae'r rhain yn cynnwys Bagloriaeth Cymru, Llwybrau Dysgu 14-19, a Chyfrifon Dysgu Unigol (CDU).

Mae'r SSDA yn cysylltu â'r holl bartneriaid strategol yng Nghymru, ond mae ei brif gyswllt gyda'r Is-adran Sgiliau, Busnes a Chyflogadwyedd (SBCh) sy'n eistedd fel rhan o'r Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DGOS) yn Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mewn egwyddor, gall prentisiaid wneud cyfraniad at fusnes o'r diwrnod cyntaf. Mae prentisiaid yn dysgu wrth iddynt weithio, felly mae eu gwybodaeth yn ddiweddar, ac oherwydd bod eu hyfforddiant yn y gwaith, mae'r sgiliau ymarferol a enillant yn rhai sy'n iawn ar gyfer y busnes penodol hwnnw.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Gall prentisiaethau gynnig hyfforddiant busnes ar gyfer staff sy'n bodoli a recriwtiaid newydd 16-24 oed, nifer o fathau gwahanol o Brentisiaeth, a hyfforddiant perthnasol a ddyluniwyd gan fusnesau ar gyfer busnesau. Bydd y darparwr hyfforddiant yn derbyn cymorth ariannol gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau tuag at gost hyfforddiant y prentis yn unig. Caiff y rhan fwyaf o brentisiaid eu cyflogi gan fusnes a thelir cyflog iddynt sy'n adlewyrchu eu sgiliau, profiad, oedran a gallu. Bydd rhai prentisiaid ar leoliad gwaith gyda busnes lle caiff lwfans hyfforddi ei dalu iddynt. Ym mhob achos, dylai'r darparwr dysgu penodol gefnogi'r busnes trwy'r broses hyfforddi trwy weithio gyda nhw i sefydlu'r rhaglen hyfforddiant a rheoli asesiadau'r prentisiaid. Dylai darparwyr dysgu hefyd allu helpu busnesau i recriwtio prentis addas yn y lle cyntaf.

Yn olaf, dylai Prentisiaeth alluogi cyflogwyr i fuddsoddi yn nyfodol eu busnes. Trwy gymryd prentis, gall busnes ddatblygu sgiliau arbenigol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg a dulliau newydd.

Gan fod cymaint o fanteision posibl arwyddocaol ar gael o brentisiaethau, mae'n bwysig gwneud nodyn o ganfyddiadau'r adroddiadau gwerthuso perthnasol. Yn benodol, mae'r adroddiad *"21st century apprenticeships: End to End Review of the Delivery of Modern Apprenticeships – End to End Review Team, DfES and LSC, 2004"* yn cynnwys nifer o'r prif argymhellion y dylid eu hystyried. Dyma nhw:

- Dylai Prentisiaeth newydd fod ar gael o 14 oed a chynnwys oedolion
- Dylid cael mynediad i'r rhaglen trwy'r Brentisiaeth Ieuenctid newydd, Mynediad i Gyflogaeth a/neu TGAU.
- Dylai'r rhaglen Ieuenctid Newydd ddechrau yn 14+ gyda'r hyfforddai'n casglu unedau a chydrannau a fyddai'n mynd tuag at y cymhwyster Prentisiaeth.
- Dylid cael llwybr dilyniant clir i brentisiaethau modern ac ymlaen i'r Prentisiaethau Uwch a, lle bo'n briodol, Graddau Sylfaen.
- Dylid cael ymrwymiad y gellir ei weld gan y cyflogwr a'r hyfforddai, gyda chyfnod prawf o 8 wythnos, yn ôl argymhelliad Pwyllgor Ymgynghorol y Brentisiaeth Fodern.
- Dylai'r rhaglen fod yn gludadwy a lle na all hyfforddai gael yr holl brofiad angenrheidiol gydag un cyflogwr, dylid datblygu system (trwy asiantaeth neu gymdeithas hyfforddiant grŵp) lle gall yr hyfforddai symud a bod eu statws prentisiaeth yn mynd gyda nhw.
- Ni ddylai'r rhai sy'n dechrau'r rhaglen gael eu cosbi'n ariannol.
- Dylai'r Cynghorau Sgiliau Sector gael mwy o ddoethineb ac awdurdod i argymell safonau mynediad a phennu'r priodoleddau y mae eu hangen i gael statws medrau llawn. Mae angen i hyn gael ei gyfateb gan gamau gweithredu'r Cyngor Sgiliau Sector i ddiogelu mwy o gyfranogiad gan gyflogwyr mewn Prentisiaethau Modern.
- Sicrhau bod pob Cyngor Sgiliau Sector yn blaenoriaethu datblygiad cynlluniau newydd ac yn adolygu rhaglenni sy'n bodoli yn syth.
- Yn unol ag adolygu cymwysterau galwedigaethol a datblygu unedau a throsglwyddo credydau, dylai fframwaith Prentisiaeth symlach a mwy hyblyg gael ei weithredu sy'n canolbwyntio ar graidd sector gyda dewis o gydrannau sy'n berthnasol i anghenion cyflogwyr ar y cyd. Byddai'r craidd yn ymdrin â'r NVQ, y dystysgrif dechnegol a lle bo angen y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth.
- Ar gyfer y rhaglen brentisiaeth i oedolion, dylai cydnabyddiaeth ar gyfer eu profiad blaenorol neu sgiliau gael eu cydnabod a'u credydu, gan roi amser iddynt ddiwallu'r gofyniad mewn cyfnod byrrach o amser os yn briodol.
- Cyflwyno rhaglen gymorth i hyfforddwyr, tiwtoriaid ac aseswyr i sicrhau cyflwyniad o ansawdd.
- At ddibenion dilyniant a pharch cydradd dylai'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a'r QCA sicrhau fod yna broses i bennu gwerthoedd cyfatebol ar draws Cynghorau Sgiliau Sector.
- Sicrhau bod cynllun Marchnata'r Cyngor Dysgu a Sgiliau'n cael ei weithredu ar gyfer Prentisiaid Modern (PMiaid), gan gynnwys hyrwyddiad cenedlaethol i gyflogwyr a hysbysebu seiliedig ar y sector cenedlaethol i ddarpar hyfforddeion.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- Archwilio gyda phartneriaid yr ymarferoldeb o 'dŷ clirio' arloesol ar gyfer PMiaid (gan ymdrin o bosibl â hyrwyddo; cyfateb; hyfforddi; trosglwyddiadau rhwng cyflogwyr a dilyn i fyny) gan adeiladu ar arfer gorau yn Connexions, y Ganolfan Byd Gwaith a rhwydweithiau IAG ac ecsbloetio potensial cyflwyno TGCh mewn recriwtio.
- Sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth llawn i gyflogwyr ar hyfforddi a datblygu, llunio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r rhwydwaith prentisiaeth fodern i hyrwyddo ystod ehangach o ddarpariaeth gan dynnu ar fodelau cyflwyno arloesol a osodwyd yn y strategaeth sgiliau.
- Bydd pob sefydliad partner allweddol yn rhoi manylion ynghylch sut y byddant yn cyflawni eu cyfrifoldebau prentisiaeth fodern a phwy fydd yn atebol. (CDS, Cynghorau Sgiliau Sector, QCA, y Llywodraeth fel Cyflogwr, y Ganolfan Byd Gwaith, Connexions, partneriaethau IAG a Chyrff Dyfarnu).
- Bydd y DfES yn sefydlu, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog, trefniadau llywio a gefnogir gan y trefniadau rhaglenni a rheoli prosiectau ar gyfer PMiaid. Bydd y rhain yn tynnu at ei gilydd yr unigolion a enwir ac yn rhoi blaenoriaeth i gyfleu gweledigaeth glir a gwerthoedd brand, yn creu diwylliant cyflwyno proffesiynol hyderus, a rheolaeth systematig o newid.
- Bydd pob Cyngor Dysgu a Sgiliau (CDS) yn adlewyrchu'r trefniadau partneriaeth cyflwyno cenedlaethol trwy sicrhau bod yna berchnogion cyfrifol a enwir ac i roi manylion cynigion a'u gweithredu, gan dynnu ar arfer gorau ar gyfer cysylltu cyflogwyr (fel cymdeithasau hyfforddi grwpiau a chydweithrediadau eraill gyda chyflogwyr) a phennu'r rôl a'r cyllid ar gyfer unrhyw gyrff canolraddol.
- Pennu proses genedlaethol newydd wedi'i symleiddio ar gyfer contractio gyda darparwyr sy'n cynnwys mwy nag un CDS neu mwy nag un sector
- CDS i sefydlu uned fusnes newydd sy'n canolbwyntio ar weithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector.
- Sefydlu sylfaen ymchwil gadarn ar gyfer gwerthuso, tystiolaeth ar gynnydd mewn cynhyrchiant, a gwybodaeth am lwyddiant hyfforddeion, addysgeg a'r hyn sy'n gweithio yn y gweithle.
- Lleihau biwrocratiaeth trwy adeiladu ar waith Mesur Llwyddiant a Rheoli Gwybodaeth Ar Draws y Grŵp Partneriaid i sicrhau bod gwybodaeth rheolwyr yn amserol, yn gywir ac yn berthnasol, yn enwedig mewn perthynas ag ymglymiad y cyflogwyr a dilyniant.
- Disodli'r targed cyfranogiad ar gyfer rhaglenni prentisiaeth fodern gyda mesur mwy grymus yn seiliedig ar gyflawniad. Dylai'r targed newydd gael ei seilio ar y cyfraddau cyflawni ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sy'n ennill y cymhwyster ar Lefel Brentisiaeth ac Uwch. I'w meincnodi yn erbyn goreuon y byd a chan ystyried gwerth ychwanegol a'r pellter a deithiwyd.
- Er mwyn cymell perfformiad, dylai'r data gael ei gasglu ar ddiddordeb, ymrestriadau cychwynnol, cwblhau'r cyfnod prawf, cyfranogiad a chyflawniad ar lefel 1, lefel 2 a lefel 3 uwch yn ôl sector.

Mae'r pwyntiau bwled uchod yn cynrychioli prif argymhellion y ddogfen yn unig. I gael canlyniadau llawn o'r adroddiad "21st century apprenticeships: End to End Review of the Delivery of Modern Apprenticeships", ewch i

http://www.apprenticeships.org.uk/NR/rdonlyres/CA776D3C-F0B6-4A7B-8B851F429E56E58B/0/21stcenturyappreticeships.pdf

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

5.2 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

CITB yw'r sefydliad hyfforddi cenedlaethol ar gyfer adeiladu yn y DU, ac mae'n rhoi cymorth ym mhob agwedd ar recriwtio, hyfforddi a chymhwyso'r gweithlu adeiladu. Ffurfiwyd CITB ym 1964 fel corff cyhoeddus anadrannol o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1964. Yn 2003, daeth CITB yn Gyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiant adeiladu a daeth yn adnabyddus fel CITB ConstructionSkills. CITB ConstructionSkills yw corff arweiniol y diwydiant hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol adeiladu, crefft a gweithredol. Mae CITB ConstructionSkills yn cyflwyno ystod eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus, trwy Asiantaeth Rheoli CITB ConstructionSkills, y Ganolfan Adeiladu Cenedlaethol a'r Ganolfan Achrededig Arbenigol Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, caiff y ddarpariaeth o'r tri chorff hyn eu rheoli mewn cyfarwyddiaethau ar wahân CITB ConstructionSkills.

Mae CITB yn gweithio gyda phartneriaid mewn diwydiant a llywodraeth i wella natur gystadleuol y diwydiant cyfan. Caiff gwaith CITB ei gymell gan gynllun busnes pum mlynedd treigl, sy'n canolbwyntio o amgylch y tri phrif her sy'n wynebu'r diwydiant. Dyma nhw:

- Cymhwyso'r Gweithlu – cefnogi'r diwydiant wrth gyflawni gweithlu cwbl gymwys, trwy recriwtio a chymhwyso ymgeiswyr newydd i'r diwydiant, yn ogystal â chymhwyso'r gweithlu presennol.
- Delwedd a Recriwtio - denu ymgeiswyr newydd i fodloni anghenion sgiliau'r diwydiant. Cred CITB fod angen 76,000 o ymgeiswyr newydd y flwyddyn ar y diwydiant adeiladu, ac felly mae'n gweithio i feithrin delwedd gadarnhaol o adeiladu a hyrwyddo'r diwydiant fel gyrfa ddeniadol.
- Gwella Perfformiad – datblygu technegau a mentrau sy'n annog ac yn cefnogi cyflogwyr i wella'u perfformiad a'u natur gystadleuol cyffredinol (e.e. annog cyflogwyr i ystyried Buddsoddwyr mewn Pobl).

O ran Prentisiaethau, gall y CITB, trwy ei Gynllun Prentisiaeth Adeiladu (CPA) helpu busnesau i recriwtio'r bobl iawn i swyddi penodol. Gwneir hyn trwy sgrinio prentisiaid posibl, a gweinyddu cytundeb prentisiaeth ffurfiol rhwng y busnes a'r prentis.

Er mwyn cymryd prentis trwy CITB, rhaid bod busnes wedi'i gofrestru gyda CITB, ac wedi cael archwiliad Iechyd a Diogelwch ac Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus. Rhaid i'r cyflogwr hefyd gytuno ar Gynllun Hyfforddiant Unigol gyda'r prentis, caniatáu amser i ddysgu fel y gall y prentis fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, rhoi cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith cysylltiedig i ddatblygu eu sgiliau (mae angen i brentisiaid gael prawf o hyn i fodloni gofynion NVQ), bodloni'r cyfraddau cyflog gofynnol a argymhellir ar gyfer pob prentis, ac annog y prentis i ddilyn mwy o astudiaethau.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i gyflogwyr prentisiaid gynnal hyfforddiant sefydlu'r cwmni ar ddechrau cyflogaeth y prentis, gan gynnwys cwrs sefydlu iechyd a diogelwch cynhwysfawr a phenodi o leiaf un Cofnodwr yn y Gwaith i gefnogi ac arwain y prentis gyda chasglu tystiolaeth ac i wirio bod y safonau wedi'u bodloni.

Mae cyflogwyr cyfrannog yn gymwys am gyllid gan CITB i gyfrannu tuag at gofrestriadau, mynychu'r coleg, a chyflawni cymwysterau.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Yn ôl Gwasanaeth Asiantaeth Rheoli CITB, mae dros 445 o bobl yng Nghymru eisiau dechrau prentisiaeth ond roeddent yn methu dod o hyd i gyflogwr[2]. Mae'r gwasanaeth Asiantaeth Rheoli, sydd ar hyn o bryd yn rheoli bron 10,000 o brentisiaid yn genedlaethol bob blwyddyn, yn helpu cyflogwyr i ddewis prentis addas a all chwarae rôl bwysig wrth ddiogelu dyfodol y cwmni sy'n eu cyflogi, yn enwedig gan fod prentisiaid CITB eisoes wedi pasio'r profion dewis angenrheidiol ac wedi arddangos eu hymroddiad a'u brwdfrydedd i weithio yn y diwydiant adeiladu.

Ar hyn o bryd, cred CITB fod y diwydiant yn mwynhau cyfnod o dwf cynaledig gyda llawer o brosiectau adeiladu uchel eu proffil yn cael eu trefnu ledled y DU, gyda'r Adroddiad Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu diweddaraf (Mehefin 06) yn datgelu bod angen 87,000 o bobl yn genedlaethol i ymuno â'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn rhwng nawr a 2010 dim ond i fodloni'r galw presennol.

Unwaith eto, fel gyda Phrentisiaethau Modern, mae'n bwysig ystyried canlyniadau'r adroddiadau gwerthuso mewn perthynas â chynllun CITB. Yn benodol, mae canfyddiadau adroddiad yr Arolygiaeth Dysgu Oedolion (sydd bellach yn rhan o Ofsted) ym mis Hydref 2006 yn nodi bod:

- Effeithiolrwydd cyffredinol darpariaeth CITB wedi'i raddio'n Radd 2 (lle mae gradd 1 = eithriadol, gradd 2 = da, gradd 3 = boddhaol, gradd 4 = annigonol). Gwelwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth CITB yn dda, fel yr oedd ei drefniadau ar gyfer gwella ansawdd, a'r hyfforddiant mae'n ei ddarparu mewn adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig. Ystyriwyd bod ei drefniadau ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal yn foddhaol.
- CITB wedi dangos ei fod mewn sefyllfa dda i wneud gwelliannau, gyda ffocws arweinyddiaeth cryf ar wella cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn profi'n llwyddiannus iawn. Mae cyfraddau llwyddiant cyffredinol ar gyfer pob fframwaith wedi gwella'n sylweddol o 23% yn 2003-04 i 56% yn 2005-06. Mae cyfraddau llwyddiant y prentisiaethau bellach yn dda mewn pump o ranbarthau'r asiantaeth rheoli ac yn foddhaol yn y lleill, gyda'r asiantaeth rheoli'n unioni gwendidau a nodwyd gan arolygiad blaenorol yr Arolygiaeth Dysgu Oedolion yn llwyddiannus
- Rhaid i CITB barhau i wella cyfraddau llwyddiant cyffredinol ac amserol
- Rhaid i CITB wella'r trefniadau ar gyfer cydlynu hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith ar draws yr holl ganolfannau wedi'u his-gontractio.
- Rhaid i CITB wella effeithiolrwydd ac ansawdd adolygiadau cynnydd a phroses gosod targedau dysgwyr
- Rhaid i CITB ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth y dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Rhaid i CITB weithredu trefniadau cyson ar gyfer asesu yn y gwaith
- Rhaid i CITB ddatblygu trefniadau i asesu lefelau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr ar raglenni asesu a hyfforddi ar y safle
- Rhaid i CITB sicrhau bod lefelau staffio yn cadw i fyny gydag ystod a thwf y ddarpariaeth asesu a hyfforddi ar y safle
- Rhaid i CITB barhau i uwchraddio'r cyfleusterau presennol a'r llety preswyl (NCC)
- Rhaid i CITB ddatblygu'r berthynas a'r cydlyniad rhwng yr asiantaeth rheoli a chyfarwyddiaethau cyd-ddibynnol CITB ConstructionSkills
- Rhaid i CITB weithredu gwaith y timau safonau yn llawn
- Rhaid i CITB ddatblygu strategaethau effeithiol i gynyddu cyfranogiad gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli

Felly, er i'r Arolygiaeth Dysgu i Oedolion ganfod bod gan CITB gyfeiriad arweinyddiaeth a strategol da a dull da i wella ansawdd gyda datblygiadau sylweddol mewn cyfraddau llwyddiant cyffredinol, rhaid iddo wella cytgord a chyfathrebu ar draws adrannau, a chryfhau ei reolaeth o lythrennedd, rhifedd a chymorth iaith.

[2] Ffigurau 2006

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

6. Cynlluniau Dysgu Seiliedig ar Waith Lleol

6.1 Cymunedau yn Gyntaf Pen Llŷn – Prentisiaethau yn y Diwydiant Adeiladu

Mae gan ardal Pen Llŷn rai elfennau tebyg i Fro Ddyfi; sef ei bod yn ardal wledig o harddwch naturiol gan mwyaf, gyda phroblemau cymdeithasol ac economaidd sylfaenol. Comisiynodd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Pen Llŷn Iechyda.Cyf i gynnal astudiaeth ymchwil i'r posibiliadau ar gyfer datblygu cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn yr ardal. Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod y gwanwyn / haf 2005 trwy ddefnyddio dull arfarnu cyfranogol. Ymgynghorodd Iechyda.Cyf ag unigolion, asiantaethau, sefydliadau addysgol, pobl ifanc, busnesau, cymdeithasau lleol a chyrff statudol, ac wedyn dadansoddodd y canfyddiadau i lunio adroddiad gwerthuso.

Gwelodd yr adroddiad fod oedran cyfartalog y boblogaeth yn uchel, gyda phobl 16-29 oed yn cael eu tangynrychioli'n benodol yn yr ardal. Gwelodd yr adroddiad hefyd fod pobl leol wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i weithwyr ac ennyn eu diddordeb mewn sgiliau penodol (adeiladwyr, seiri, plymwyr etc). Felly, teimlodd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf y byddai'n briodol datblygu cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth leol, i roi i bobl ifanc leol y cyfle i aros a gweithio yn eu cymunedau eu hunain, ac i sicrhau na fyddai'r ardal yn dioddef o ddiffyg sgiliau hanfodol yn y dyfodol.

Felly, aeth Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ymlaen i gynnal digwyddiad noson yn Ysgol Uwchradd Botwnnog, er mwyn trafod y posibiliadau am gynllun prentisiaeth. Gwahoddodd y Bartneriaeth fyfyrwyr yn dilyn cwrs adeiladu'r ysgol, adeiladwyr lleol, y CITB, a'r Aelod Cynulliad lleol. Ystyriwyd y noson yn llwyddiant, gyda 2 berson ifanc yn cael cynnig prentisiaethau gyda chyflogwyr lleol, a chwmnïau eraill yn dangos diddordeb mewn cynllun prentisiaeth lleol.

Fodd bynnag, er y cafwyd elfennau cymdeithasol ac economaidd tebyg rhwng ardal Pen Llŷn a Bro Ddyfi, ceir rhai gwahaniaethau hefyd. Yn fwyaf nodedig, mae cwmnïau'r diwydiant adeiladu ym Mhen Llŷn yn tueddu i fod yn fwy o faint, gyda 55% yn cyflogi 1 i 4 o weithwyr, 25% yn cyflogi 5 i 9 o weithwyr, ac 20% yn cyflogi 10 neu'n fwy o weithwyr.

Pan ofynnwyd i Iechyda.Cyf beth oedden nhw'n ei chael yn anodd am gyflogi (neu geisio cyflogi) prentis, gwelodd fod cwmnïau ym Mhen Llŷn yn teimlo mai dyma oedd y prif broblemau:

- Anawsterau wrth ddod o hyd i'r person iawn
- Dim digon o ddiddordeb yn y gwaith
- Prentisiaid yn disgwyl cael cyflogau uchel
- Gwaith papur
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch
- Treuliau (cyflogau, gwyliau, yswiriant, etc)

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn, teimlai'r cyflogwyr y byddai angen:

- Cynnig grantiau uwch i gwmnïau sy'n cymryd prentisiaid
- Rhoi cymorth gweinyddol ar waith i ymdrin â gwaith papur
- Cael proses cyfweld ar gyfer darpar brentisiaid
- Rhoi cyfnod prawf i bob prentis

Teimlai'r cyflogwyr y byddai'r camau hyn o gymorth i fynd i'r afael â'r broblem o brentisiaid a oedd yn annibynadwy, nad oeddent yn brydlon, a fethodd ochr academaidd eu cwrs, a adawodd yn gynnar ar ôl pasio'r cwrs, neu na fyddent fyth yn briodol ar gyfer swydd fedrus yn y diwydiant.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Er gwaetha'r pryderon hyn, gwelodd Iechyda.Cyf fod cyflogwyr y diwydiant adeiladu yn ardal Pen Llŷn yn gyffredinol fodlon â'r safon o hyfforddiant oedd ar gael i bobl ifanc trwy'r coleg lleol, ond roedd yna rai pryderon fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar waith theori yn hytrach nag ymarferol. Yn ogystal, gwelwyd bod y cyflogwyr y cyfwelwyd â nhw hefyd yn gymharol hapus â'r gwasanaeth a gawsant gan CITB, ond teimlai llawer ohonynt fod y grantiau a gawsant yn rhy isel i dalu am y costau gwirioneddol o gymryd prentis.

Ar y cyfan, gwelodd Iechyda.Cyf fod cyflogwyr lleol yn y diwydiant yn gadarnhaol ynghylch y syniad o gynllun prentisiaeth lleol, a theimlant y gallai fod o gymorth i godi proffil cymwysterau galwedigaethol yn hytrach nag academaidd. Gyda chymaint o bobl ifanc bellach yn symud ymlaen i gyrsiau academaidd mewn addysg uwch, teimlai cyflogwyr ei fod yn bwysig creu delwedd gadarnhaol o'r diwydiant adeiladu, gan gynnwys y cyfleoedd gyrfa a'r manteision ariannol oedd ar gael, er mwyn denu gweithwyr.

Felly, argymhellodd yr ymgynghorwyr:

- Y dylai hyfforddiant galwedigaethol fod ar gael y tu allan i oriau ysgol er mwyn galluogi'r gweithlu presennol, yn ogystal â disgyblion ysgol uwchradd, i gael hyfforddiant
- Dylai cyfnodau prawf fod yn rhan o'r cynllun prentisiaeth
- Dylid darparu cymorth gweinyddol i gyflogwyr er mwyn gostwng y baich biwrocrataidd o gymryd prentis
- Dylid cynyddu'r cymorth ariannol i gyflogwyr prentisiaid
- Dylid addysgu sgiliau adeiladu modern a thraddodiadol
- Dylid rhoi cyfleoedd i labrwyr gynyddu eu sgiliau trwy hyfforddiant, gyda chyflogwyr yn cael eu had-dalu am alluogi eu labrwyr i gymryd rhan
- Mae angen gwneud pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa a'r manteision ariannol a all ddatblygu o ganlyniad i gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu
- Mae angen gwneud pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r ffaith y gall cyflogaeth y diwydiant adeiladu eu galluogi i fyw a gweithio yn eu hardal leol, yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd ar gyfer cyfleoedd gyrfa.

Yn dilyn adroddiad ac argymhellion Iechyda.Cyf, mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Pen Llŷn yn datblygu cynllun 'Cyswllt Prentisiaeth'. Mae hwn yn cynnig gwasanaeth 'cyfateb' sy'n anelu at ddod â darpar brentisiaid a chyflogwyr y diwydiant adeiladu at ei gilydd; gyda chynlluniau ychwanegol i ysgafnhau'r baich gweinyddol sydd ynghlwm â chyflogi prentis.

Mae'r Bartneriaeth yn cydweithredu'n agos gydag Ysgol Botwnnog, sydd bellach yn cynnig cwrs TGAU mewn Adeiladu, ac mae hefyd yn gweithio gyda'r ysgol i gynnig dosbarthiadau nos i'r sawl sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant.

Ystyrir yr ardal yn gyrchfan gwyliau poblogaidd, gyda nifer uchel o ail gartrefi ac, o ganlyniad, mae'r diwydiant adeiladu yn yr ardal yn ffynnu ar hyn o bryd. Mae dros 80 o gwmnïau'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, ond oherwydd y galw, gall fod yn anodd o hyd i berchnogion cartrefi gysylltu â phlymwyr, trydanwyr etc i wneud gwaith.

Fodd bynnag, teimlodd y Bartneriaeth, er bod y diwydiant yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i bobl ifanc leol allu aros yn yr ardal a gwneud gyrfa iddynt eu hunain, roedd mynediad i'r diwydiant yn tueddu i fod trwy gyswllt cymdeithasol sy'n bodoli, aelod o'r teulu etc. Yn ogystal, roedd pobl ifanc yn aml yn anymwybodol o'r ystod o ddewisiadau gwahanol a oedd ar gael, o dirfesur a phensaernïaeth i osod brics. Yn y cyfamser, er yr ymddangosai cyflogwyr yn awyddus i gymryd prentisiaid mewn egwyddor, teimlant fod pobl anaddas yn cael eu hanfon atynt o sefydliadau fel CITB. Felly, roedd y cyflogwyr am ddatblygu system a oedd yn cynnwys treial gwaith estynedig, fel y gellid rhoi darpar brentisiaid ar brawf.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Felly, datblygodd y Bartneriaeth ei gynllun Cyswllt Prentisiaeth i gyfateb rhwng cyflogwyr a darpar brentisiaid. Er mwyn cyflawni hyn, mae Gyrfa Cymru'n cysylltu â'r Bartneriaeth pan fydd ganddynt bobl ifanc a chanddynt ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu, tra bydd adeiladwyr lleol hefyd yn cysylltu â'r Bartneriaeth pan fyddant yn chwilio am brentis. Gellir cyfateb y ddwy ochr trwy gronfa ddata, gyda Gyrfa Cymru'n cyflawni'r 'gwaith caib a rhaw' o ddod â'r ddau grŵp at ei gilydd.

Gwelodd y Bartneriaeth fod y cynllun yn gymharol hawdd ei gynnal, gan gysylltu â chyflogwyr unwaith y flwyddyn er mwyn diweddaru'r gronfa ddata. Nid yw'r Bartneriaeth ei hun yn cyflwyno hyfforddiant adeiladu, ond yn hytrach mae'n gweithio gyda darparwyr eraill i sicrhau bod anghenion hyfforddiant cyflogwyr a darpar brentisiaid yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, bu'r Bartneriaeth, trwy gronfeydd Cymunedau yn Gyntaf, yn gallu cyflwyno cyrsiau hyfforddiant i bobl ifanc mewn meysydd fel trafod â llaw a chymorth cyntaf a sesiynau blasu lle mae gweithwyr y diwydiant yn siarad â phobl ifanc am eu gyrfaoedd. Cynhelir y cyrsiau hyn yng ngweithdy crefft, dylunio a thechnoleg yr ysgol leol, ac ystyriwyd bod y cymorth o'r ysgol hon yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect hyd yma.

Yn olaf, datblygodd y Bartneriaeth hefyd daflen ffeithiau syml i gyflogwyr, sy'n ceisio disbyddu rhai o'r mythau ynglŷn â chymryd prentis. Derbyniwyd y daflen ffeithiau hon yn dda gan gyflogwyr lleol.

Ar y cyfan, mae cynllun Pen Llŷn yn gymharol isel ei sylw, gan weithredu'n bennaf fel gwasanaeth cyfateb a llwybr cyfathrebu, yn hytrach nag asiant cyflwyno. Teimla'r Bartneriaeth fod y dull hwn yn bwysig, gan ei fod yn cadw goblygiadau cost ac amser i isafswm, sydd yn ei dro yn cynyddu cynaliadwyedd posibl tymor hir y prosiect.

6.2 Cynllun Prentisiaeth Cymunedau yn Gyntaf MORLO

Sefydlwyd Partneriaeth Adfywio Morawelon a London Road (MORLO), sydd yng Nghaergybi, yn ffurfiol ym mis Hydref 2001 fel cwmni cyfyngedig trwy warant. Ariennir partneriaeth MORLO trwy Gymunedau yn Gyntaf, ac mae'n cyflogi dau Gydlynydd, dau Weithiwr Datblygu Cymunedol, Gweithiwr Prosiect, a Gweithiwr Prosiect Amgylcheddol. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cyflogi dau aelod o staff i redeg ei Brosiect Prentisiaeth Cymunedol, ac mae'n cyflogi tri phrentis.

Datblygwyd y Prosiect Prentisiaeth Gymunedol yn dilyn ymarferion ymgynghori gyda phobl 13 i 19 oed yn yr ardal, a chynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb am Ganolfan Hyfforddi Sgiliau gan Arwel Jones Associates ym mis Mawrth '03. Canfu'r ymchwil a'r ymgynghoriad bod:

- Pobl ifanc yn symud yn gyson o un swydd isel ei chyflog i un arall gyda chyfnodau o ddiweithdra rhyngddynt
- Pobl ifanc eisiau dewis gwell o yrfaoedd ar wahân i'r 'fyddin neu'r dôl'
- Y farchnad lafur mewn sefyllfa lle mae yna lefelau isel o alw am lafur
- Y llafur angenrheidiol yn ymylol ac yn gofyn am lefelau isel o sgiliau
- Yr economi leol yn gofyn am ddatblygiad pellach, ond hyd nes i sgiliau fodoli'n lleol mae'n annhebygol y bydd buddsoddiad pellach i greu swyddi medrus.

Felly, datblygwyd y Prosiect Prentisiaeth Gymunedol i gefnogi oedolion ifanc, rhwng 18 a 25 oed, i mewn i swyddi medrus yn y diwydiant adeiladu. Nid oedd gan y bobl ifanc hyn unrhyw lefelau neu lefelau isel o gymwysterau cyn cymryd rhan yn y prosiect. Ariennir y prosiect am 5 mlynedd gan y Rank Foundation, ac mae'n seiliedig ar lolfa gymunedol gysgodol wedi'i hadnewyddu a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae'r prosiect ar gael i oedolion ifanc lleol 18 i 25 oed, nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol y tu hwnt i lefel TGAU, sy'n ddi-waith neu'n cael eu tangyflogi, ac sydd am weithio yn y diwydiant adeiladu. Wedyn, caiff y prentisiaid eu cefnogi trwy leoliadau coleg a gwaith, ac mae disgwyl iddynt hefyd weithio ar gynnal prosiectau cymunedol. Mae'r prentisiaid yn gweithio wythnos 37 awr, yn cael cyflog gyda chyfraniadau pensiwn wedi'u talu iddynt, yn treulio dau ddiwrnod yn y coleg, un diwrnod mewn lleoliad gwaith a dau ddiwrnod ar brosiectau cymunedol.

Gall prentisiaid gyflawni hyd at NVQ Lefel 3 yn y grefft a ddewiswyd ganddynt, yn ogystal â datblygu sgiliau meddal fel cyfathrebu a hyder. Gall prentisiaid fynd at gymorth ac arweiniad trwy gydol eu hamser gyda'r prosiect, gan gynnwys cyngor ar yrfaoedd, cymorth chwilio am swyddi a hyfforddiant hunangyflogaeth ar ddiwedd y cwrs fel sy'n briodol.

Cred partneriaeth MORLO fod y cynllun prentisiaeth wedi dangos:

- Caiff y cymorth y mae ar bobl ifanc ei angen gorau ei ddarparu yn eu cymuned eu hunain
- Mae angen i bobl ifanc gael cyfle i wneud gwahaniaeth yn eu cymuned eu hunain, fel y gallant weld dros eu hunain sut maent yn cyfrannu at ei adfywiad
- Gellir galluogi pobl ifanc i ddatblygu dyfodol cadarnhaol a diogel iddynt eu hunain
- Nid oes rhaid i bobl ifanc adael eu cymuned i ddod o hyd i waith medrus sy'n talu'n dda
- Gall pobl ifanc ddatblygu a dod yn fodelau rôl llwyddiant i bobl eraill yn eu cymuned
- Gall pobl ifanc ddod yn eiriolwyr Dysgu Gydol Oes

6.3 Prentisiaeth 'Codi'r To' yr Uned Pobl a Gwaith

Sylwch, ar gyfer yr adran hon o'r adroddiad, mae Wavehill wedi dibynnu ar y wybodaeth yng ngwerthusiad interim Codi'r To a gynhaliwyd gan Dr Duncan Holtom ym mis Mai 2006.

Mae'r Uned Pobl a Gwaith (UPG) yn elusen yn Ne Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1984, ac mae'n defnyddio cymysgedd o ymchwil, gwerthusiad a phrosiectau arddangos i nodi a mynd i'r afael â materion economaidd a chymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r Uned Pobl a Gwaith yn rheoli dau brosiect, 'Codi'r To' a 'Cefnogi Bywyd'. Mae'r ddau brosiect hyn yn targedu pobl ifanc y mae ganddynt gymwysterau isel, os o gwbl, ac mae'n rhoi'r cyfle a'r cymorth i'w galluogi i ehangu eu haddysg, ac ennill cymwysterau a chyflogaeth yn y fasnach adeiladu (Codi'r To), neu broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol (Cefnogi Bywyd). Y nod yw dysgu gwersi a nodi arfer gorau o brosiectau felly er mwyn dylanwadu polisi ac ymarfer mewn addysg a dysgu gydol oes.

Mae Codi'r To yn brosiect 5 mlynedd, sy'n datblygu model o arfer gorau wrth gefnogi pobl ifanc leol i hyfforddi mewn crefftau adeiladu a chysylltiedig medrus, a'u paratoi i fod yn aelodau effeithiol o'u cymuned. Roedd rhaglenni Prentisiaeth Fodern (PF) mewn meysydd fel adeiladu yn ac maent yn parhau i fod yn brif lwybr i'r sawl sy'n amharod neu sy'n methu mynd ar drywydd llwybrau addysg a hyfforddiant ôl-16 mwy academaidd. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhaglen yn parhau i fod yn isel, a chyfyngir mynediad i'r PF gan y gofyniad i gael cymwysterau ar NVQ lefel 2 ac i gael cyflogwr oherwydd, unwaith byddant ar y rhaglen, mae'r cyfraddau tynnu nôl yn uchel.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Yn y cyd-destun hwn, gwelodd UPG bod ganddynt ddiffyg gallu i ddarparu'r cymorth yr oedd ar ddynion ifanc ei angen i fynd at a symud ymlaen trwy'r PF, a'r broblem hon a roddodd yr ysbrydoliaeth ar gyfer prosiect Codi'r To. Er mwyn datblygu Codi'r To, cychwynnodd UPG drafodaethau gyda Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB) ac ELWa. Roedd y CITB yn gefnogol o'r egwyddor, ond ni allent weithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol fel UPG. O gymharu, er bod gan Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) ddiddordeb, roeddent yn amheus iawn ynghylch rhagolygon y prentisiaid ar gyfer cyflawni NVQ Lefel 3, gan awgrymu oherwydd bod y prosiect wedi'i dargedu at ddysgwyr nad oeddent yn rhai traddodiadol, dylai anelu'n is. Anghytunodd UPG, a phenderfynodd, gyda chymorth ei gyllidwyr a'i bartneriaid, i ddatblygu'r prosiect ochr yn ochr â darpariaeth y brif ffrwd.

Targedodd y prosiect bobl ifanc 18-25 oed gyda chymwysterau isel neu ddim o gwbl (islaw NVQ Lefel 2) yr oedd 15 ohonynt yn ddi-waith neu'n cael eu tangyflogi (e.e. yn cymryd rhan mewn gwaith ffatri sgiliau isel) ac yn byw mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Datblygwyd y prosiect mewn partneriaeth â phedwar sefydliad adfywio cymunedol a dwy gymdeithas dai yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Strategaeth Bryncynon, Partneriaeth Menter Pen-y-waun, CwmNI (Treherbert), Cymdeithas Tai Rhondda, Ymddiriedolaeth Datblygu Glyn Ebwy, a'r United Welsh Housing Association.

Ym mis Hydref 2002, gyda chyllid craidd gan The Rank Foundation, Sefydliad Lloyds-TSB a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, a ychwanegwyd ato gan gyllid ar gyfer hyfforddiant a chyfarpar gan ELWa a Thimau Gweithredu dros Swyddi, recriwtiodd y prosiect 4 gweithiwr adeiladu profiadol. Dilynasant hyfforddiant mewn meysydd fel sgiliau goruchwylio, adnabod camddefnydd o gyffuriau ac alcohol, rheoli dicter a diogelwch ar y safle, i'w helpu i baratoi ar gyfer eu rôl fel Arweinwyr Tîm. Ym mis Rhagfyr 2003, recriwtiodd y prosiect ei garfan gyntaf o 12 prentis. Yn dilyn cwrs sefydlu ac ymarferion meithrin tîm, gwnaethant ddechrau cwrs Sgiliau Adeiladu Cyffredinol yng Ngholeg Glyn Ebwy.

Ym mis Medi 2003, dechreuodd y prentisiaid NVQ Lefel 1 yn y grefft a ddewiswyd ganddynt (plymwaith x 8, gosod brics x 2, gwaith coed x 1 a thrydanwr x 1), am ddeuddydd yr wythnos. Yn ogystal, dechreusant weithio gyda'u Harweinwyr Tîm yn y gymuned am ddeuddydd yr wythnos a chyda chontractwr am un diwrnod yr wythnos.

Ym mis Ionawr 2005, gyda chyllid ychwanegol gan y Coalfields Regeneration Trust, recriwtiodd y prosiect 4 prentis ychwanegol, gan roi i'r prosiect 8 plymiwr, 4 peintiwr ac addurnwr, 2 friciwr, 1 saer ac 1 trydanwr.

Roedd y gweithwyr adeiladu cymunedol yn gallu adeiladu eu lefelau sgiliau trwy gyrsiau coleg, profiad gwaith, a gweithio ar adeiladau'r gymuned a'r gymdogaeth. Mae pob cyfranogwr bellach yn gallu cymhwyso'u sgiliau a'u profiad i helpu grwpiau a sefydliadau lleol dan arweiniad y gymuned i ddatblygu a gwella'u hadeiladau a'u mannau agored fel y gallant fodloni anghenion lleol yn well, a gweithredu fel modelau rôl hefyd i helpu mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth ac ymglymiad cymdeithasol a brofwyd gan bobl leol.

Cyflwynodd gwerthusiad interim Codi'r To, a gynhaliwyd gan Dr Duncan Holtom ym mis Mai 2006, nifer o ganfyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae Arweinwyr Tîm wrth wraidd Codi'r To. Maent yn cynnig cymorth ymarferol a bugeiliol i helpu'r prentisiaid i ddatblygu'r cyfalaf dynol – cymwysterau ar NVQ Lefel 2 a 3, sgiliau, agweddau a chredoau ac iechyd da – y mae eu hangen i gael cyflogaeth hynod fedrus gyda chyflog da a'i chynnal am weddill eu hoes.
- Trwy weithio gyda rhai o'r bobl dan anfantais fwyaf yn y cymunedau hyn a'u galluogi i lwyddo, mae'r prosiect hefyd yn anelu at herio ac yn y pen draw newid disgwyliadau eu cymunedau o'r hyn sy'n bosibl i bobl ifanc ei gyflawni, a adawodd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau neu gymwysterau isel.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- Mae'r help llaw y gall y prosiect ei roi i'r prentisiaid mae'n gweithio gyda nhw, a'r cymunedau maent yn gweithio ynddynt, yn ganolog i lwyddiant y prosiect.
- Mae strwythur Codi'r To yn galluogi gweithwyr prosiect i feithrin perthynas gref iawn o ffydd gyda phrentisiaid, gan weithio'n agos gyda nhw dros nifer fawr o flynyddoedd.

Dangosodd y cyfweliadau gydag Arweinwyr Tîm, contractwyr a phrentisiaid eu hunain ar ddechrau'r prosiect, nid oedd gan yr un prentis ar y prosiect y cyfalaf dynol y byddai arnynt ei angen i lwyddo. Roedd gan bob un ohonynt y diffyg sgiliau galwedigaethol ac ymarferol y byddai arnynt eu hangen. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddeallusrwydd emosiynol gwan ac roedd rhai ohonynt yn dioddef o iechyd corfforol gwael. Ers y man dechrau hwn, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r cyfalaf dynol y byddai arnynt ei angen i lwyddo (y daith a deithiwyd). Er enghraifft:

- Nododd y cyfweledigion yn gyson ystod o rinweddau personol y byddai eu hangen ar brentisiaid i lwyddo, gan gynnwys: sgiliau ymdopi a gwydnwch, sgiliau cyfathrebu, ymrwymiad, empathi, gonestrwydd, sgiliau trafod, y gallu i flaenoriaethu, sgiliau ymarferol, fel y gallu i brisio gwaith a rheoli arian, prydlondeb, dibynadwyedd, parch at eraill, hunangred a hunan effeithiolrwydd, cadw pen (peidio â cholli tymer), sgiliau meddwl (e.e. y gallu i ddadansoddi, syntheseiddio, gwerthuso a myfyrio), dealltwriaeth o'r hyn y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu gweledigaeth, dealltwriaeth o iaith corff priodol, sgiliau galwedigaethol (e.e. y gallu i ddefnyddio offer) a pharodrwydd i ohirio boddhad.

Gellir mapio rhai o'r rhinweddau a nodwyd uchod gan gyfweledigion yn hawdd yn erbyn y diffiniadau derbyniol presennol o 'sgiliau meddal'. Er enghraifft, mae sgiliau cyfathrebu yn enghreifftiau o sgiliau gwaith allweddol; mae cymhelliant a hunan effeithiolrwydd yn enghreifftiau o sgiliau agwedd; mae prydlondeb a dibynadwyedd yn enghreifftiau o sgiliau personol; ac mae'r gallu i brisio gwaith a rheoli arian yn sgiliau ymarferol. Gellir mapio rhinweddau eraill a nodwyd gan gyfweledigion yn erbyn y pum parth deallusrwydd emosiynol a dderbynnir (h.y. hunanymwybyddiaeth, rheoli tymer, empathi, trafod perthynas, a hunan-gymhelliant).

O safbwynt y prentisiaid eu hunain, nodwyd manteision fel ehangu i ragolygon gyrfa, cynnydd mewn hapusrwydd a lles, cynnydd mewn incwm o gymharu â chyflogaeth flaenorol, a datblygiad personol, fel dod yn fwy cyfeillgar neu radlon.

Ar y cyfan felly, mae adroddiad gwerthuso Dr Holtom yn nodi manteision sylweddol i bobl ifanc, sy'n codi'n uniongyrchol o gynllun Codi'r To. I gael fersiwn lawn o'r adroddiad gwerthuso, ewch i wefan yr Uned Pobl a Gwaith yn:

www.peopleandworkunit.org.uk

6.4 Sheffield Rebuild

Sylwch i'r wybodaeth ganlynol gael ei chymryd o astudiaeth achos Renewal.net. I gael mwy o fanylion, trowch at: http://www.renewal.net

Ers iddo gael ei sefydlu'n fusnes cymunedol yng nghanol y nawdegau, mae Sheffield Rebuild wedi tyfu'n gwmni gyda 150 o weithwyr, ar ôl diogelu gwerth dros £15m o gontractau mewn adeiladu, inswleiddio a chynnal a chadw gerddi. Amcangyfrifodd Rebuild iddo ail-fuddsoddi dros £1.2 miliwn mewn economïau lleol difreintiedig ym mis Ebrill 2001/Mawrth 2002. Mae'n defnyddio'i gontractau fel y sail ar gyfer hyfforddiant o ansawdd, sy'n arwain at gyflogaeth uniongyrchol gyda'r cwmni neu leoliadau gyda chontractwyr eraill.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae Sheffield Rebuild yn anelu at ddefnyddio adfywio i roi i bobl leol fynediad at swyddi go iawn a hyfforddiant o ansawdd yn eu cymunedau. Prif amcan Sheffield Rebuild yw "defnyddio adfywio a buddsoddiadau eraill i roi i bobl leol fynediad at swyddi go iawn a hyfforddiant o ansawdd yn eu cymunedau eu hunain." Dyma yw ei nodau penodol:

- Cynnig "swydd nid cynllun, cyflog nid budd-daliadau, a rhywbeth i adeiladu bywyd o'i gwmpas"
- Darparu swyddi "go iawn" a hyfforddiant i bobl leol
- Bod o fantais i'r economi leol trwy'r enillion a grëwyd
- Cyfrannu at feithrin gallu a chreu ymdeimlad o falchder a pherchenogaeth trwy gyflawni ei hyfforddiant mewn adeiladau go iawn.
- Annog annibyniaeth a mwy o hyder trwy leoli ei brentisiaid gyda chontractwyr eraill

Mae gweithredoedd Sheffield Rebuild yn cynnwys Sheffield ac maent yn canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadiad fel Manor, Burngreave, Sharrow, Castle, Parsons Cross a Southey Green. Yn nodweddiadol, nodweddir yr ardaloedd hyn gan gyfraddau diweithdra o dros 50%, gyda 30% o gartrefi'n byw mewn tlodi a dros 40% o blant yn byw mewn cartrefi heb unrhyw un yn ennill arian.

Sefydlwyd Sheffield Rebuild fel busnes cymunedol ym 1996 yn ardal Manor yn Sheffield. Fe'i datblygwyd fel menter rhwng cwmni adeiladu lleol a phartneriaethau adfywio. Darparwyd cyllid gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y Gyllideb Adfywio Sengl (SRB), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a grantiau hyfforddiant o Fwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu.

Ers iddo gael ei sefydlu, mae Rebuild wedi tyfu'n gwmni sy'n cyflogi 150 o bobl mewn adeiladu, inswleiddio a thirlunio caled a meddal. Yn ogystal â'i weithgareddau adeiladu, mae dwy gangen fasnachu Rebuild – Reinsulate a Replant yn cymryd rhan mewn inswleiddio a garddwriaeth, gan weithredu heb unrhyw gymhorthdal grant.

Mae dull Rebuild i hyfforddiant wedi'i ddylunio i fodloni anghenion ystod eang o bobl, gan gynnwys y rhai gydag ychydig neu ddim profiad o waith na hyfforddiant. Gall gweithwyr newydd ddilyn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant gyda phwyslais ar amser hyfforddi o ansawdd i ddarparu cymorth ychwanegol lle bo angen.

Dyluniwyd Polisi Cyfle Cyfartal Rebuild i sicrhau bod holl drigolion y cymunedau lleol y mae Rebuild yn gweithio ynddynt yn gallu cystadlu'n gyfartal ar gyfer y nifer gyfyngedig o leoedd hyfforddiant sydd ar gael. Mae prentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant ar gael i unrhyw un o unrhyw oedran sy'n byw yn y cymunedau y mae Rebuild yn gweithredu ynddynt.

Cynigir prentisiaethau mewn gosod brics, gwaith saer a choed, gweithrediadau adeiladu cyffredinol a chynnal a chadw adeiladau. Mae swyddi dan hyfforddiant ar gael mewn amwynderau a garddwriaeth, gwasanaethau inswleiddio, gweinyddiaeth swyddfa, mesur meintiau a chyfrifon a chadw llyfrau. Cynigia'r rhaglenni hyn:

- Brentisiaeth neu swydd dan hyfforddiant dwy i dair blynedd o hyd o dan gytundeb hyfforddiant ffurfiol
- Cyfnod prawf o dri mis
- Hyfforddiant ar y safle
- Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol trwy fynd i'r coleg neu hyfforddiant ar y safle
- Y cyfle i symud ymlaen i gymwysterau uwch
- Cynllun hyfforddi a datblygu personol a adolygir yn rheolaidd
- Adolygiadau perfformiad rheolaidd
- Arweiniad a chyngor personol gan gynnwys cymorth personol;
- Y posibilrwydd o gyflogaeth tymor hir gyda Rebuild neu weithiwr arall
- Cymorth gofal plant lle bo hynny'n briodol

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Sefydlwyd Rebuild fel partneriaeth rhwng cwmni adeiladu lleol wedi'i hen sefydlu, sef Construction Consultants, a phrosiectau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig o Sheffield. Ffurfiwyd cysylltiadau gwaith cryf gyda sefydliadau lleol yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn hyfforddiant fel cyfrwng adfywio cymunedol. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys darparwyr hyfforddiant, asiantaethau sy'n ariannu hyfforddiant, cefnogwyr hyfforddiant o'r diwydiant adeiladu, cyflogwyr, cynghorau hyfforddiant, Awdurdodau Lleol, ysgolion lleol, Eglwysi a Chymdeithasau Cymunedol, Cymdeithasau Tai, y Gwasanaeth Gyrfaoedd, asiantaethau cyflogaeth y llywodraeth a Siambrau Masnach.

O ran cyflawniadau, mae Renewal.Net yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Mae Rebuild a'i gwmnïau cysylltiedig bellach wedi'u sefydlu'n fusnesau hyfyw sy'n cyflogi 150 o bobl
- Ers iddo gael ei sefydlu ym 1996, mae'r cwmni wedi cyflawni cyfanswm trosiant o dros £15m. Mae hyn wedi tyfu o £0.5 miliwn yn ei flwyddyn gyntaf i £6 miliwn yn 2001/2002. Ei brif ffynhonnell contractau yw Cyngor Dinas Sheffield (80%) a Chymdeithasau Tai (20%).
- Ers iddo ddechrau, mae dros 100 o hyfforddeion wedi cael cymwysterau NVQ (62 ar NVQ Lefel 2, 20 ar NVQ Lefel 3 ac 19 ar NVQ Lefel 1). Dyfarnwyd cymwysterau HNC a BTEC i rai hyfforddeion hefyd.
- Tua 81% yw cyfradd cadw hyfforddeion Rebuild ac amcangyfrifir bod rhyw 80% o hyfforddeion yn sicrhau cyflogaeth o ganlyniad
- Daw 74% o'i lafur o ardaloedd Blaenoriaeth 5 lleol lle mae gan Rebuild gontractau ar hyn o bryd
- Yn ystod 2001/2002 roedd Rebuild yn gallu ail-fuddsoddi (trwy gyflogau) £1.2 miliwn yn yr economïau lleol mae'n gwasanaethu ac £1.7 miliwn yn Sheffield ar y cyfan.
- Yn ddiweddar, ymunodd Rebuild â'r South Yorkshire Construction Training Group (consortiwm o gwmnïau adeiladu) ac o fis Medi 2002 bu'n cynnig cymwysterau achrededig yn y gweithle (trwy'r Cyngor Dysgu a Sgiliau)
- Roedd Rebuild yn gallu ecsbloetio cyfleoedd y Fargen Newydd (ILM) yn llwyddiannus ar gyfer ei raglen hyfforddiant.

Yn olaf, ac efallai o'r defnydd mwyaf i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, mae Renewal.Net wedi amlygu rhai o'r prif wersi a ddysgwyd gan Sheffield Rebuild, a all gynnig nifer o wersi o bosibl i'r rhai sy'n dymuno datblygu menter debyg. Dyma nhw:

- Er y dechreuwyd Sheffield Rebuild gyda chyllid grant, mae bellach yn rhedeg fel unrhyw gwmni masnachol arall ac wedi gorfod creu refeniw i ail-fuddsoddi yn ei raglenni cymdeithasol
- Hyd yn oed gyda chwmnïau 'dielw', rhaid cyflawni effeithlonrwydd busnes cyn y gellir cyflawni cynhwysiad cymdeithasol
- Mae'r rhan fwyaf o lifoedd ariannu bellach wedi sychu lan ac mae hyn yn rhoi pwysau ar sefydliadau sy'n chwilio i ddatblygu model tebyg, yn enwedig yn y cyfnodau cynnar pan fo angen cronfeydd dechrau.
- Dylai cwmnïau fod yn chwilio am gyfleoedd marchnata newydd yn barhaus.
- Mae'n hanfodol cael cyfleusterau bancio da, ac i'r cwmni feithrin perthynas dealltwriaeth gydymdeimladol gyda'r banciwr.
- Rhaid i gwmnïau sicrhau bod ganddynt adnoddau staffio sy'n ddigonol o ran ansawdd a maint
- Mae angen i gwmnïau gyflawni'r cymarebau gorau posibl rhwng prentisiaid a gweithredwyr
- Awgrymir bod system fonws yn cael ei defnyddio i gymell y cwmni ar ôl iddo gael ei sefydlu
- Dylid cael strwythur rheoli clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig

Dylai Cymunedau yn Gyntaf nodi hefyd bod Sheffield Rebuild, trwy ei Swyddog Datblygu, bellach yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol i grwpiau a sefydliadau sy'n dymuno datblygu prosiectau adeiladu trwy ddefnyddio llafur lleol. Mae'r manylion cyswllt fel a ganlyn: y Rheolwr Hyfforddiant, Sheffield Rebuild Limited - 0114 243 3965.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

6.5 Canolfan Sgiliau Maesteg

Dyluniwyd Canolfan Sgiliau Maesteg i helpu llenwi bylchau o ran sgiliau adeiladu a gwella amodau tai mewn cymunedau dan anfantais. Nod y Ganolfan Sgiliau yw helpu bodloni'r prinder gweithwyr adeiladu a chrefftwyr medrus yng Nghymru, wrth helpu cymunedau lleol i fwyhau'r manteision o drosglwyddiad stoc graddfa fawr cyntaf Cymru o dai cymdeithasol.

Agorodd y Ganolfan Hyfforddiant Adeiladu ym Maesteg ym mis Tachwedd 2005, ac erbyn yr haf 2006, roedd 37 dysgwr wedi'u recriwtio ar raglen Skillbuild 13 wythnos y Ganolfan. Mae'r Ganolfan Hyfforddiant Adeiladu bellach yn darparu cyrsiau Skillbuild Plus o 13 wythnos a 39 wythnos mewn gwaith coed, plastro, plymwaith, palmentydd, gosod brics, peintio ac addurno.

Amcangyfrifwyd y bydd uwchraddio'r eiddo trosglwyddiad stoc yn yr ardal yn costio tua £70 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf. Nod y Ganolfan Hyfforddiant Adeiladu felly yw ceisio sicrhau y bydd manteision uniongyrchol y buddsoddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl y cymunedau lle mae'r tai wedi'u lleoli. Mae helpu pobl leol ddi-waith ac anweithgar yn economaidd i ennill sgiliau'r diwydiant adeiladu yn golygu eu bod yn cael y gallu i gymryd cyfleoedd cyflogaeth yn eu cymuned eu hunain, gan weithio ar y tai y maen nhw, eu teuluoedd a'u ffrindiau'n byw ynddynt.

Ariennir yr hyfforddiant yn y ganolfan gan Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Ddysgu Seiliedig ar Waith i Oedolion. Yn ogystal, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £250,000 tuag at brynu ac adnewyddu'r adeilad, tra rhoddodd y Ganolfan Byd Gwaith £125,000 a rhoddodd Cymoedd i'r Arfordir (derbynyddion y trosglwyddiad stoc) £80,000 tuag at gostau sefydlu'r ganolfan. Talwyd costau'r ffioedd cyfreithiol a phenseiri gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r Ganolfan Hyfforddiant Adeiladu yn www.bridgend.gov.uk

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

7. Barnau'r Cyflogwyr

7.1 Rhagarweiniad

Yn y rhan hon o'r adroddiad, mae Wavehill yn cyflwyno rhai o'r canfyddiadau allweddol o'i gyfweliadau gyda chyflogwyr / crefftwyr lleol. Dim ond y cwestiynau allweddol a gaiff eu cynnwys fan hyn; i gael fersiwn lawn o'r dadansoddiad data, ynghyd â'r ymatebion i'r holl gwestiynau a ofynnwyd, cyfeiriwch at yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Sylwch fod yr holl gyfweliadau wedi'u cynnal ar sail un i un, naill ai wyneb yn wyneb gyda'r cyfwelai, neu dros y ffôn. Sicrhaodd hyn fod pob cyfwelai'n cael arweiniad a chymorth priodol yn ystod y broses, er mwyn sicrhau eu bod yn hollol glir ynghylch ystyr a dehongliad y cwestiwn.

7.2 Canlyniadau'r Dadansoddiad Data

Sylwch fod rhif y cwestiwn (e.e. C2) yn cyfeirio at rif y cwestiwn yn yr holiadur llawn gwreiddiol, fel sydd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

C2. Dywedwch ychydig am eich busnes (51)

- "Adeiladwr Cyffredinol / Adeiladwr" x 22
- "Plymiwr." X 5
- "Contractwr trydanol" x 3
- "Saer" x 2"
- "Saer a chontractwr ffenestri dwbl"
- "Cwmni Adeiladu"
- "Cynhesu / Plymwaith"
- "Arbenigwyr cynhesu"
- "Adeiladwr tai"
- "Gosodwyr a gwerthwyr llosgwyr coed."
- "Rydym yn adeiladu cartrefi niwtral o ran carbon. Mae angen arbenigedd a gwybodaeth arbenigol arnom i wneud yr hyn rydym yn ei wneud, ond ystyrir ein bod ni'n eithaf ymylol, debyg. Rwy'n credu y gallai'r chwaraewyr mwy o faint symud i mewn ar ein busnes, felly gallai'r ffordd ymlaen fod mewn dylunio pensaernïol ac adeiladu."
- "Rydym yn gwneud adnewyddiadau ac adeiladau newydd. Mae rhyw 6 ohonom ni, ac un person hunangyflogedig. Rydym yn tynnu contractwyr eraill i mewn pan fydd arnom eu hangen."
- "Adeiladu a gwaith saer."
- "Adeiladu cartrefi newydd."
- "Peirianneg Sifil."
- "Adeiladu a pheirianneg sifil."
- "Fframiau derw arbenigol."

Fel y gellir gweld o'r ymatebion uchod, disgrifiodd nifer sylweddol o gyfweledigion (43%) eu hunain fel adeiladwyr neu adeiladwyr cyffredinol. Fodd bynnag, llwyddodd Wavehill i sicrhau bod safbwyntiau wedi'u casglu o ystod eang o grefftau eraill, gan gynnwys crefftau arbenigol fel plymwyr a seiri, gan ymgynghori hefyd â chwmnïau a oedd yn delio â thechnolegau cynaliadwy. Mae'r ystod eang hon o arbenigeddau cyfranogwyr yn sicrhau cynrychiolaeth dda ar draws y sampl.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C3. Faint o weithwyr sydd gennych? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

Fel y gellir gweld o'r siart uchod, nid oedd gan fwyafrif y cyfweledigion unrhyw weithwyr ac maent yn unig fasnachwyr, neu roeddent yn cyflogi nifer fach o bobl fel micro fusnesau yn unig. Mae hyn yn adlewyrchiad cywir o'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, sy'n cynnwys busnesau bach a micro fusnesau yn bennaf.

C4. Am beth ydych chi'n chwilio mewn darpar weithiwr yn y diwydiant adeiladu?

A) Sgiliau adeiladu penodol (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

B) Agwedd dda at y gwaith a'r cyflogwr (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

C) Agwedd dda at gwsmeriaid (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

D) Profiad (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

E) Parodrwydd i ddysgu (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

F) Brwdfrydedd (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

G) Arall

- "Nid ydym yn bwriadu cyflogi neb." x 4
- "Gonestrwydd." x 2
- "Prydlon."
- "Dibynadwy."
- "Mae'n dibynnu ar y gwaith rwyf am iddynt ei wneud. At ei gilydd, agwedd yw'r un bwysicaf fwy na thebyg, ond weithiau mae angen sgiliau arnoch, felly ni allaf ddweud mewn gwirionedd."
- "Mae hwnnw'n un anodd ei ateb. Rwy'n ceisio recriwtio technolegwyr pensaernïol ar hyn o bryd ond mae'r practis agosaf yn Wrecsam. Felly ar yr un llaw rwy'n chwilio am sgiliau arbenigol ond ni allaf ddod o hyd iddynt, felly, efallai bydd rhaid i mi hyfforddi rhywun - ac os dyna yw'r achos, wedyn mae agwedd yn bwysicach."
- "Mae gennym fwy o ddiddordeb mewn agwedd na sgiliau yn sicr."

O'r atebion a roddwyd gan gyfweledigion, ac a gyflwynwyd yn siartiau A i F uchod, gellir gweld yn glir mai'r rhinweddau allweddol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt yw brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu ac agwedd dda. Graddiwyd sgiliau penodol a phrofiad yn sylweddol is. Mae hwn yn fater allweddol sy'n codi o'r ymchwil: y cynsail sylfaenol ar gyfer cynllun prentisiaeth yn yr ardal yw uwch-sgilio pobl ifanc i allu cymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, mae cyflogwyr fel petaen nhw'n nodi'n eithaf clir nad sgiliau'r gweithwyr yw eu prif flaenoriaeth. Mae angen cadw'r anghysondeb hwn mewn cof drwy'r amser.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

I gael crynodeb o'r canlyniadau o'r cwestiwn hwn, ewch i'r siart gryno isod i gael cymhariaeth uniongyrchol o'r sgorau.



C5a. Ydych chi wedi recriwtio (neu wedi ceisio recriwtio) gweithwyr newydd i'r diwydiant adeiladu yn y gorffennol? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C5b. Ydych chi'n recriwtio (neu'n ceisio recriwtio) gweithwyr newydd i'r diwydiant adeiladu ar hyn o bryd? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

C5c. Ydych chi'n disgwyl recriwtio (neu geisio recriwtio) gweithwyr newydd i'r diwydiant adeiladu yn y dyfodol? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

Mae'r 3 siart a gyflwynwyd uchod yn nodi nad yw mwyafrif y cyflogwyr – 24 (neu 47%) – yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd ar hyn o bryd, er bod 17 (33%) yn disgwyl recriwtio ar ryw adeg yn y dyfodol.

Pan ofynnwyd pam i'r 24 cyflogwr a nododd nad oeddent yn disgwyl recriwtio yn y dyfodol, yr ateb mwyaf cyffredin a roddwyd (gan ychydig o dan hanner y sawl a holwyd) oedd bod yn well ganddynt weithio ar eu pen eu hunain. Ymddangosai bod hyn yn nodi bod yn well gan lawer o grefftwyr gadw eu statws fel unig fasnachwyr. Gallai hyn fod yn sgil mwynhau gweithio ar eu pen eu hunain, neu oherwydd amharodrwydd i gymryd staff ychwanegol, a'r cyfrifoldebau a'r fiwrocratiaeth a ddaw yn sgil hyn.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C6. A oes gennych unrhyw brentisiaid, naill ai ar gynllun ffurfiol neu anffurfiol ar hyn o bryd? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

Fel y gellir gweld o'r uchod, dim ond 6 chwmni (12%) sydd â phrentis / prentisiaid ar eu llyfrau ar hyn o bryd.

C8. Pa un o'r crefftau canlynol, os o gwbl, hoffech chi eu datblygu trwy recriwtio a hyfforddiant? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

Fel y gellir gweld o'r uchod, nid oedd mwyafrif y cyfweledigion – 22 o'r rhai a holwyd, neu 43% - yn chwilio i ddatblygu unrhyw grefftau penodol trwy recriwtio neu hyfforddi. Lle nododd y cyfweledigion bod ganddynt ddiddordeb mewn datblygu crefftau, gwaith coed (20 ymateb, 39%), bricwyr (14 ymateb, 27%) a thrydanwyr (11 ymateb, 22%) oedd y crefftau a gafodd eu crybwyll amlaf.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C9a. Yn eich barn chi, beth yw lefel sgiliau a phrofiad y diwydiant adeiladu ymhlith poblogaeth Dyfi? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

Fel y gellir gweld o'r siart uchod, ni theimlai'r rhan fwyaf o gyfweledigion (14 ymateb, neu 29%) y gallent roi sylwadau ar lefel y sgiliau adeiladu ymhlith poblogaeth Bro Ddyfi. Lle'r oedd y cyfweledigion yn hapus i roi sylwadau, caiff yr atebion eu rhannu i lawr y canol ac felly maent yn amhendant, gan ddatgelu bod niferoedd cyfartal o bobl yn credu bod sgiliau (a) ar gael neu (b) ddim ar gael (sgoriodd y ddau ateb hyn 13 ymateb, neu 25%). Felly, nid yw'r cwestiwn hwn yn rhoi unrhyw ganlyniadau clir o ran barnau am lefelau sgiliau yn y diwydiant adeiladu.

C10. Ydy eich cwmni'n defnyddio unrhyw fathau arloesol o sgiliau adeiladu yn ogystal â'r crefftau a'r sgiliau mwy traddodiadol (gallai'r rhain gynnwys cynhesu heulol, arbed ynni, sgiliau tai eco, etc)? (51)



Cyfweliadau Ymgynghori Wavehill 2007

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae'r cwestiwn hwn yn nodi mai dim ond 13 cwmni (25%) sy'n defnyddio mathau arloesol neu gynaliadwy o sgiliau adeiladu, gan nodi bod y sector hwn yn parhau'n faes twf posibl i Fro Ddyfi.

C16. Beth yw'r rhwystrau i gymryd prentis yn eich barn chi? (Sylwch y gallai'r cyfweledigion nodi mwy nag un rhwystr)

O'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn, roedd Wavehill yn gallu grwpio'r ymatebion yn themâu. Dyma nhw:

- **Iechyd a Diogelwch / tâp coch a gwaith papur x 19**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Materion Iechyd a Diogelwch yw'r rhwystrau mwyaf; dylid newid y rheolau i fod yn fwy realistig" ac "Mae gormod o dâp coch ynghlwm wrth gymryd prentis".

- **Cost x 11**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Bod ar fy ngholled" a "Gorfod talu pan fydd y gwaith yn dawel."

- **Brwdfrydedd / Agwedd / Parodrwydd i Ddysgu x 8**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Mae'n ymddangos bod yna ddiffyg ymroddiad i weithio a pharodrwydd i ddysgu" ac "Rydym wedi cael un neu ddau nad oeddent i weld fel petaen nhw am weithio."

- **Amser x 4**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Mae'n rhaid i ni wylio nhw ac archwilio'u gwaith a dyna beth sy'n costio i ni, gan ei fod yn golygu bod rhaid i ni gymryd dyn oddi ar ei waith i wirio beth mae'r prentis yn ei wneud."

- **Amrywiol x 24**

Rhoddwyd ystod eang o atebion eraill, nad oeddent yn ffitio'n daclus yn themâu hefyd, ac roeddent yn cynnwys "I ni, y risg o fuddsoddi llawer o arian yn eu hyfforddiant arbenigol ydyw a'r person hwnnw ddim yn aros gyda'r cwmni" ac "I mi, fy oedran i yw'r peth, pe byddwn yn iau gallwn ei wneud."

C17. Beth yw'r goblygiadau o gymryd prentis? (Sylwch fod cyfweledigion yn gallu nodi mwy nag un rhwystr)

Unwaith eto, o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn, roedd Wavehill yn gallu grwpio ymatebion yn themâu. Dyma nhw:

- **Iechyd a Diogelwch / tâp coch a gwaith papur x 16**
- **Cost x 6**
- **Brwdfrydedd / Agwedd / Parodrwydd i Ddysgu x 6**
- **Amser x 4**
- **Amrywiol x 27**

Roedd yr atebion yn y thema 'amrywiol' yn cynnwys: "Bydden i'n cael fy nghlymu'n fwy, ac yn colli rhyddid", "Mae'n rhaid cael amynedd i addysgu a chynghori" a "Gorfod bod yn atebol i bobl swyddogol yn busnesa."

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C18. Beth yw manteision cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu?

Unwaith eto, o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn, roedd Wavehill yn gallu grwpio ymatebion yn themâu. Dyma nhw:

- **Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu crefft / cryfhau'r gweithlu x 26**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Rhoi cyfle i rywun ddysgu'r grefft" ac "Adeiladu'r genhedlaeth nesaf fel y gallant fyw yn lleol a chael gwaith yn lleol."

- **Cymorth ychwanegol i'r cyflogwr x 3**

Roedd un ateb enghreifftiol yn cynnwys "Pâr arall o ddwylo a gadael i'r bobl ifanc gymryd mwy o gyfrifoldeb yn raddol ac eistedd nôl ychydig yn fwy."

- **Amrywiol x 22**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "ychydig iawn yn yr oes sydd ohoni heddiw" ac "Ni fyddai'n rhaid gwneud tasgau diflas."

C19. Beth yw anfanteision cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu?

Unwaith eto, o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn, roedd Wavehill yn gallu grwpio ymatebion yn themâu. Dyma nhw:

- **Iechyd a Diogelwch / tâp coch a gwaith papur x 11**
- **Diffyg hyfforddiant ymarferol / gormod o theori x 6**

Roedd ateb enghreifftiol yn cynnwys "Fel y mae'r prentisiaethau ar hyn o bryd, theori a dim profiad ydyn nhw i gyd. Sut gallant ddysgu os nad ydynt yn cael unrhyw brofiad ymarferol"

- **Cost x 5**
- **Colli annibyniaeth x 3**

Roedd ateb enghreifftiol yn cynnwys "Rwy'n hoffi gweithio ar fy mhen fy hun."

- **Brwdfrydedd / Agwedd / Parodrwydd i Ddysgu x 2**
- **Amser x 2**
- **Amrywiol x 15**

Roedd atebion enghreifftiol yn cynnwys "Os byddaf am gael help unrhyw bryd nid wyf yn cael unrhyw broblemau" " Os oes gennyf waith mawr rwy'n is-gontractio" ac "Nid yw'r bechgyn sy'n dod o'r CITB yn ddigon deallus rhagor. Caiff yr holl blant clyfar eu hannog i fynd i'r brifysgol, ac felly'r rhai nad ydynt mor glyfar yw'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl. Ac ni allwch gael bachgen sydd hyd yn oed yn methu darllen tâp mesur ar safle adeiladu."

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C21. Ydy cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad da ar gyfer ardal Bro Ddyfi yn eich barn chi? (51)



Cyfweliadau Ffôn Wavehill Consulting 2007

Wrth i'r cyfweliadau ddirwyn i ben, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad da ar gyfer Bro Ddyfi yn eu barn nhw. Fel y gellir gweld yn y siart uchod, mae 35 o ymatebwyr (69%) yn ystyried bod cynllun o'r fath yn syniad da.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol cofio'r atebion i'r cwestiynau canlynol – C22 a C24 hefyd.

C22. Ydy cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi yn eich barn chi? (51)



Cyfweliadau Ffôn Wavehill Consulting 2007

Mae'r siart hon yn dangos bod 29 o ymatebwyr (57%) yn teimlo bod cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi. Mae hyn 6 (neu 12%) yn is na'r nifer sy'n credu bod cynllun prentisiaeth yn syniad da.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C24. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhoi?

Pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w rhoi ynghylch y potensial ar gyfer cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu, roedd y canlynol ymhlith rhai o'r atebion a roddwyd:

- "Rwy'n defnyddio llawer o isgontractwyr pan fydd gennyf lawer o waith neu pan fydd angen sgiliau penodol arnaf."
- "Os a phan fydd angen cymorth ychwanegol arnaf, rwy'n isgontractio i bobl hunangyflogedig."
- "Mae'r rhan fwyaf o adeiladwyr yn defnyddio isgontractwyr y dyddiau hyn pan fydd ganddynt lawer o waith"
- Mae NVQs yn wastraff amser ac arian, ni all unrhyw beth y mae'r llywodraeth wedi'i gyflwyno ddod yn agos i'r ffordd hen ffasiwn. Ni allwch ddod yn drydanwr mewn 2 flynedd, yn enwedig yn y dyddiau cymhleth sydd gennym heddiw."
- Y cynllun hen ffasiwn yw'r un gorau. Mynd i'r coleg am 6 mis wedyn gweithio am 3 blynedd a hanner gan ryddhau'r prentis am ddiwrnod yr wythnos i fynd i'r coleg. Dyma'r ffordd orau sydd wedi'i phrofi."

7.3 Casgliadau'r Dadansoddiad Data

- Roedd Wavehill yn gallu sicrhau croestoriad da o gyfweledigion, gyda chyfranogwyr yn amrywio o adeiladwyr cyffredinol trwy ystod eang o grefftau arbenigol.
- Nid oedd gan fwyafrif y cyfweledigion (53%) unrhyw weithwyr, neu roeddent yn cyflogi rhwng 1 a 5 person (31%) yn unig.
- Y prif rinweddau y mae cyflogwyr y diwydiant adeiladu yn chwilio amdanynt yn eu gweithwyr yw: brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, ac agwedd dda. Graddiwyd sgiliau a phrofiad penodol yn is.
- Nid yw mwyafrif y cyflogwyr (86%) yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd ar hyn o bryd.
- Dim ond 12% o gyfweledigion (6 chwmni o'r 51 a holwyd) sydd â phrentis / prentisiaid ar eu llyfrau ar hyn o bryd.
- Nid yw mwyafrif y cyfweledigion (43%) yn edrych i ddatblygu unrhyw grefftau penodol trwy recriwtio neu hyfforddiant. Lle nododd y cyfweledigion bod ganddynt ddiddordeb mewn datblygu crefftau, gwaith coed (39%), bricwyr (27%) a thrydanwyr (22%) oedd y crefftau a grybwyllwyd amlaf.
- Ni theimlai'r rhan fwyaf o'r cyfweledigion (29%) y gallent roi sylwadau ar lefel gyffredinol y sgiliau adeiladu ymhlith poblogaeth Bro Ddyfi. Lle'r oedd y cyfweledigion yn hapus i roi sylwadau, rhennir yr atebion i lawr y canol ac felly maent yn amhendant, gan ddatgelu bod niferoedd cyfartal o bobl yn credu bod sgiliau naill ai (a) ar gael neu (b) ddim ar gael (sgoriodd y ddau ateb hyn 25%).
- Dim ond 25% o gwmnïau sy'n defnyddio mathau arloesol neu gynaliadwy o sgiliau adeiladu, gan nodi bod y sector hwn yn parhau'n faes twf posibl ar gyfer Bro Ddyfi.
- Ymddangosai mai'r rhwystrau a'r goblygiadau o gymryd prentis oedd:

    - Iechyd a Diogelwch / tâp coch a gwaith papur
    - Cost
    - Brwdfrydedd / agwedd / parodrwydd i ddysgu
    - Diffyg hyfforddiant ymarferol i brentisiaid pan fyddant yn y coleg / gormod o theori
    - Amser
    - Y cyflogwr yn colli annibyniaeth / rhyddid

O'r atebion hyn, Iechyd a Diogelwch oedd yr ymateb a roddwyd amlaf.

- Mae 69% o ymatebion yn ystyried bod cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad da i ardal Bro Ddyfi.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- Teimlai 57% o ymatebion fod cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi.

O'r crynodeb o ganlyniadau a gyflwynwyd uchod, gellir gweld, er y gallai fod cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o gynlluniau prentisiaeth, yn ymarferol, mae cyflogwyr yn amharod i ymroi i gymryd prentis. Pan fydd gofynion baich gwaith yn cynyddu, neu fod angen sgiliau penodol ychwanegol, mae'n ymddangos bod yn well gan fusnesau isgontractio yn ôl yr angen, neu dynnu ar eu rhwydweithiau cymorth anffurfiol eu hunain (e.e. aelodau o'r teulu).

Yn ogystal, rhoddodd y cyfweledigion hefyd sylwadau ar natur y ddarpariaeth hyfforddiant presennol ar gyfer y diwydiant, gan nodi bod llawer yn teimlo nad yw'r cyrsiau a'r prentisiaethau ar eu fformat presennol yn cyflwyno'r hyn y mae ar gyflogwyr eu heisiau. Er enghraifft, siaradodd fwy nag un cyflogwr am brentisiaid yn dod ar y safle yr oedd ganddynt ddiffyg sgiliau sylfaenol ac felly ni allent gyflawni tasgau syml. Siaradodd cyflogwyr eraill am ddiffyg profiad ymarferol a oedd yn gwneud prentisiaid yn berygl i'w cael ar y safle.

Felly, er bod 69% o grefftwyr / cyflogwyr yn dweud eu bod yn meddwl bod cynllun prentisiaeth yn syniad da, pan fyddai'r materion yn cael eu harchwilio ymhellach, caiff rhai problemau arwyddocaol eu datgelu.

Yn ogystal, gofynnodd Wavehill i'r holl gyfweledigion a allem drosglwyddo'u manylion cyswllt i bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, fel y gellid cysylltu â nhw yn y dyfodol (esboniwyd y gallai'r cyswllt hwn ymwneud â symud y syniad o gynllun prentisiaeth, ymchwil arall neu gyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth gyffredinol yn ei flaen mewn perthynas â gwaith Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal). Dim ond 53% o gyfweledigion gytunodd i'w manylion cyswllt gael eu trosglwyddo – cyfradd is na'r hyn a obeithiwyd petai yna frwdfrydedd go iawn am gynllun prentisiaeth.

7.4 Canlyniadau Grŵp Ffocws y Cyflogwyr

Ar ôl i'r canlyniadau o gyfweliadau'r cyflogwyr gael eu dadansoddi a'u hadolygu, penderfynodd Wavehill y byddai o gymorth i gynnal grŵp ffocws pellach i drafod rhai o'r materion a'r pryderon a godwyd, ac roedd is-grŵp economi a chyflogaeth Cymunedau yn Gyntaf, a oedd yn llywio'r broses ar ran y Bartneriaeth lawn, yn cytuno â'r cynllun hwn. Cyflwynwyd y grŵp ffocws hwn yn ogystal â'r fethodoleg ychwanegol ar gyfer yr astudiaeth hon.

Teimlwyd y byddai'r grŵp ffocws ychwanegol hwn yn galluogi cyflogwyr i ddod at ei gilydd yn anffurfiol, i drafod eu pryderon am brentisiaethau a chyflogaeth yn gyffredinol, ac i drafod camau gweithredu y gellir eu cymryd o bosibl i oresgyn y pryderon neu'r rhwystrau hyn. Felly, gwahoddodd Wavehill nifer o gyflogwyr i fynychu grŵp ffocws yng Ngwesty Wynnstay yng nghanol tref Machynlleth. Dewiswyd y lleoliad hwn gan y byddai'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl leol, a byddai hefyd yn helpu i greu awyrgylch anffurfiol priodol. Trefnwyd y grŵp ffocws ar gyfer 6.30pm i 7.30pm ar nos Fawrth 8 Mai 2007, a darparwyd lluniaeth a bwffe, fel y gallai cyfranogwyr fynd yn syth o'r gwaith os oeddent yn dymuno.

O'r cyflogwyr / crefftwyr a gafodd wahoddiad, cytunodd 15 ar lafar i ddod ar y noson. Anfonwyd llythyr o gadarnhad at bawb 5 niwrnod cyn y digwyddiad, a gofynnwyd iddynt roi gwybod i Wavehill os nad oeddent yn gallu dod am unrhyw reswm. O'r 15 o ymatebion cadarnhaol hyn a ddaeth i law cyn y digwyddiad, dim ond un cyfranogwr fynychodd ar y noson. Ni roddodd yr un o'r 14 o ddarpar fynychwyr eraill wybod i Wavehill na fyddent yn mynychu.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Felly, ni allai Wavehill fwrw ymlaen â'r grŵp ffocws fel y trefnwyd. Fodd bynnag, rhoddodd yr un cyflogwr a fynychodd gyfraniad defnyddiol at yr ymchwil ehangach, a gwnaeth rai sylwadau diddorol mewn perthynas â'r rhwystrau (e.e. Iechyd a Diogelwch, tâp coch a gwaith papur, cost, brwdfrydedd / agwedd / parodrwydd i ddysgu, diffyg hyfforddiant ymarferol, gormod o theori yn y coleg, y cyflogwyr yn colli annibyniaeth o ran amser etc) i gymryd prentis neu i gymryd gweithwyr yn gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod yna brinder sgiliau yn y diwydiant, a gymhlethwyd gan ddiffyg dealltwriaeth a diffyg gwybodaeth mewn perthynas â beth yn union yw cynllun prentisiaeth.

Yn ogystal, teimlai'r cyflogwr fod ysgolion ar hyn o bryd yn cael eu hannog i wthio am lwyddiant mewn TGAU a Safon Uwch, gyda phrifysgol i ddilyn, yn hytrach na hyrwyddo crefftau llaw fel dewis gyrfa ymarferol. Er bod hyn yn fater strategol, byddai modd gweithio â'r ysgol ar lefel leol i hyrwyddo adeiladu a chrefftau llaw eraill fel dewisiadau realistig, hyd yn oed ar gyfer pobl ifanc mwy academaidd. Teimlwyd bod hyn yn hynod bwysig yng ngoleuni dyfodiad benthyciadau i fyfyrwyr a ffioedd dysgu, a all arwain at bobl ifanc yn gadael y brifysgol gyda dyled sylweddol: byddai dechrau ar gynllun prentisiaeth yn tynnu'r ymrwymiad dyled hwn ymaith i'r person ifanc.

Yn olaf, teimlai'r cyflogwr y gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i ddatblygu model a fyddai'n dangos yr effaith economaidd petai un person lleol yn unig yn cael ei hyfforddi mewn crefft llaw fedrus, ac yn aros yn yr ardal. Teimlwyd y gallai hyn gael ei ddefnyddio fel arf hyrwyddo mewn ysgolion (yn ogystal â lleoliadau eraill) ar gyfer recriwtio pobl ifanc i grefftau llaw ac adeiladu medrus. Ystyriwyd bod ymarfer cysylltiadau cyhoeddus felly, yn enwedig gyda staff ysgol, disgyblion, a rhieni yn hollbwysig i ddatblygiad pellach y diwydiant yn lleol.

Defnyddiwyd y pryderon hyn, fel a fynegwyd gan gyflogwyr yn ystod y broses gyfweld, ac fel a welwyd gan yr ymateb siomedig i'r grŵp ffocws, i lywio'r argymhellion a wneir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

8. Barnau'r Rhanddeiliaid

8.1 Rhagarweiniad

Fel rhan o'i ymchwil sylfaenol, cyfwelodd Wavehill â chynrychiolwyr o 11 sefydliad rhanddeiliaid. Yn yr achos hwn, mae'r rhanddeiliaid yn sefydliadau sydd, ar adegau, yn gweithio ochr yn ochr neu mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi. Felly, bydd gan y sefydliadau rhanddeiliaid hyn farn ar sut y dylid cyflwyno gwasanaethau, gweithgareddau y dylid symud yn eu blaenau, materion y dylid mynd i'r afael â nhw, etc. Er nad oes unrhyw gytundebau partneriaeth ffurfiol yn aml rhwng sefydliadau 'rhanddeiliaid' gwahanol, maent yn sicr yn effeithio ar ei gilydd mewn rhyw ffordd ar ryw lefel, ac felly dylent fod yn gallu cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Er y gallai rhai rhanddeiliaid gael eu hystyried wrth wraidd gwaith y Bartneriaeth, gallai eraill gael eu hystyried yn fwy ymylol.

Yn ystod y broses ymgynghori hon, ceisiwyd safbwyntiau gan randdeiliaid yn adrannau AADGOS a DEIN Llywodraeth Cynulliad Cymru, y sector gwirfoddol, y sector cymunedol, partneriaethau cyhoeddus / preifat, cyrff y diwydiant, sefydliadau hyfforddiant ac addysg, etc.

Yn y rhan hon o'r adroddiad, mae Wavehill yn cyflwyno rhai o'r prif ganfyddiadau o'i gyfweliadau â rhanddeiliaid. Dim ond y cwestiynau allweddol a gaiff eu cynnwys fan hyn; i gael fersiwn lawn o'r dadansoddiad data, ynghyd â'r ymatebion i'r holl gwestiynau a ofynnwyd, cyfeiriwch at yr atodiad i'r adroddiad hwn.

8.2 Canlyniadau Dadansoddiad Data

Sylwch fod rhif y cwestiwn (e.e. C3) yn cyfeirio at rif y cwestiwn yn yr holiadur llawn gwreiddiol, fel sydd yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

C3. Beth mae cyflogwyr y diwydiant adeiladu'n chwilio amdanynt mewn darpar weithiwr yn eich barn chi? Rhowch sgôr ar raddfa o 1 i 5, lle byddai 5 yn bwysig iawn ac 1 fyddai'r lleiaf pwysig.

O'r atebion a roddwyd gan gyfweledigion, gellir gweld bod rhanddeiliaid yn credu mai'r prif rinweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn gweithwyr yw brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, ac agwedd dda. Graddiwyd sgiliau penodol a phrofiad yn sylweddol is. Gweler y siart gryno isod i gael cymhariaeth uniongyrchol o'r sgorau.

Ansawdd	Sgôr 5 (h.y. pwysig iawn)
Brwdfrydedd	25%
Parodrwydd i ddysgu	38%
Agwedd dda at gwsmeriaid	37%
Agwedd dda at waith a'r cyflogwr	62%
Sgiliau adeiladu penodol	38%
Profiad	25%

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mae'n ddiddorol cymharu'r barnau hyn â barnau'r cyflogwyr eu hunain. Gweler y siart gryno isod i gymharu'r sgorau.



Fel y gellir gweld yn glir, mae cyflogwyr yn graddio brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, ac agwedd dda at gwsmeriaid dipyn yn uwch nag y mae'r rhanddeiliaid. I'r gwrthwyneb, mae rhanddeiliaid yn graddio sgiliau adeiladu penodol yn uwch nag y mae'r cyflogwyr. Er i nifer y cyfweliadau â rhanddeiliaid fod yn gymharol fach (dim ond 8 o'r 11 o gyfweledigion oedd yn teimlo y gallent roi ateb i'r cwestiwn hwn) mae'r ymatebion hyn yn dangos bod yna rywfaint o wahaniaeth barn o bosibl rhwng rhanddeiliaid a chyflogwyr o ran beth yw priodoleddau allweddol gweithiwr.

C6. Pa bosibiliadau ar gyfer cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu sy'n bodoli yn ardal Bro Ddyfi yn eich barn chi?

Sylwch y caiff yr ystod lawn o atebion i'r cwestiwn hwn ei chynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- "Gallai fod yn bosibl datblygu gwasanaeth o fath 'biwro priodas' er mwyn cysylltu cyflogwyr â phobl ifanc."
- "Credaf fod y ffaith fod y Ganolfan Dechnoleg Amgen wedi'i lleoli yn yr ardal yn cynnig i gwmnïau eraill yn yr ardal gael sgil-gwmnïau gydag eco-faterion ac adeiladu gwyrdd. Rwy'n credu hefyd oherwydd y bydd rhaid i dai gael gradd ynni yn fuan, efallai y bydd cyfleoedd yn codi yn y maes hwnnw."
- "Gallai fod yn bosibl rhoi cymorth o fathau eraill i gyflogwyr, er enghraifft cyngor ac arweiniad."
- Mae lefelau sgiliau yn weddol isel yn yr ardal. Ceir digon o sgiliau lefel 1, sy'n ddigonol ar gyfer labro cychwynnol, ond ceir diffyg wrth symud ymlaen i'r lefelau uwch. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod teithio a mynediad yn fater mewn ardaloedd gwledig, ac oherwydd nad yw'r colegau'n cynnig y lefelau uwch hyn. Rwy'n credu pe byddem yn canolbwyntio ar faterion gwyrdd a chynaliadwyedd, gallai esgor ar gyfle gwirioneddol, a gallai'r Ganolfan gael ei chlymu'n fwy â'r ysgol a'r gymuned. Byddwn yn symud ymlaen gydag argymhellion Pathfinder, ac yn dod â'r holl ddysgu yn ardal Machynlleth at ei gilydd ar un safle, ynghyd â gwasanaethau cymorth fel yr Heddlu, iechyd, a grwpiau cymunedol."

Nododd yr holl sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gymorth eang gan randdeiliaid am gynllun prentisiaeth. Mae'r syniadau i gysylltu â dulliau adeiladu cynaliadwy a'r potensial hyfforddiant ac addysg ar gyfer yr ardal a fydd yn codi o ddatblygiadau Pathfinder o ddiddordeb penodol.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

C8. Ydych chi'n credu y gall cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu helpu i fynd i'r afael â cholli swyddi o ganlyniad i weithleoedd yn cael eu cau a'u symud o Fro Ddyfi yn ddiweddar?

Roedd rhai o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- "Gall, ond mewn ffordd fach yn unig fwy na thebyg. Gallai greu swyddi ond nid yw'n mynd i fod mewn niferoedd mawr."
- "Rwy'n credu bod angen iddo hefyd gysylltu'n ôl ag angen y cyflogwr ac efallai nid yn unig yn ardal Bro Ddyfi ond yn yr ardaloedd o amgylch hefyd."
- "Rwy'n siŵr y gall helpu rhyw ychydig. Ond mae angen i gyflogwyr edrych y tu allan i'r ardal am gontractau a chyfleoedd mwy o faint, a dim ond wedyn mae'n debygol o gael effaith fawr ar swyddi."
- "Gall, nododd y datganiad rhanbarthol o anghenion ar gyfer yr ardal hon dreftadaeth a sgiliau adeiladu eraill fel blaenoriaeth uchel. Mae angen i ni allu hyfforddi pobl fel y gallant fwydo i mewn i'r swyddi hyn. Bydd tipyn o ddatblygu yn yr ardal, gyda'r Cynulliad yn symud i Aberystwyth, a bydd cyfleoedd adeiladu'n datblygu yn sgil hyn."

Un o'r meysydd diddordeb penodol yn y brîff ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn oedd a allai cynllun prentisiaeth helpu i fynd i'r afael â cholli swyddi a oedd wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar. Fel y gellir gweld o'r sylwadau uchod, teimla rhanddeiliaid y gallai cynllun felly gyfrannu at lefelau cyflogaeth, ond efallai mewn niferoedd bach yn unig.

C9. Ydych chi'n credu y byddai eich sefydliad yn cymryd rhan mewn cynllun o'r fath?

- "Ydw." x 4
- "Dim ond trwy strwythur Cymunedau yn Gyntaf; ddim yn uniongyrchol."
- "Ni allaf weld unrhyw gysylltiadau gwirioneddol ac eithrio ein bod yn cynnig ein cefnogaeth fel rhan o'r rhaglen adfywio gyffredinol."
- "Byddai hynny'n dibynnu ar sut y cafodd ei sefydlu – gallwn ni petai'n cael ei sefydlu fel ILM."
- "Mae'n rhywbeth na fyddwn yn dweud na i weithio gydag ef. Rydym yn addysgu rhai cyrsiau mwy penodol o ran sgiliau fan hyn, efallai y gallai hynny fod yn rhywbeth y gallwn edrych ar addasu"
- "Ydw, ond rwy'n credu y byddem yn cymryd rhan trwy AADGOS yn hytrach na DEIN."

Mae atebion i'r cwestiwn hwn yn nodi y byddai mwyafrif y sefydliadau rhanddeiliaid yn fodlon cymryd rhan mewn cynllun prentisiaeth ar gyfer yr ardal, petai cynllun o'r fath yn cael ei ddatblygu. Aeth y rhanddeiliaid ymlaen i ddweud y byddent yn cyfrannu mewn meysydd fel gwybodaeth am gymorth busnes, codi ymwybyddiaeth o'r cynllun, cynorthwyo gyda chynllunio busnes ar gyfer cyflogwyr a sefydliadau hyfforddiant, cyngor mewn perthynas ag adeiladau cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy, profiad o weithio gyda phobl ifanc, etc. Mae hyn yn nodi bod arbenigedd ar gael i Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, petai cynllun prentisiaeth yn mynd yn ei flaen.

C12. O'ch safbwynt chi, beth yw manteision cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu posibl yn eich barn chi?

Roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- "Helpu pobl ifanc i mewn i waith."
- "Y cyfle am weithlu gwerth uwch yn yr ardal. Gallai hefyd danio hunangyflogaeth yn yr unigolion."
- "Gallai godi lefel y sgiliau yn y gweithle."
- "Y prif gymhellwr fyddai rhoi swyddi/prentisiaethau i bobl ifanc a byddai'n darparu sgiliau iddynt a fydd gyda nhw am byth ar yr un pryd."

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- "Petai'n gynllun byw yn addysgu sgiliau gwirioneddol, byddai'n uwch-sgilio'r farchnad lafur leol"
- Os gall prentisiaeth ddarparu cymhwyster ac ystod dda o brofiad, mae'n werth ei wneud".

Mae'r ymatebion hyn yn nodi bod rhanddeiliaid a chyflogwyr yn gweld bod manteision tebyg yn fras yn codi o gynllun prentisiaeth o bosibl.

C13. O'ch safbwynt chi, beth ydych chi'n meddwl yw anfanteision cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu posibl?

Roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- "Cyflogwyr yn teimlo y byddant yn ormod o drafferth i fynd iddynt i gael rhywbeth yn ôl o ran gweinyddu ychwanegol, etc."
- "Rwy'n credu bod yr isafswm cyflog wedi cael effaith fawr ar gynlluniau prentisiaeth, gan nad yw'n galluogi i bobl ifanc fynd trwy broses hyfforddi o 5 mlynedd fel yr oeddent yn arfer ei wneud."
- "Rwy'n credu mai'r brif broblem yw bod cyflogwyr yn cael prentisiaid i lenwi cymysgwyr sment drwy'r dydd. Nid ydynt yn cael hyfforddiant eang. Yn ogystal, mae llawer o fusnesau yn yr ardal hon yn fusnesau teuluol bach ac nid ydynt am gymryd pobl nad ydynt yn eu hadnabod - mae'r rhwydweithiau'n dynn iawn."
- "Rwy'n credu nad yw pobl wir yn gwybod beth mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud, felly mae'n bosibl cael dryswch."
- "Dydw i ddim yn credu y gall cynllun weithredu fel asiantaeth trefnu yn unig, a'i adael fel hynny. Rwy'n credu bod angen i ni ddilyn pethau trwyddo a monitro dilyniant, fel y gallwn weld pa mo effeithiol yw'r cynllun."

I gael cofnod llawn o'r holl ymatebion, cyfeiriwch at yr atodiad i'r adroddiad hwn. Yn y cyfamser, mae'r atebion a restrir uchod yn nodi bod gan randdeiliaid bryderon mewn perthynas â chynllun prentisiaeth posibl. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn – fel ymwybyddiaeth o Gymunedau yn Gyntaf – yn lleol, wrth i rai eraill – fel effaith yr isafswm cyflog – fod yn fwy strategol eu natur.

C14. Ydy cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad da i ardal Bro Ddyfi yn eich barn chi?

Mewn egwyddor, teimlai'r holl randdeiliaid y cyfwelwyd â nhw fod cynllun prentisiaeth yn syniad da i ardal Bro Ddyfi. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y cwestiwn blaenorol, roedd rhai amheuon a phryderon. Er enghraifft:

- "Mewn egwyddor, ydy, ac yn yr amgylchiadau iawn lle mae hyd yr hyfforddiant yn iawn ac y caiff hyfforddiant ei gyflwyno yn seiliedig ar anghenion y cyflogwyr, ac ni chaiff ei osod gan yr hyn y mae darparwyr eisoes yn ei gyflwyno."

C15. Ydy cynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi yn eich barn chi?

Mewn egwyddor, teimlai mwyafrif y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw bod cynllun prentisiaeth yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi. Fodd bynnag, cafwyd amheuon a phryderon. Er enghraifft:

- "Dydw i ddim yn siŵr, rwy'n credu y bydd rhaid i ni gael ein harwain ar hyn gan y cwmnïau masnach a hyfforddiant gan y byddant yn gwybod mwy nag ydw i."
- "Mae'n dibynnu ar dair elfen i. Angen y cyflogwr ii. Maint y prosiect e.e. nifer y bobl ifanc a gaiff eu targedu a iii. Y goblygiadau cyfalaf, faint fydd yn costio a phwy fydd yn talu amdano."
- "Ydy, gallai weithio mewn cyd-destun. Ond mae angen disgwyliadau realistig ar Fro Ddyfi o'i effaith ar yr ardal. Meddyliwch yn fach ac wedyn tyfwch yn unol â hynny."
- "Rwy'n credu y byddai'n anodd ei redeg."

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

- "Ydy. Ond byddai angen i ni fod yn siŵr iawn o'r ystadegau – a oes galw am hyn? Mae angen iddo fod yn gynaliadwy yn y tymor hir."
- "Ydy, cyhyd â'i fod yn cysylltu â gwaith Pathfinder. Os nad yw'n cysylltu â Pathfinder, wedyn byddai gan Gymunedau yn Gyntaf ar ei ben ei hun ddiffyg grym i symud hwn yn ei flaen."

8.3 Casgliadau'r Dadansoddiad Data

Fel y gellir gweld o'r ymatebion uchod, ac yn yr adran flaenorol, mae cyflogwyr yn graddio brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, ac agwedd dda at gwsmeriaid dipyn yn uwch nag y mae'r rhanddeiliaid. I'r gwrthwyneb, mae rhanddeiliaid yn graddio sgiliau adeiladu penodol yn uwch nag y mae'r cyflogwyr. Er i nifer y cyfweliadau â rhanddeiliaid fod yn gymharol fach (dim ond 8 o'r 11 o gyfweledigion oedd yn teimlo y gallent roi ateb i'r cwestiwn hwn) mae'r ymatebion hyn yn dangos bod rhywfaint o wahaniaeth barn o bosibl rhwng rhanddeiliaid a chyflogwyr o ran beth yw prif briodoleddau gweithiwr.

Mae'r sylwadau gan randdeiliaid i gyd yn nodi cefnogaeth fras am gynllun prentisiaeth. Mae'r syniadau i gysylltu â dulliau adeiladu cynaliadwy o ddiddordeb penodol, sy'n cysylltu â'r canfyddiadau a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad: h.y. bod y sector adeiladu cynaliadwy yn parhau i gynnig potensial ar gyfer ehangu yn yr ardal. At hynny, mae nifer o randdeiliaid hefyd yn gweld yr angen i ymateb i angen a ddangoswyd gan y cyflogwyr. Fodd bynnag, fel y gwelsom o adran flaenorol yr adroddiad, ni ellir sicrhau bod diddordeb y cyflogwr, er ei fod yn bresennol i ryw raddau, yn cael ei drosi'n gamau gweithredu. Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod cyflogwyr yn amharod i ymroi i gymryd prentis. Pan fydd y gofynion baich gwaith yn cynyddu, neu fod angen sgiliau penodol ychwanegol, mae busnesau i'w gweld yn ffafrio isgontractio yn ôl yr angen, neu i dynnu ar eu rhwydweithiau cymorth anffurfiol eu hunain (e.e. aelodau o' teulu).

Yn ogystal, mae rhanddeiliaid i weld yn ymwybodol o faterion eraill a allai effeithio'n negyddol ar allu Bro Ddyfi i sefydlu cynllun prentisiaeth llwyddiannus. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid yn poeni am y lefelau ymwybyddiaeth cyffredinol o raglen Cymunedau yn Gyntaf, wrth boeni hefyd bod yr isafswm cyflog wedi effeithio'n negyddol ar hyfywedd cynlluniau prentisiaeth yn gyffredinol. At hynny, roedd rhanddeiliaid hefyd yn poeni am y potensial i gyflogwyr gamddefnyddio cynlluniau prentisiaeth, trwy beidio â darparu profiad na hyfforddiant priodol o eang i'w prentisiaid.

At hynny, un o'r meysydd diddordeb penodol yn y brîff ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn oedd a allai cynllun prentisiaeth helpu i fynd i'r afael â cholli swyddi a oedd wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar. Fel y gellir gweld o'r sylwadau uchod, teimla rhanddeiliaid y gallai cynllun felly gyfrannu at lefelau cyflogaeth, ond efallai mewn niferoedd bach yn unig. Yn ogystal, roedd nifer o randdeiliaid yn cydnabod ymhellach y manteision posibl mewn hyfforddiant ac addysg yn yr ardal, a fydd yn codi o ddatblygiadau Pathfinder. Er nad yw efallai'n datblygu nifer fawr o gyfleoedd swyddi newydd yn uniongyrchol, gallai'r potensial am effeithiau uniongyrchol o lefelau cynyddol o hyfforddiant yn yr ardal fod yn sylweddol (ond, hyd yma, nid yw'n bosibl dyfalu ynghylch yr effeithiau disgwyliedig, gan nad yw cynlluniau Pathfinder wedi'u sefydlu'n gadarn eto).

Mewn egwyddor felly, teimlai mwyafrif y rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod cynllun prentisiaeth yn syniad realistig ar gyfer ardal Bro Ddyfi. Fodd bynnag, roedd amheuon a phryderon am ymarferoldeb a hyfywedd cynllun felly.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

9. Canlyniadau Grŵp Ffocws Pobl Ifanc

9.1 Rhagarweiniad

Fel rhan o'i ymchwil, roedd Wavehill yn gallu cynnal grŵp ffocws gyda phobl ifanc o Ysgol Bro Ddyfi. Ymgynghorodd Wavehill â 10 disgybl ym Mlwyddyn 10 ac 11 (h.y. y rhai o oed TGAU). Gofynnwyd i ferched a bechgyn ill dau fynychu, ond dim ond bechgyn gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn y digwyddiad, gan na fynegodd unrhyw ferched ddiddordeb. Gofynnodd Wavehill am siarad â chymysgedd o ddisgyblion - h.y. y rhai y mae ganddynt eisoes ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu, a'r rhai sydd heb benderfynu ar eu dewisiadau gyrfa eto.

Cynhaliwyd y grŵp ffocws yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, ar ddydd Mercher 9 Mai 2007, ac fe'i hwyluswyd gan un o Uwch Ymgynghorwyr dwyieithog Wavehill. Hoffai Wavehill ddiolch i staff a disgyblion Ysgol Bro Ddyfi am ein galluogi ni i gyflawni'r elfen hon o'r ymgynghoriad.

9.2 Canlyniadau Trafodaeth y Grŵp Ffocws

O'r materion a drafodwyd, gwelodd Wavehill fod gan fwyafrif y disgyblion yn y grŵp diddordeb mewn dilyn gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu ar ôl gorffen yn yr ysgol. Roedd y meysydd diddordeb a nodwyd yn cynnwys: gwaith coed, adeiladu cyffredinol, gosod brics, electroneg a pheirianneg drydanol. Roedd un aelod o'r grŵp am ddod yn syrfëwr meintiau, ond roedd yn bwriadu gwneud hyn ar ôl gwneud rhai blynyddoedd yn y fasnach adeiladu.

Roedd dau aelod o'r grŵp yn bwriadu gweithio mewn sector penodol y tu allan i'r ardal. Dywedodd un ohonynt:

- "*Rwyf am wneud peirianneg drydanol a gweithio i Airbus a sefais yr arholiad yr wythnos ddiwethaf. Mae'n flwyddyn lawn yn y coleg yn Sir y Fflint wedyn blwyddyn yn eu ffatri yn Broughton gydag un diwrnod yr wythnos yn y coleg.*"

Roedd dau arall wedi ymrestru ar brentisiaethau yng Ngholeg Powys; roedd un am fod yn adeiladwr a'r llall am fod yn saer:

- *"Rydych yn gwneud blwyddyn lawn yn y coleg ac wedyn yn dod o hyd i adeiladwr i'ch cymryd – rwyf wedi dod o hyd i un yn barod. Wedyn rydych yn cael eich rhyddhau am ddiwrnod o'r coleg ac mae'r cwmni'n rhoi profiad i chi"*

Pan ofynnwyd pam roedd ganddynt ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu, roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn adnabod pobl yn y diwydiant, ac roedd rhai wedi diogelu eu prentisiaethau trwy gysylltiadau teuluol a chymdeithasol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae fy nhad yn adeiladwr ac felly af i weithio iddo fe fwy na thebyg.'*
- *Mae fy mrawd yn adeiladwr a byddaf gydag ef yn ail flwyddyn fy mhrentisiaeth. Gweithiais gydag ef dros yr haf, yn labro ac yn helpu pan oedd gwaith mawr gydag ef.*
- *Mae fy ewythr yn gweithio i Airbus a dyna pam rwyf am weithio yno. Mae wedi rhoi tipyn o gyngor a help i mi.'*

Gofynnwyd i'r mynychwyr ystyried hefyd pa fath o briodoleddau a sgiliau yr oedd cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn gweithiwr. Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Brwdfrydedd
- Gwybodaeth sylfaenol am adeiladu
- Gwybodaeth dechnegol
- Y gallu i yrru
- Canlyniadau arholiad da
- Rhifedd a llythrennedd sylfaenol

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Ar lefel uwch (fel fforman, Syrfëwr Meintiau, pensaer), teimlai'r disgyblion hefyd bod y canlynol yn bwysig:

- Sgiliau cyfathrebu
- Sgiliau rheoli pobl

Pan ofynnwyd iddynt ystyried lefel y cyfleoedd oedd ar gael yn y diwydiant adeiladu i bobl ifanc yn ardal Bro Ddyfi, roedd y grŵp fel petai ganddo farnau amrywiol. Er eu bod yn credu bod y cyfleoedd yn yr ardal yn gyfyngedig, roedd rhai yn lleisiol ynghylch peidio ag ystyried hwn yn rhwystr anorchfygol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Nid oes llawer i gael ar hyd y lle yma, ond mae'n rhaid i chi deithio gydag adeiladu. Nid yw'r holl waith ar garreg y drws. Mae pobl yn cael contractau yn Walsall, Birmingham, yn ogystal ag yn lleol.'*
- *Ysguboriau wedi'u trawsnewid a thai ffrâm goed yw'r cyfan yn yr ardal hon.'*

Nodwyd rhwystr i gyflogaeth lefel mynediad gan un aelod o'r grŵp a chafwyd cytundeb ar hyn:

- *'Y peth yw ni fydd trydanwyr a phlymwyr yn eich cymryd chi fan hyn oherwydd maen nhw'n ofni'r gystadleuaeth. Maen nhw'n eich hyfforddi chi, rydych chi'n cymhwyso, wedyn rydych yn mynd yn hunangyflogedig ac yn cystadlu yn eu herbyn nhw am waith. Nid oes digon o waith i bawb yn yr ardal.'*

Pan ofynnwyd a fyddai'n well ganddynt astudio hyfforddiant sgiliau adeiladu, cafwyd ymateb cymysg gan y grŵp. Nid oedd y rhan fwyaf o aelodau'r grŵp a oedd ar fin dechrau eu hyfforddiant yng Ngholeg Powys yn y Drenewydd yn cael eu hatal gan y teithio, ac nid oedd yr un o'r lleill wedi ystyried bod teithio i'r Drenewydd bob dydd yn rhwystr a oedd yn eu hatal rhag ystyried hwn fel dewis. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae'r bws i'r Drenewydd am ddim, a dim ond awr mae'n cymryd.'*
- *'Mae'n mynd â chi allan o'r dref, i rywle newydd i gyfarfod â phobl newydd. Does gen i ddim problem.'*
- *'Hefyd, mae'n rhaid i chi archwilio ychydig a dod o hyd i gyfleoedd newydd y tu allan i'r ardal. Ni allwch gael popeth wrth garreg y drws.'*

Fodd bynnag, pan roddwyd y posibilrwydd o gynllun prentisiaeth ym Mro Ddyfi gerbron, cefnogodd y grŵp y syniad yn unfrydol, gan ddweud y byddai'n dda i'r ardal:

- *'Byddai'n dda petai coleg i gael ym Mach. Byddai'n dda i'r ardal, ac yn dod â phobl o'r tu allan i mewn i astudio, gan helpu cwmnïau i ddod o hyd i bobl, dod â mwy o swyddi efallai, dydw i ddim yn gwybod.'*

Pan ofynnwyd ym mha iaith y byddai'n well ganddynt astudio ynddi, roedd y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a oedd yn bresennol (dros hanner y grŵp) i gyd o'r farn y byddent yn hoffi gwersi dwyieithog, yn hytrach na darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Rydym wedi dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ers yr ysgol feithrin, felly hoffwn barhau yn y Gymraeg, ond hoffwn wybod y geiriau Saesneg am bethau fel offer, uniadau pren, technegau hefyd. Byddai cymysgedd yn dda iawn.'*
- *'Ie, hoffwn innau barhau yn y Gymraeg hefyd, yn sicr, ond nid wyf am fod ar safle adeiladu y tu allan i Gymru a ddim yn gwybod enw rhywbeth! Hoffwn wybod y derminoleg Saesneg hefyd.'*

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

At hynny, pan ofynnwyd a oeddent yn credu y dylai Ysgol Bro Ddyfi allu cynnig cyrsiau ar sgiliau adeiladu, roedd mwyafrif y rhai oedd yn bresennol yn cefnogi'r syniad ac yn teimlo y gallai eu helpu i gael swyddi yn lleol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae'r ysgol yn ein hadnabod ni a byddai'n dda aros yn lleol.'*
- *'Ac mae ein gwersi fan hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.'*
- *'Gallai helpu dod â swyddi i mewn debyg, a dod â phobl i mewn i astudio fan hyn.'*

Teimlai'r rhan fwyaf o'r disgyblion y byddai prentisiaeth ffurfiol yn sicr o gymorth iddynt gael swyddi, ond roedd y rhai a oedd am ddilyn y trywydd hwn eisoes wedi sicrhau hyfforddiant ac wedi sicrhau lleoliadau gyda chwmnïau lleol yn anffurfiol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Bydd y cyflogwr rwy'n debygol o fod gydag ef yn gweithio'n lleol, felly teithio i'r Drenewydd yw'r unig wahaniaeth i mi, ond fel rwy'n dweud, mae'r bws am ddim a dydy e ddim mor bell â hynny'.*
- *'Yr un peth i mi, ni fydd hynny'n fy atal.'*

Gwnaeth un ymatebwr y pwynt mai pen uchaf y sbectrwm cyfleoedd oedd yn gorfodi pobl i deithio allan o'r ardal:

- *'Os ydych am fod yn bensaer, yn Syrfëwr Meintiau neu'n beiriannydd safle, mae'n rhaid i chi deithio i Brifysgol Lerpwl, Caerdydd neu rywle.'*

Yn olaf, pan roddwyd y posibilrwydd o gynllun prentisiaeth ym Mro Ddyfi gerbron, cefnogodd y grŵp y syniad yn unfrydol, gan ddweud y byddai'n dda i'r ardal:

'Byddai'n dda i'r ardal, ac yn dod â phobl o'r tu allan i mewn i astudio, gan helpu cwmnïau i ddod o hyd i bobl, dod â mwy o swyddi efallai, dydw i ddim yn gwybod.'

9.3 Casgliadau

Fel y gellir gweld o'r ymatebion uchod, mae nifer o ddisgyblion yn Ysgol Bro Ddyfi a chanddynt ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu. Cafwyd cefnogaeth hefyd o blaid y cysyniad o gynllun prentisiaeth lleol.

Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi hefyd bod disgyblion â diddordeb mewn adeiladu eisoes wedi dechrau gwneud eu cynlluniau eu hunain i fynd i mewn i'r diwydiant. Roedd y rhain yn ymwneud yn gyffredinol â chael cyngor a chefnogaeth aelodau o'r teulu sydd eisoes yn y diwydiant, neu leoliadau gwaith gyda chwmnïau aelodau'r teulu neu ffrindiau'r teulu. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau arolwg y cyflogwyr, a oedd yn nodi bod cwmnïau'r diwydiant adeiladu'n dibynnu i raddau sylweddol ar rwydweithiau teulu a ffrindiau anffurfiol i recriwtio gweithwyr a phrentisiaid, ac i ymdrin â chyfnodau prysur (yn ogystal â chyflogi isgontractwyr yn ôl yr angen).

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

10. Y Dyfodol

Mae'r ymchwil sy'n sail i'r adroddiad hwn yn nodi bod yna rywfaint o gefnogaeth am brentisiaid / cynllun prentisiaeth yn ardal Bro Ddyfi, ond nid yw'r gefnogaeth hon yn unfrydol, ac yn sicr heb ystod o gafeatau. Ar hyn o bryd, nid yw 86% o gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu yn yr ardal yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd, a dim ond 6 chwmni o'r 51 a gafodd eu cyfweld sydd â phrentis ar eu llyfrau ar hyn o bryd.

Mae'r ymchwil gyda chyflogwyr yn nodi bod cwmnïau adeiladu yn yr ardal yn aml yn dibynnu ar isgontractio a rhwydweithiau anffurfiol i fodloni gofynion baich gwaith newidiol. At hynny, pan gaiff prentisiaid eu cymryd, maent yn aml yn cael eu cymryd o ganlyniad i gysylltiadau â rhwydweithiau anffurfiol o deuluoedd a ffrindiau, yn hytrach na thrwy gysylltu â'r CITB. Mae hyn yn codi'r mater ynghylch a oes cynllun prentisiaeth yn yr ystyr traddodiadol yn gweddu'n benodol i natur yr ardal.

Yn ogystal, mae'r adroddiad wedi amlinellu'r canfyddiad ymhlith cyflogwyr bod y bobl ifanc mwy galluog yn academaidd yn cael eu hannog i wneud cais i'r brifysgol, yn hytrach na dysgu crefft llaw (medrus) trwy gynllun prentisiaeth neu lwybr arall i'r diwydiant. Ystyriwyd hyn yn rhwystr sylweddol i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant, a theimlai llawer o gyflogwyr fod yna angen ar frys i hyrwyddo'r diwydiant fel dewis swydd ymarferol i bobl ifanc. Y cwestiwn y mae angen mynd i'r afael ag ef yn yr achos hwn yw ai gwaith Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, neu waith ar gyfer y llywodraeth ganolog yw hyn.

Os bydd unrhyw syniadau'n ymwenud â chynllun prentisiaeth yn cael eu symud ymlaen yn yr ardal, bydd rhaid iddynt gael eu datblygu'n araf ac yn gynyddol. Byddai angen i gynllun o unrhyw fath sefydlu enw da ymhlith nifer fach o gyflogwyr lleol a allai, trwy rwydweithiau cymdeithasol a gwaith agos sy'n bodoli, arwain at argymhelliad ar lafar, a thwf pellach ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, mae'r diffyg diddordeb nodedig yn y grŵp ffocws a gynhaliwyd i drafod posibiliadau yn nodi y gallai hyd yn oed dechrau cynllun ar raddfa fach fod yn broblematig.

Mae hyn yn nodi'n glir fater mewn perthynas â'r gromlin cyflenwad a galw; h.y. a oes digon o alw o'r diwydiant adeiladu yn lleol i gefnogi mwy o bobl hyfforddedig. Os mai adnewyddiadau yw'r prosiectau adeiladu gan mwyaf, fel y dywedodd un cyfwelai, yna mae'n bosibl y bydd y math hwn o farchnad ond yn cefnogi unig fasnachwyr a busnesau teuluol bach. Yn y sefyllfa hon, hwyrach nad yw'r cysyniad o brentisiaeth y diwydiant adeiladu yn gweddu i'r farchnad gyflogaeth leol, yn sgil diffyg cymhlethdod a chontractau o faint addas yn y farchnad honno. Felly, er ei bod yn ymddangos bod diddordeb yn y cynllun o safbwynt cyflenwad (h.y. y sefydliadau rhanddeiliaid) mae'n ymddangos bod gan yr ochr galw (h.y. cyflogwyr) farn wahanol. Dim ond pan fydd cyfatebolrwydd rhwng galw a chyflenwad y gallai cynllun felly fod yn llwyddiannus.

Yn olaf, os cymerir unrhyw gamau yn yr ardal, **rhaid** iddynt wedyn fod yn gysylltiedig â'r argymhellion yng ngwaith Pathfinder, y enwedig y rhai sydd yng ngwaith Miller Research, sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu. Mae nifer o'r argymhellion hyn yn ymwneud â'r camau cynnar iawn o unrhyw ddatblygiad cynllun – fel mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol y diwydiant – ac felly maent yn hynod berthnasol i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, ac unrhyw benderfyniadau y gallai gymryd. Sylwch y caiff yr holl argymhellion hyn eu cynnwys yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Gan gofio'r materion hyn, mae Wavehill wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer camau pellach. Caiff y rhain eu rhestru yn adran ganlynol yr adroddiad.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

11. Argymhellion

Mater: Ceir ansicrwydd cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut i symud y syniad o gynllun prentisiaeth ymlaen ar gyfer ardal Bro Ddyfi, ym mha bynnag ffurf y gallai gymryd (os o gwbl). Mae'r diffyg consensws clir gan gyflogwyr lleol mewn perthynas â'r mater hwn, fel y gwelwyd yn yr adroddiad hwn, hefyd yn golygu nad yw 'llyw' mewn perthynas â chyfeiriad i'r dyfodol ar ddod o'r diwydiant adeiladu ei hun.

Tystiolaeth: Cyfweliadau â'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod cynrychiolwyr Is-grŵp Economi a Chyflogaeth Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ymweld â nifer o gynlluniau eraill (fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn) i weld a ellir dysgu unrhyw wersi trwy brofiad mewn ardaloedd eraill. Gyda'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymchwil Wavehill, gallai ymweliadau felly helpu'r Bartneriaeth i bennu ffordd gliriach ymlaen. Mae'n ymddangos o'r ymchwil fod busnesau lleol yn rhy fach o bosibl (h.y. unig fasnachwr neu fusnes teuluol) i gefnogi cynllun o'r fath ac, oni bai y gellir gweld y ddwy ochr yn gweithio mewn ffordd sy'n fanteisiol i'w gilydd, yna mae gormod o risg yn perthyn i'r prosiect hwn. Gallai'r cynllun hwn weithio'n dda iawn mewn ardaloedd gyda busnesau adeiladu mwy o faint a chontractau mwy o faint, ond mae'r cwestiwn yn parhau ynghylch a allai economi Bro Ddyfi gefnogi'r prosiect hwn. Gallai ymweliadau â phrosiectau eraill helpu i egluro elfennau cynllun llwyddiannus, a nodi pa gamau nesaf y gellir eu cymryd o bosibl ym Mro Ddyfi.

Mater: Nid yw cyflogwyr y diwydiant adeiladu yn ardal Bro Ddyfi yn gyffredinol frwd ynghylch datblygiad posibl cynllun prentisiaeth. Mae'n ymddangos bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o gynlluniau prentisiaeth, yn ogystal â nifer o bryderon difrifol a leisiwyd gan gyflogwyr mewn perthynas â materion cyfreithiol, diogelwch ac ymarferol sy'n gysylltiedig â chymryd prentis.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal hon.

Argymhelliad: Mae angen gwaith pellach gyda chyflogwyr er mwyn cynyddu dealltwriaeth / proffil prentisiaethau, ac i hyrwyddo manteision posibl cynlluniau prentisiaeth. At hynny, gallai fod yn bosibl i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi i: ddod ag arbenigwyr i mewn i roi cyngor / cymorth ar recriwtio prentis; dod ag arbenigwyr i mewn i roi cyngor / cymorth ar faterion iechyd a diogelwch; dod ag arbenigwyr i mewn i ddarparu hyfforddiant mewn delio â gwaith papur; cyflwyno nosweithiau gwybodaeth i ddod â chyflogwyr a CITB a cholegau at ei gilydd er mwyn iddynt allu cyfnewid barnau mewn perthynas â phroblemau a phryderon gyda chynlluniau prentisiaeth cyfredol, etc. Gallai gwaith datblygu felly gynnwys archwiliad pellach o'r gost i'r cyflogwr o gymryd prentis, fel adolygiad o gostau cyflogau uniongyrchol, costau hyfforddi, cymorth ariannol o gyrff y diwydiant etc, fel bod cyflogwyr yn glir iawn ynghylch y costau o gymryd prentis, ac felly'n teimlo y gallant wneud penderfyniad yn seiliedig ar ffeithiau. Yn hyn o beth, mae potensial i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi weithredu fel both canolog neu'n fan canolog rhwydwaith, gan hwyluso trafodaethau, trefnu hyfforddiant, adeiladu sianelau cyfathrebu, a gwella cyfathrebu rhwng sefydliadau.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mater: Mae yna ganfyddiad ymhlith rhai cyflogwyr a rhanddeiliaid y caiff y diwydiant adeiladu (neu ffurfiau eraill o lafur llaw medrus) ei ystyried mewn goleuni llai ffafriol, o gymharu â'r dewis o gyflawni canlyniadau TGAU a Safon Uwch da, a mynd i'r Brifysgol. Fodd bynnag, y realiti yw bod y diwydiant adeiladu yn ddewis gyrfa hyfyw ac yn parhau i fod felly i bobl ifanc, yn ardal Bro Ddyfi a ledled y DU, gan fod ymchwil flaenorol a gynhaliwyd gan nifer o sefydliadau (ac a nodwyd yn yr adroddiad hwn) yn nodi bod yna brinder sgiliau cynyddol yn y diwydiant.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi. Adolygiad desg-seiliedig Wavehill o ymchwil sy'n bodoli, cyn dechrau ymchwil sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid yn archwilio'i ddewisiadau ar gyfer gweithio gydag Ysgol Bro Ddyfi i hyrwyddo crefftau llaw, lled-fedrus a medrus fel dewis gyrfa ymarferol. Fodd bynnag, bydd y dewis hwn yn cael ei gynghori'n unig os yw'r diwydiant adeiladu lleol yn fodlon cymryd rhan yn fwy yn y broses. Os nad ydynt yn cymryd rhan, hwyrach y bydd rhaid i bobl ifanc sy'n dymuno dechrau yn y diwydiant adael yr ardal i fynd at gyfleoedd cyflogaeth, a fyddai'n groes i ddiben y cynllun.

Mater: Codwyd y posibilrwydd o ddatblygu cyrsiau adeiladu yn Ysgol Bro Ddyfi gan nifer o randdeiliaid. Y canfyddiad yw y byddai hyn yn galluogi pobl ifanc leol i ddeall manteision gyrfa yn y diwydiant yn gliriach. Gallai hyn arwain o bosibl at ddatblygu cyfleoedd treialon gwaith / profiad gwaith, a allai helpu rhyddhau cyflogwyr o rai o'u pryderon mewn perthynas â bod yn 'gaeth' i brentis anaddas (er y byddai nifer o faterion iechyd a diogelwch arwyddocaol i'w goresgyn gyda chynllun o'r fath).

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid yn archwilio'i ddewisiadau ar gyfer gweithio gydag Ysgol Bro Ddyfi i ddatblygu cyrsiau adeiladu. Fodd bynnag, bydd y dewis hwn yn cael ei gynghori'n unig os yw cyflogwyr yn y diwydiant adeiladu lleol yn fodlon cymryd rhan yn fwy yn y broses. Yn ogystal, byddai angen i unrhyw ddatblygiadau o ran cyrsiau adeiladu fod yn unol ag argymhellion Pathfinder Llywodraeth Cynulliad Cymru.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007

Mater: Pan ofynnwyd i'r cyflogwyr beth oeddent yn teimlo oedd y rhinweddau pwysicaf mewn gweithiwr, roedd ganddynt y diddordeb mwyaf mewn: brwdfrydedd, parodrwydd i ddysgu, agwedd dda at gwsmeriaid, ac agwedd dda at waith ac at y cyflogwr. Mae'r rhain yn sgiliau a phriodoleddau gweithle eithaf sylfaenol, yn hytrach na gwybodaeth am neu brofiad penodol yn y diwydiant adeiladu.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda'r diwydiant adeiladu yn yr ardal, a chyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Gallai fod yn bosibl i Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid ddatblygu cyrsiau hyfforddiant / sesiynau codi ymwybyddiaeth sy'n archwilio pwysigrwydd priodoleddau ac ymddygiadau gweithle sylfaenol. Gallai'r seminarau hyn gael eu cyflwyno i bobl ifanc er mwyn eu paratoi nhw'n well ar gyfer gwaith. Nid oes rhaid cyfyngu sesiynau hyfforddiant felly i'r diwydiant adeiladu, gan fod profiad gwerthuso blaenorol Wavehill yn nodi bod agwedd / parodrwydd i ddysgu etc yn cael eu hystyried gan gyflogwyr fel priodoleddau dymunol mewn gweithiwr ar draws pob sector. Mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Pen Llŷn wedi cymryd rhan mewn cyflwyniad uniongyrchol tebyg, ac mae'n bosibl y gallai gynnig cyngor i'r Bartneriaeth yn ardal Bro Ddyfi.

Mater: Gallai fod yn ddefnyddiol cynnal ymchwil pellach i gynllun prentisiaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal, gan ddod â sectorau eraill i mewn o bosibl fel peirianneg, amaethyddiaeth etc. Gallai ehangu cwmpas y cynllun prentisiaeth posibl yn y ffordd hon helpu i gywain mwy o ddiddordeb yn lleol. Roedd Wavehill wedi gobeithio trafod y posibilrwydd hwn gyda grŵp o gyflogwyr adeiladu ym Mro Ddyfi, ond cafodd ei atal rhag gwneud hynny gan yr ymateb gwael i'r gwahoddiad i grŵp ffocws.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill â rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Argymhelliad: Bod Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn ystyried yn ofalus a fyddai ymchwil pellach o ddefnydd yn y cam hwn, neu a ddylid cynnal hwn yn nes ymlaen.

Mater: Mae cryn dipyn o ymchwil a arweinir yn strategol, o ran atgyfnerthu a gwella cyflwyno hyfforddiant, eisoes wedi'i ddatblygu yn ardal Bro Ddyfi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Tystiolaeth: Cyfweliadau Wavehill gyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi. Adolygiad desg-seiliedig Wavehill o ddatblygiadau ymchwil cyfredol, cyn dechrau'r ymchwil sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Argymhelliad: Bod rhaid i unrhyw gamau a'r holl gamau gweithredu a gymerir gan Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a'i bartneriaid gysylltu â'r argymhellion yng ngwaith Pathfinder, yn enwedig y rhai sydd yn adroddiad Miller Research yn ymwneud â'r diwydiant adeiladu. Er nad oes galw aruthrol i weld gan gyflogwyr yn ardal Bro Ddyfi am gynllun prentisiaeth y diwydiant adeiladu sydd wedi'i ganolbwyntio'n benodol ar ardal Bro Ddyfi, nid yw hyn yn golygu nad oes dewis i ddatblygu'r syniad dros ardal ehangach (h.y. canolbarth Cymru) fel y disgrifiwyd yn Adroddiad Miller. Gallai'r llond dwrn o gyflogwyr Bro Ddyfi a ddangosodd ddiddordeb gwirioneddol yn y syniad o gynllun felly, ynghyd â'r bobl ifanc yr oedd ganddynt ddiddordeb hefyd, gysylltu â chynllun ehangach ei sail, ac felly ni fyddent yn colli allan yn sgil diffyg cynllun penodol Bro Ddyfi. Felly, teimla Wavehill y dylai Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi barhau i gynnal cysylltiadau cryf gyda datblygiadau Pathfinder, er mwyn sicrhau y gall cyflogwyr a phobl ifanc lleol fynd at unrhyw gynllun a gaiff ei symud ymlaen.

© HAWLFRAINT - Wavehill 2007